# Effeithiau mudo diweddar ar ddyrannu tai a gweithrediadau awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth ddigartrefedd

## Astudiaeth mewn chwe awdurdod lleol

**Rhagfyr 2009**

**Cynnwys**

Rhestr Ffigurau
Rhestr Tablau
Rhestr Termau

| Rhif | | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 2 | Mudo a mynediad i dai cymdeithasol: adolygiad o lenyddiaeth | 3 |
| 3 | Cyd-destun: y ‘chwe sir’ | 30 |
| 4 | Barn rhanddeiliaid lleol allweddol | 51 |
| 5 | Digartrefedd yn y ‘chwe sir’ | 66 |
| 6 | Gosodiadau yn y ‘chwe sir’ | 81 |
| 7 | Casgliadau | 93 |
| 8 | Argymhellion | 100 |
| Atodiad 1 | Llyfryddiaeth | 103 |
| Atodiad 2 | Ystadegau poblogaeth a thai allweddol yn ardal y ‘chwe sir’ | 109 |
| Atodiad 3 | Mapiau’n dangos llif mudol i bob un o’r ‘chwe sir’ ac oddi yno | 110 |
| Atodiad 4 | Gweithgarwch digartrefedd a gosodiadau yn y ‘chwe sir’ 2005-06 hyd 2007-08 | 123 |

## Rhestr Ffigurau


| Rhifau a Theitlau Ffigurau | Tudalen |
| --- | --- |
| Ffigur 1. Cyfanswm y mudo rhyngwladol i'r DU ac oddi yno 1998–2007 | 5 |
| Ffigur 2. Newidiadau cwrs bywyd cysylltiedig â newidiadau mewn aelwydydd a mudo | 11 |
| Ffigur 3. Cofrestriadau'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn ardal y 'chwe sir' yn ôl chwarter yn y cyfnod Ebrill 2006 hyd Ragfyr 2008 | 40 |

## Rhestr Tablau


| Rhifau a Theitlau Tablau | Tudalen |
|---|---|
| Tabl 1. Rhifau YG a ddyrannwyd i weithwyr tramor (miloedd) 2002-03 hyd 2007-08 | 6 |
| Tabl 2. Cyfradd mudo rhyngwladol net 2003-04 hyd 2006-07 yn y 'chwe sir' | 38 |
| Tabl 3. Rhifau YG a ddyrannwyd i weithwyr tramor (miloedd) 2002-03 hyd 2007-08 yn y 'chwe sir' | 38 |
| Tabl 4. Ardal Tarddiad yn y Byd gweithwyr tramor (miloedd) yn gwneud cais am rifau YG yn y 'chwe sir' rhwng 2005-06 hyd 2007-08 | 39 |
| Tabl 5. Cymeradwyaethau'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn y 'chwe sir' yn y cyfnod Mai 2004 hyd Ragfyr 2008 | 39 |
| Tabl 6. Cenedligrwydd Cymeradwyaethau'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn y 'chwe sir' yn y cyfnod Mai 2004 hyd Ragfyr 2008 | 40 |
| Tabl 7. Cynnydd/gostyngiad net drwy fudo o ardaloedd awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru yn y 'chwe sir' rhwng 2005 a 2008 | 42 |
| Tabl 8. Cynnydd/gostyngiad net drwy fudo yn y 'chwe sir' yn ôl grŵp oed yn y cyfnod 2005-2007 | 47 |
| Tabl 9. Diffyg blynyddol net tai fforddiadwy yn y 'chwe sir' | 48 |
| Tabl 10. Penderfyniadau digartrefedd yn y chwe sir yn y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08 a maint y sampl gofynnol a'r hyn a gyflawnwyd | 67 |
| Tabl 11. Ymgeiswyr digartrefedd ym mhob un o'r 'chwe sir' yn ôl hyd cysylltiad â'r awdurdod lleol y gwnaed cais iddo. | 68 |
| Tabl 12. Tarddiad ymgeiswyr digartrefedd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r awdurdod lleol y gwnaed cais iddo | 69 |
| Tabl 13. Ymgeiswyr digartrefedd yn ôl math o aelwyd a hyd y cysylltiad â'r ardal. | 70 |
| Tabl 14. Ymgeiswyr digartrefedd yn ôl oed pennaeth yr aelwyd a hyd y cysylltiad â'r ardal. | 70 |
| Tabl 15. Amgylchiadau tai aelwydydd digartref ar adeg eu cais, yn ôl hyd y cysylltiad â'r ardal. | 71 |
| Tabl 16. Ymgeiswyr digartrefedd yn byw mewn trefi glan môr ar adeg eu cais digartrefedd, yn ôl hyd y cysylltiad â'r ardal | 72 |

## Rhestr Tablau (Parhad)

**Rhifau a Theitlau Tablau** **Tudalen**


Tabl 17. Nifer cyfeiriadau yn y 5 mlynedd diwethaf ymgeiswyr digartrefedd oedd wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol am lai na 5 mlynedd, yn ôl hyd y cysylltiad â’r ardal 73

Tabl 18. Rheswm dros ddigartrefedd, yn ôl hyd y cysylltiad â’r ardal 74

Table 19. Penderfyniad a wnaed mewn perthynas ag ymgeiswyr digartrefedd, yn ôl hyd y cysylltiad â’r ardal 75

Tabl 20. Ansawdd casglu tystiolaeth dros y blynyddoedd 2005-06 hyd 2007-08 76

Tabl 21. Ymgeiswyr yn gofyn am adolygiad o’r penderfyniad a wnaed mewn perthynas â digartrefedd, yn ôl hyd y cysylltiad â’r ardal. 77

Tabl 22. Hyd yr amser y mae aelwydydd digartrefedd yn ei dreulio mewn llety dros dro a ddarparwyd gan yr awdurdod yn ôl hyd y cysylltiad â’r ardal. 78

Tabl 23. Camau a gymerwyd gan awdurdod lleol mewn perthynas ag ymgeiswyr digartrefedd, yn ôl hyd y cysylltiad â’r ardal. 78

Tabl 24. Gosodiadau yn y chwe sir yn y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08 a’r maint sampl gofynnol ym mhob awdurdod lleol. 81

Tabl 25. Gosodiadau i fudwyr diweddar ym mhob un o’r chwe sir yn y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08. 83

Tabl 26. Tarddiad tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â’r awdurdod lleol pan gawsant eu hailgartrefu 84

Tabl 27. Tenantiaid newydd yn ôl math yr aelwyd a hyd y cysylltiad â’r ardal 84

Table 28. Tenantiaid newydd yn ôl oed pennaeth yr aelwyd a hyd y cysylltiad â’r ardal 85

Tabl 29. Amgylchiadau tai tenantiaid newydd ar adeg eu cais am dŷ, yn ôl hyd y cysylltiad â’r ardal 86

Tabl 30. Tenantiaid newydd yn byw mew trefi glan môr adeg eu cais am lety, yn ôl hyd y cysylltiad â’r ardal 86

Tabl 31. Nifer cyfeiriadau yn y 5 mlynedd diwethaf tenantiaid newydd oedd wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol am lai na 5 mlynedd, yn ôl hyd y cysylltiad â’r ardal 87

Tabl 32. Lefel y flaenoriaeth a roddwyd i ymgeiswyr am dai, yn ôl hyd y cysylltiad â’r ardal 87

**Rhestr Tablau (Parhad)**

**Rhifau a Theitlau Tablau** **Tudalen**


Tabl 33. Lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y rhoddwyd tŷ iddynt yn y tri math o setliad 88

Tabl 34. Lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y gosodwyd tŷ iddynt mewn trefi glan môr, yn ôl hyd y cysylltiad â'r ardal 88

Table 35. Lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y gosodwyd tŷ iddynt mewn cymunedau gwledig, yn ôl hyd y cysylltiad â'r ardal 89

Tabl 36. Lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y gosodwyd tŷ iddynt mewn trefi gwledig, yn ôl hyd y cysylltiad â'r ardal 89

Tabl 37. Llety gosod landlordiaid, yn ôl hyd cysylltiad tenantiaid newydd â'r ardal 89

Tabl 38. Math y llety a osodwyd i denantiaid newydd, yn ôl hyd y cysylltiad â'r ardal 90

Tabl 39. Gosodiadau a wnaed i eiddo a ddynodwyd yn anodd eu gosod yn ôl math o eiddo 91

Tabl 40. Gosodiadau eiddo 'anodd eu gosod' i denantiaid newydd yn ôl hyd y cysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol fel cyfran o'r' holl eiddo a osodwyd 91

**Rhestr Termau**

**Gwledydd sydd wedi'u Derbyn A2** - yr ail garfan o wledydd Dwyrain Ewrop a ymunodd â'r Undeb Ewropeaidd yn 2007. Cyfeirir at ddinasyddion Bwlgaria a Rwmania fel dinasyddion Gwledydd sydd wedi'u Derbyn A2.

**Gwledydd sydd wedi'u Derbyn A8** - carfan gyntaf gwledydd Dwyrain Ewrop a ymunodd â'r Undeb Ewropeaidd yn 2004. Cyfeirir at ddinasyddion y Weriniaeth Siec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia fel dinasyddion Gwledydd sydd wedi'u Derbyn A8.

**Mewnfudwr** – person sydd wedi symud o un lle i le arall (defnyddir fel arfer i gyfeirio at y rheiny sydd wedi symud o un wladwriaeth genedlaethol i un arall)

**Mewnfudo** – y broses o symud o un lle i le arall (defnyddir fel arfer i gyfeirio at symud o un wladwriaeth genedlaethol i un arall)

**Mudwr rhyngwladol** - person sy'n symud o un wladwriaeth genedlaethol i un arall.

**Mudo rhyngwladol** – symud poblogaeth ar draws ffiniau cenedlaethol.

**Arolwg Teithwyr Rhyngwladol** - arolwg ar hap aml bwrpas mawr o deithwyr yn cyrraedd ac yn ymadael o brif feysydd awyr a phorthladdoedd y DU, a Thwnnel y Sianel. Mae'r weithdrefn samplo a ddatblygwyd yn golygu bod y sampl yn cynrychioli oddeutu 1 o bob 500 o deithwyr.

**Arolwg y Gweithlu Llafur** – arolwg sampl chwarterol o 60,000 o aelwydydd yn byw mewn cyfeiriadau preifat yn y DU.

**Mudwr** – person sy'n symud o un ardal weinyddol i un arall (defnyddir yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at y rheiny sydd wedi symud o un wladwriaeth genedlaethol i un arall, a'r rheiny sydd wedi symud o un rhanbarth y DU i un arall fel ei gilydd).

**Mudo** – symud poblogaeth o un ardal weinyddol i un arall (defnyddir yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at y symud o un wladwriaeth genedlaethol i un arall, a'r symud o un rhanbarth y DU i un arall fel ei gilydd).

**Mudwr diweddar** - person sydd wedi byw yn un o'r awdurdodau lleol o fewn ardal y 'chwe sir' am dair blynedd neu lai.

**Mudwr rhanbarthol** – person sy'n symud o un rhanbarth o fewn y DU i un arall.

**Mudo rhanbarthol** – symud poblogaeth o un rhanbarth o fewn y DU i un arall.

**Cynllun Cofrestru Gweithwyr** - yn cwmpasu dinasyddion gwledydd A8 Canol a Dwyrain Ewrop (y Weriniaeth Siec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia, ddaeth yn aelodau'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 2004) sy'n cofrestru i weithio fel cyflogeion yn y DU.

## 1 Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd y prosiect ymchwil hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ganlyniad i bryderon a fynegwyd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol am lefel y galw am dai a gynhyrchwyd gan aelwydydd mudol[1] mewn ardaloedd penodol (a'r ardaloedd arfordirol a gwledig yn benodol) yng Nghymru.

1.2 Ymgymerwyd â'r prosiect ymchwil rhwng Tachwedd 2008 a Gorffennaf 2009 ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan yr ymgynghorwyr Housing + Cymru, a chanolbwyntiodd ar chwe awdurdod arfordirol yng ngogledd a gorllewin Cymru a ddewiswyd gan y Cynulliad:

- Sir Fôn;
- Ceredigion;
- Conwy;
- Sir Ddinbych;
- Sir y Fflint; a
- Gwynedd.

.

1.3 Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng Tachwedd 2008 a Gorffennaf 2009.

1.4 Nodau'r ymchwil oedd sefydlu:

- graddau a natur mudo traws-ffiniol diweddar yn y chwe awdurdod;
- sut y mynegwyd hyn yn y galw am gymorth gyda thai a wnaed i awdurdodau tai lleol; a'r
- canlyniadau ar gyfer mudwyr a phreswylwyr mwy hir dymor.

1.5 Roedd yr ymchwil yn cynnwys y camau canlynol:

- adolygiad o lenyddiaeth a ffynonellau data (yn cynnwys Cymru gyfan a'r chwe awdurdod lleol);
- astudiaeth achos o bob awdurdod lleol oedd yn cynnwys y camau canlynol:
  - dadansoddi data ac ystadegau perthnasol;
  - cyfweliadau gyda swyddogion allweddol;
  - sesiwn ymgynghori gydag aelodau etholedig;
  - dadansoddiad manwl o sampl o ffeiliau a ddewiswyd ar hap o'r blynyddoedd 2005/06, 2006/07 a 2007/08 o:
    - achosion o ddigartrefedd lle roedd yr awdurdod lleol wedi cyrraedd penderfyniad;
    - y rheiny oedd yn byw mewn tenantiaethau awdurdodau lleol neu mewn tenantiaethau cymdeithasau tai yn dilyn enwebiad gan yr awdurdod lleol.

[1] At ddibenion y prosiect ymchwil hwn, diffiniwyd aelwydydd mudol fel y rheiny sydd wedi symud i mewn i ardal yr awdurdod lleol o fan arall. Gallai hyn fod o awdurdod lleol cyfagos, awdurdod lleol pellennig, neu wlad arall.

1.6 Mae'r allbynnau o'r prosiect fel a ganlyn:

- adroddiad trosolwg sy'n canolbwyntio ar y canfyddiadau ymchwil ar draws y chwe awdurdod lleol, lle mae data ar awdurdodau unigol penodol yn cael ei gyflwyno'n ddi-enw;
- adroddiad ar gyfer pob un o'r 6 awdurdod lleol (cyfrinachol i'r awdurdodau hynny) yn darparu dadansoddiad o'r data lleol ac arsylwadau gan Housing + Cymru.

1.7 Yr adroddiad hwn yw'r adroddiad trosolwg, sy'n cynnwys:

- adolygiad o lenyddiaeth sy'n ystyried:
  - mudo rhyngwladol;
  - mudo rhanbarthol;
  - rôl trefi glan môr;
  - y ddadl tai gwledig ac ystyr 'lleol';
- disgrifiad o nodweddion pob un o'r 'chwe sir' sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth, a data mewn perthynas â mudo o safbwynt pob un;
- crynodeb o farn rhanddeiliaid lleol allweddol mewn perthynas ag effaith mudwyr diweddar ar ddigartrefedd a dyraniadau yn yr ardal;
- dadansoddiad o'r achosion digartrefedd a adolygwyd ar draws y 'chwe sir';
- dadansoddiad o'r achosion gosodiadau a adolygwyd ar draws y 'chwe sir';
- casgliadau ac arsylwadau mewn perthynas ag effeithiau mudo yn y 'chwe sir' ar ddyrannu tai a gweithrediadau o dan ddeddfwriaeth ddigartrefedd.

1.8 Cynorthwywyd yr ymgynghorwyr yn ystod y prosiect gan Grŵp Llywio'r Prosiect oedd yn cynnwys cynrychiolwyr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Thai Cymunedol Cymru. Hoffai'r ymgynghorwyr estyn eu diolchiadau i Grŵp Llywio'r Prosiect, ac i bawb yn y 'chwe sir' a gyfrannodd at y prosiect ymchwil hwn, am eu hamser, eu lletygarwch, a'u help wrth ddod o hyd o ddata ac ateb ein hymholiadau niferus.

## 2 Mudo a mynediad i dai cymdeithasol: adolygiad o lenyddiaeth

### Cyflwyniad

2.1 Mae cyfoeth o lenyddiaeth academaidd ar fudo. Ysgrifennwyd un o'r papurau mwyaf dylanwadol gan Lee (1966), sy'n cysyniadu mudo fel rhywbeth sy'n cynnwys tarddiadau, cyrchfannau a'r cysylltiadau rhyngddynt. Awgryma Lee fod nodweddion y tarddiadau yn tueddu i 'wthio'r' unigolyn i ffwrdd oddi wrth ardal, tra mae priodoleddau'r cyrchfan yn 'tynnu'r' mudwr i ardal. Awgryma Lle bod gan rai cysylltiadau rhwng tarddiadau a chyrchfannau rwystrau sy'n atal neu'n cyfyngu ar fudo (e.e. ffiniau cenedlaethol, gwahaniaethau ieithyddol a gwahaniaethau diwylliannol) lle mae gan ran cysylltiadau briodoleddau sy'n esmwytho neu'n annog mudo (e.e. diwylliant ac iaith a rennir, teulu neu ffrindiau sy'n byw yn y cyrchfan).

2.2 Ni fydd yr adolygiad hwn yn ystyried yr holl lenyddiaeth ar fudo, ond bydd yn ystyried:

- graddau llifoedd mudol;
- penderfynyddion mudo;
- goblygiadau tai mudo (yn benodol effaith mudo ar osodiadau tai cymdeithasol);
- ystyr newidiol lle; ac
- effaith mewn-fudo ar ardaloedd gwledig.

2.3 Bydd rhan gyntaf yr adolygiad hwn yn ystyried mudo rhyngwladol. Bydd yn archwilio data llywodraeth ganolog ar fudo rhyngwladol i'r DU ac i Gymru, ac yn asesu'r dystiolaeth sydd ar gael ar fudwyr rhyngwladol a'u mynediad i'r sector tai cymdeithasol.

2.4 Bydd ail ran yr adolygiad yn ystyried llifoedd mudol o fewn y DU. Bydd yn ystyried penderfynyddion mudo rhanbarthol, data swyddogol ar fudo i mewn i Gymru ac allan ohoni, traddodiad mudo o fewn Cymru, yr effaith y caiff hyn ar nodweddion cymunedau Cymreig gwledig, a'r galw am dai cymdeithasol mewn trefi glan môr.

2.5 Bydd trydedd ran yr adolygiad yn ystyried ystyr 'lle' a 'lleol' yng nghyd-destun cymunedau lleol o fewn cymdeithasau gorllewinol modern. Bydd yn archwilio achosion problemau tai mewn ardaloedd gwledig yn y DU ac yng Nghymru, ac yn ystyried un dull a ddefnyddiwyd yn aml i fynd i'r afael â phroblemau tai gwledig, gosod tai cymdeithasol mewn cymunedau gwledig i bobl 'leol'.

2.6 Yna tynnir cyfres o gasgliadau perthnasol i'r prosiect ymchwil hwn o'r adolygiad o lenyddiaeth.

2.7 Mae llyfryddiaeth fanwl wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

**Mudo Rhyngwladol**

2.8 Mae'r adran hon yn tynnu ar nifer o ffynonellau data swyddogol i ddarparu gwybodaeth ar fudo rhyngwladol i'r DU:


- yr Arolwg Teithwyr Rhyngwladol (IPS), sy'n mesur llif y bobl i mewn i'r DU ac allan ohoni. Mae'r IPS yn arolwg ar hap aml bwrpas mawr o deithwyr sy'n cyrraedd ac yn ymadael o brif feysydd awyr a phorthladdoedd y DU, a Thwnnel y Sianel. Mae'r weithdrefn samplo a ddatblygwyd yn golygu bod y sampl yn cynrychioli oddeutu 1 ym mhob 500 o deithwyr. Un o anfanteision defnyddio canfyddiadau IPS yw eu bod, mewn perthynas â phreswyliaeth, yn seiliedig ar fwriad cychwynnol y mudwr wrth iddynt ddod i mewn i'r wlad. Bu'r IPS yn destun beirniadaeth helaeth ac mae dilysrwydd yr amcangyfrifon wedi'u cwestiynau gan, ymysg eraill, Pwyllgor Trysorlys Tŷ'r Cyffredin (2008). Un gydran fach yw'r IPS o'r amcangyfrifon poblogaeth a ddefnyddiwyd fel dull o amcangyfrif gofynion cyllido awdurdodau lleol, ac awgrymodd Pwyllgor y Trysorlys nad oedd IPS (a fwriadwyd ar gyfer cipio gwybodaeth am dwristiaeth a theithio) yn addas at y diben hwn;
- Arolwg y Gweithlu Llafur (LFS), sy'n arolwg sampl chwarterol o 60,000 o aelwydydd yn byw mewn cyfeiriadau preifat yn y DU. Er mai prif bwrpas yr LFS yw darparu gwybodaeth ar y farchnad lafur, mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau ar genedligrwydd a thai;
- dyrannu rhifau Yswiriant Gwladol (Rhifau YG) i oedolion o dramor sy'n dod i mewn i'r DU. Mae data Rhifau YG yn cofnodi cenedligrwydd oedolion o dramor sy'n gwneud cais am rif YG yn ôl yr ardal awdurdod lleol y maent yn preswylio ynddi ar adeg eu cais. Gan nad oes gofyniad i ddadgofrestru o'r cynllun, mae'r data yn darparu gwybodaeth ar fewnlifoedd yn unig;
- y Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS), sy'n cwmpasu dinasyddion gwledydd A8 Canol a Dwyrain Ewrop (y Weriniaeth Siec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia, ddaeth yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 2004) sy'n cofrestru i weithio fel cyflogeion yn y DU. Mae'r WRS yn darparu gwybodaeth ar genedligrwydd, oed, rhyw, cyfradd cyflog, sector, galwedigaeth, oriau a weithir, hyd bwriedig yr arhosiad a dibynyddion. Mae'r WRS yn darparu data ar sail y gweithle, yn hytrach na'r cyfeiriad preswyl. Gan nad oes gofyniad i ddadgofrestru o'r cynllun, mae'r data yn darparu gwybodaeth ar fewnlifoedd yn unig;
- amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn y Cofrestrydd Cyffredinol, sy'n cynnwys amcangyfrifon o raddau'r mudo rhyngwladol i mewn i ardal awdurdod lleol ac allan ohono. Mae'r IPS yn ffurfio un gydran y ffynonellau data a ddefnyddir i sefydlu'r amcangyfrifon.

2.9 Mae gan y DU hanes hir o fewnfudo ac allfudo. Mae Green, Owen & Duncan (2008) yn amlinellu cyfres o gamau o lif mudol mewnol o ddiwedd yr Ail Ryfel Byd hyd heddiw:

- roedd y cam cyntaf yn cynnwys cyflogwyr yn recriwtio mudwyr o Orllewin a Dwyrain Ewrop i gynorthwyo ag ailadeiladu yn y cyfnod yn dilyn y rhyfel;
- roedd yr ail gam, a ddaeth i'w anterth ar ddechrau'r 1960au, yn cyd-fynd â'r twf economaidd cyflym yng Ngorllewin Ewrop, a gwelodd lawer o gyflogwyr yn recriwtio llafur rhatach o Iwerddon a'r Gymanwlad newydd. Fe wnaeth Deddf Mewnfudo'r Gymanwlad 1962 gwtogi mewnfudo o India'r Gorllewin, ond parhaodd mudo o is-gyfandir India ar gyflymdra tan ddechrau'r 1970au. Ar ôl canol y 1970au a drwy gydol y 1980au awgryma Green et al fod mewnfudo i'r DU o'r Gymanwlad newydd wedi parhau, ond yn llawer mwy araf;
- mae'r trydydd cam, o ganol y 1990au hyd at heddiw, wedi gweld mudo'n cynyddu'n gyson. Awgryma Green et al mai gwahaniaeth amlwg rhwng y cam hwn a'r camau cynharach yw'r ystod fwy amrywiol o darddiadau cenedlaethol mewnfudwyr.

2.10 Mae mudwyr yn cynrychioli cyfran gynyddol ond bach o boblogaeth y DU. Dywed Green et al bod y cynnydd blynyddol ym mhoblogaeth y DU o ganlyniad i fewnfudo rhyngwladol oddeutu 50,000 y flwyddyn, yn ystod y 1980au. Cynyddodd hyn yn ystod y 1990au i oddeutu 100,000 y flwyddyn. Ers ehangu'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 2004, mae nifer y mudwyr wedi cynyddu'n sylweddol, gan esgor ar dwf arwyddocaol, yn y gyfradd fudo net, fel y dangosir yn Ffigur 1 isod.

***Ffigur 1. Cyfanswm y mudo rhyngwladol i'r DU ac oddi yno 1998 – 2007***
*Ffynhonnell Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol 2008*




2.11 O'i gymharu â llawer o wledydd gorllewinol eraill, mae'r mewnlif net i mewn i'r DU wedi bod yn gymharol fach. Dywed Nathan (2008) bod

poblogaeth y DU wedi tyfu gan 8.2% rhwng 1971 a 2006, o'i gymharu â thwf yn y DU o 44.6%. Yn y ddau achos, prif yrrwr y twf yn y boblogaeth oedd mudo rhyngwladol. Dywed Blanchflower (2007) bod y twf mewn poblogaeth ar draws rhan fwyaf y gwledydd datblygedig wedi bod yn uwch nag yn y DU dros y tri degawd diwethaf. Dros y cyfnod 1971-2004, mae twf yn y boblogaeth yn y DU yn dod yn y 31ain safle allan o 38 o wledydd Ewropeaidd a gwledydd mawr eraill y mae data ar gael ar eu cyfer. Dim ond yr Almaen (Dwyrain a Gorllewin) a saith gwlad yn Nwyrain Ewrop oedd â thwf arafach yn y boblogaeth.

2.12 Mae Green et al yn dangos bod poblogaeth y DU wedi tyfu o 59,323,000 i 60,975,000 rhwng 2001-02 a 2006-07. Maent yn amcangyfrif y gellir priodoli 71% o'r twf yn y boblogaeth i fewnfudo. Fodd bynnag, mae'r twf blynyddol yn y boblogaeth o ganlyniad i gynnydd mudol net yn fach. Yr amcangyfrifiad o ran cynnydd mudol net ar gyfer 2006-07 oedd 198,000, sy'n cynrychioli 0.32% o'r boblogaeth gyfan.

2.13 Nododd data cyfanswm mudo rhyngwladol (TIM)[2] fod 191,000 yn fwy o bobl wedi dod i mewn i'r DU nag y'i gadawodd yn 2006. Roedd y ffigur hwn 13,000 yn llai na'r flwyddyn flaenorol, o ganlyniad i gynnydd yn nifer y bobl yn allfudo o'r DU, yn hytrach na gostyngiad yn nifer y mewnfudwyr. Roedd y mudo mewnol uchaf ar gyfer dinasyddion y Gymanwlad Newydd (115,000), wedi'i ddilyn gan y grŵp dinasyddiaeth EU25 (101,000). O fewn y grŵp dinasyddiaeth EU25, roedd mudo net o wladwriaethau A8 yn 71,000, ac roedd ychydig o dan 74% o fewnfudwyr A8 o Wlad Pwyl. Roedd y rhesymau mwyaf poblogaidd dros fudo i'r rheiny yn dod i mewn i'r DU yn gysylltiedig â gwaith (39%), wedi'i ddilyn gan astudio ffurfiol (25%) a symud i hebrwng neu ymuno â phobl oedd eisoes yn preswylio yn y DU (18%).

2.14 Mae Rhifau Yswiriant Gwladol a ddyrannwyd i ddinasyddion tramor yn dangos y twf mewn gweithwyr tramor yn dod i mewn i'r DU. Mae Tabl 1 (wedi'i dynnu o wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau) yn dangos y twf yn nifer y gweithwyr tramor y dyrannwyd Rhifau YG iddynt o 2004 ymlaen. Mae'r twf sylweddol yn nifer y gweithwyr tramor y dyrannwyd Rhifau YG iddynt yn y DU wedi'i adlewyrchu yng Nghymru.

***Tabl 1. Rhifau YG a ddyrannwyd i weithwyr tramor (miloedd) 2002-03 hyd 2007-08***
*Ffynhonnell DWP*

| | 2002/03 | 2003/04 | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ewrop – UE ac eithrio Gwledydd sydd wedi'u Derbyn | 80.09 | 85.54 | 80.71 | 97.84 | 102.75 | 107.47 |
| Ewrop – Gwledydd sydd wedi'u Derbyn yn Aelodau'r UE | 17.67 | 28.72 | 116.84 | 276.68 | 317.50 | 332.44 |
| Ewrop – heb fod yn UE | 14.66 | 15.87 | 14.04 | 15.50 | 16.14 | 17.21 |

[2] Seiliwyd y ffigurau canlynol ar ddata Cyfanswm Mudo Rhyngwladol (mae amcangyfrifon TIM wedi'u seilio ar ddata IPS wedi'i gyfuno â data o ffynonellau eraill e.e. data ceiswyr lloches a mudo gyda Gweriniaeth Iwerddon).

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Affrica | 65.98 | 70.71 | 64.08 | 74.03 | 60.72 | 59.63 |
| Asia a'r Dwyrain Canol | 113.56 | 116.03 | 109.39 | 134.40 | 143.79 | 149.87 |
| Yr Americas | 26.33 | 31.41 | 26.52 | 31.53 | 31.50 | 32.64 |
| Awstralasia ac Ynysoedd y De | 27.13 | 24.49 | 23.16 | 32.51 | 32.98 | 33.35 |
| Eraill ac Anhysbys | 0.80 | 0.72 | 0.61 | 0.56 | 0.46 | 0.49 |
| **Yr holl Rifau YG a ddyrannwyd yn y DU** | **346.23** | **373.50** | **435.35** | **663.06** | **705.84** | **733.09** |
| Rhifau YG a ddyrannwyd yng Nghymru | 5.28 | 7.09 | 10.04 | 16.64 | 16.72 | 16.35 |

2.15 Mae data TIM yn nodi bod tuedd barhaus i fwy o ddynion na menywod fudo (naill ai i mewn i'r DU neu allan ohoni). I bob deg dyn ddaeth i mewn i'r DU yn 2006, cyrhaeddodd 9 menyw hefyd. Mae IPS yn nodi hefyd er bod mewnfudo gan bobl hŷn (45-59 a 60 oed+) wedi aros yn gyson, cafwyd tuedd am i fyny yn y grwpiau oedd iau (15-24 a 25-44). Mae data TIM hefyd yn dangos bod niferoedd uwch o bobl sengl yn mudo i mewn i'r DU ac allan ohoni na'r rheiny sy'n briod neu wedi ysgaru.

2.16 Yn nhermau eu nodweddion cyflogaeth, awgryma Glover et al (2001) fod mudwyr rhyngwladol yn gymysg iawn, a bod eu profiadau yn fwy eithafol na'r boblogaeth yn gyffredinol, gyda dwyseddau mwy yn yr eithafion (cyfoeth a thlodi, sgiliau isel a sgiliau uchel). Awgryma Green et al fod gwahanol batrymau ar gyfer gwahanol grwpiau cenedlaethol o fudwyr, gyda'r rheiny o Ganol a Dwyrain Ewrop yn bennaf ar ben isaf y sbectrwm sgiliau.

2.17 Mae Portes a French (2005) yn dangos bod ymgeiswyr y Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS) yn ifanc yn bennaf, gyda 43% o dan 24 oed a 40% rhwng 25 a 34. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gweithio yn y sectorau lletygarwch, amaethyddol a gweinyddol. Roedd cyflogau'n isel, gydag 80% yn ennill yr isafswm tâl cenedlaethol neu ychydig yn fwy na hynny.

2.18 Ar y cyfan mae mudo i'r DU yn cyfrannu at dwf yn y boblogaeth ym mhob rhanbarth y DU. Fodd bynnag, mae mudwyr wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws y DU. Awgryma Nathan er bod mudwyr wedi'u denu'n hanesyddol i ddinasoedd a threfi mawr, yn ddiweddar mae nifer o ardaloedd gwledig wedi profi twf cyflym yn eu poblogaethau o fudwyr. Dywed Nathan fod dros hanner yr holl fudo net yn 2002-03 i Lundain. Roedd oddeutu 69% o'r gweddill i'r cytrefi mawr eraill. Dangosodd yr IPS mai dim ond 28% o fudwyr ddaeth i mewn i'r DU yn 2006 nododd Llundain fel eu man preswyl, i lawr o 43% ym 1999. Mae'r Arolwg Gweithlu Llafur yn dangos, cyn i'r gwladwriaethau A8 ymuno â'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 2004, bod 50% o holl ddinasyddion A8 oedd yn byw yn y DU yn byw yn Llundain, gyda dau draean yn byw yn Ne Ddwyrain Lloegr. Mae hyn wedi lleihau ers iddynt gael eu derbyn, gyda 25% yn unig o ddinasyddion A8 yn byw yn Llundain.

2.19 Mae llawer o'r llenyddiaeth ar effaith mudo rhyngwladol yn canolbwyntio ar effeithiau mewnfudo ar y farchnad lafur. Mae effaith mewnfudo ar y farchnad lafur yn annisgwyl o gyfyngedig. Awgryma Gaston a Nelson (2001) fod mwyafrif yr astudiaethau empirig yn cytuno nad oes effaith ystadegol arwyddocaol gan fewnfudo ar ddeilliannau'r farchnad lafur, gydag eithriad posib y gweithwyr domestig â'r sgiliau isaf. Awgryma Portes a French mai un o brif effeithiau mewnfudo ar y farchnad lafur yw nid yr effaith ar gyflogau, ond cyfansoddiad yr allbwn. Maent yn awgrymu bod mudo gweithwyr i mewn i sector penodol yn caniatáu i'r sector hwnnw ehangu, gan adael cyflogau a chyflogaeth y gweithlu presennol heb eu newid.

2.20 Fodd bynnag, bydd effaith mewnfudo ar ddarparu nwyddau a gwasanaethau mewn ardaloedd lleol yn cael effaith, gan gynyddu cystadleuaeth am nwyddau defnyddwyr (fel tai) sydd â chyflenwad cymharol anhyblyg. Cafodd y Comisiwn Archwilio (2007) mai effaith mewnfudo ar dai oedd un o'r effeithiau lleol mwyaf amlwg. Lle mae cyflogwyr neu asiantaethau yn trefnu llety cysylltiedig i weithwyr mudol gall fod problemau gydag ansawdd y llety a gorboblogi, ond ni chafwyd cynnydd mewn gweithgarwch arolygu neu orfodi i gyfateb â'r cynnydd yn niferoedd Tai Aml-breswyliaeth (HMOs). Mae gweithwyr mudol gyda swyddi mewn gwestai yn aml yn byw mewn rhandai ac felly nid ydynt yn cael effaith ar y farchnad dai ehangach. I weithwyr tymhorol yn y sector amaethyddol, yn aml carafanau, safleoedd carafanau ac adeiladau fferm a adnewyddwyd yw'r unig opsiwn ymarferol i gyflogwyr, sydd eto yn cael dim effaith ar y farchnad dai ehangach.

2.21 Lle mae angen i weithwyr tramor ddod o hyd i lety yn y farchnad dai, bydd effaith y mudwyr hyn ar y farchnad dai leol a'r gymdogaeth leol yn amrywio yn ôl amgylchiadau tai lleol. Awgryma'r Comisiwn Archwilio, mewn ardaloedd lle mae'r farchnad dai wedi gostwng, gall y dylifiad o weithwyr mudol leihau nifer y cartrefi gwag a chynyddu prisiau. Mewn ardaloedd lle mae niferoedd uchel o dai a rentir yn breifat ar y farchnad oherwydd cynnydd yn llety myfyrwyr at y diben, bydd dylifiad o weithwyr mudol yn llenwi'r bwlch. Mewn ardaloedd o alw mawr am dai, mae dylifiad o weithwyr mudol yn ychwanegu at y galw am eiddo fforddiadwy a rentir. Mae hyn wedi creu twf cyflym yn nifer yr HMOs, ac mae wedi arwain at gyfraddau cynyddol o orboblogi yn y sector rhentu preifat.

2.22 Mae IDeA (2008) yn nodi bod llawer o awdurdodau lleol wedi adrodd cynnydd yn nhwf HMOs yn deillio o dwf gweithwyr mudol yn eu hardaloedd. Maent yn awgrymu mai'r eiddo a brynir gan landlordiaid yw tai deulawr, sy'n syrthio y tu allan i ddosbarthiad tri llawr HMOs y mae gan awdurdodau lleol bwerau trwyddedu ac arolygu drostynt. Maent yn nodi

achos Slough, a ddywedodd fod 1050 o HMOs deulawr wedi'u hadrodd i'r awdurdod lleol dros gyfnod o 18 mis.

2.23 Yn nhermau effaith mudo rhyngwladol ar y sector tai cymdeithasol, mae'r Sefydliad Tai Siartredig (2008), Robinson (2008) a Shelter (2008) yn dangos bod gallu dinasyddion tramor i gyrchu tai cymdeithasol wedi'i gyfyngu gan reoliadau oedd yn rhwystro eu hawl i fyw yn y sector hwn yn ddifrifol. Yn gryno:

- nid oes gan weithwyr mudol o'r tu allan i'r DU unrhyw hawl i gymorth tai, oni bai eu bod yn geiswyr lloches, sydd â hawl i dai ond nid i dai cymdeithasol prif ffrwd [3]. Mae Asiantaeth Ffiniau'r DU yn gyfrifol am bobl sy'n ceisio lloches yn y DU. O dan y Model Lloches Newydd (NAM), mae'r rheiny â hawliad lloches presennol â'r hawl i dai a chefnogaeth tan i'w hawliad gael ei bennu'n llawn. Darperir tai ar sail dim dewis. Gall hyn fod mewn unrhyw le yn y wlad, ac mae fel arfer mewn llety a rennir;
- nid yw'n ofynnol i ddinasyddion yr UE wneud cais am hawlen waith, ac mae ganddynt yr hawl i symud yn rhydd o fewn yr UE. Mae hawl i dai gweithwyr UE yn dibynnu ar eu cenedligrwydd a'u statws fel gweithiwr:
    - mae gan weithwyr o wladwriaethau oedd yn aelodau'r UE cyn 2004 yr un hawliau i fudd-daliadau a thai â dinasyddion y DU, ar yr amod eu bod yn gweithio;
    - mae gweithwyr o wladwriaethau A8 a A2[4] yn gymwys ar gyfer arian cyhoeddus (yn cynnwys tai) os ydynt wedi'u cofrestru fel gweithwyr gyda'r WRS neu'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr. Fodd bynnag, unwaith y bydd gweithwyr A8 yn gorffen gweithio a chael eu cofrestru fel gweithwyr maent yn colli'r hawl hwn. Mae rheolau gwahanol yn gymwys i weithwyr A2, y mae gofyn iddynt gael swydd benodol a chofrestru ar y Cynllun Awdurdodi Gweithwyr cyn iddynt gyrraedd yn y DU. Felly mae gweithwyr A2 ac A8, oherwydd natur dymhorol lawer o'r gwaith y maent yn ymgymryd ag ef, yn debygol o symud i mewn ac allan o'r hawl i dai.

2.24 Mae Robinson (gan ddefnyddio data CRAIDD o 2006/07) yn dangos bod 4.5% o osodiadau newydd a wnaed gan landlordiaid cymdeithasol yn Lloegr i ddinasyddion cymdeithasol, a bod llai nag 1% i ddinasyddion A8. Mae Robinson hefyd yn dyfynnu'r Arolwg Gweithlu Llafur i nodi bod 6.7% o denantiaid tai cymdeithasol yn Lloegr yn ddinasyddion tramor. Byddai hyn yn awgrymu bod niferoedd cymharol fach o fewnfudwyr newydd yn cyrchu'r sector tai cymdeithasol.

[3] Mae gwefan Housing Rights http://www.housing-rights.info/ yn darparu arweiniad ar hawliau tai pobl â gwahanol fathau o statws mewnfudo.
[4] Y gwladwriaethau A8 yw Gwlad Pwyl, y Weriniaeth Siec ,Slofacia, Hwngari, Slofenia, Latfia, Lithwania ac Estonia. Y gwladwriaethau A2 yw Rwmania a Bwlgaria

2.25 Mae Rutter a Latorre (2009) yn awgrymu bod wyth ffactor yn effeithio ar ddaliadaeth mudwyr newydd i'r DU. Y rhai oedd:

- statws mewnfudo
- incwm yr aelwyd
- maint y teulu
- amodau cyflogaeth
- hyd y breswyliaeth yn y DU
- amgylchiadau'r farchnad dai leol
- dyheadau mudwyr
- tybiaethau mudwyr am ffurfiau penodol ar dai a'u diogelwch mewn ardaloedd penodol

2.26 Cafodd Rutter a Latorre, drwy ddadansoddiad manwl o'r Arolwg Gweithlu Llafur fod mudwyr newydd i'r DU dros y 5 mlynedd diwethaf yn cynrychioli llai na 2% o'r rheiny sy'n byw yn y sector tai cymdeithasol a bod rhan fwyaf y mudwyr sydd newydd gyrraedd ac sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn ffoaduriaid y rhoddwyd caniatâd iddynt aros yn y DU. Maent yn gorffen drwy awgrymu mai'r hyn sydd wrth wraidd llawer o'r pryder cyhoeddus am effaith mudo ar dai cymdeithasol yw methiant y cyflenwad o dai cymdeithasol i gwrdd ag anghenion a gofynion y boblogaeth a bod yr agweddau negyddol tuag at fudwyr ynghlwm wrth ofn amrywiaeth a newid.

**Mudo rhanbarthol**

2.27 Ysgrifennwyd llawer am benderfynynnau llifoedd mudol mewn cyd-destun rhanbarthol. Mae llawer o'r allbwn hwn yn econometrig ac mae'n canolbwyntio ar lifoedd y farchnad lafur. Y canllaw mwyaf cyflawn i benderfynynnau mudo rhanbarthol yw'r papur a gynhyrchwyd gan Champion et al (1998), oedd yn adolygu'r sylfaen ddata a thystiolaeth bresennol. Awgryma Champion et al fod y penderfynynnau mudo canlynol yn bodoli o fewn Lloegr:

- ffactorau demograffig;
- ffactorau diwylliannol a chymdeithasol;
- ffactorau'r farchnad lafur;
- ffactorau tai;
- ffactorau amgylcheddol;
- ffactorau polisi cyhoeddus;
- ffactorau rhwystrol.

2.28 Bydd nifer o'r ffactorau hyn yn cael effaith ar broffil ac amgylchiadau economaidd mudwyr yn symud i'r 'chwe sir' ac allan ohonynt, ac mae felly'n werth eu hystyried. Lle y bo'n briodol cyfeirir hefyd at weithiau mwy diweddar.

## Rôl oed a cham cylch bywyd

2.29 Mae Champion et al yn dangos bod mudo yn amrywio gydag oed. Mae cyfraddau mudo yn uchel i blant ifanc, yn gostwng i isafswm erbyn 15 oed, yn codi o 16 oed i uchafswm yn 22, yn gostwng i isafswm yn y 60au ac yna'n codi yn y 70au ac 80au. Fodd bynnag, maent yn tynnu sylw at y ffaith nad yw oed yn dylanwadu'n uniongyrchol ar allu person i fudo. Yn hytrach, mae oed yn ddangosydd benthyg ar gyfer y cam cylch bywyd.

2.30 Gan ddefnyddio gwaith Warnes (1992), mae Ffigur 2 yn dangos cam bywyd, oed, anghenion tai a dyheadau aelwydydd a phellter y symud.

***Ffigur 2. Trosglwyddiadau cwrs bywyd cysylltiedig â newid mewn aelwydydd a mudo*** *Ffynhonnell: Warnes (1992), t.184*

| Trosglwyddiad cwrs bywyd | Anghenion a dyheadau tai | Pellter symud (symud yn aml mewn blwyddyn) | Oed (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|
| Gadael cartref rhieni | Cost isel, tenantiaeth fer, canol dinas, rhannu'n aml | Pellter hir a byr<br>Amlder uchel (1+) | 16-22 |
| Undod rhywiol | Cost isel/canolig, ychydig flynyddoedd o denantiaeth | Pellter byr<br>Amlder canolig (0.3) | 20-25 |
| Sefyllfa gyrfa | Fflat neu dŷ morgais isel | Llawer pellter hir<br>Amlder canolig (0.5) | 23-30 |
| Plentyn 1af (incwm da) | Morgais canolig tŷ 2+ ystafell wely | Pellter byr (symudiad trefol hir mewn dinasoedd mawr) | 23-30 |
| Plentyn 1af (incwm isel) | Fflat neu dŷ awdurdod lleol | Pellter byr iawn | 21-28 |
| Dyrchafiad canol gyrfa neu etifeddiaeth | Morgais uwch tŷ mwy | Llawer pellter hir<br>Amlder isel (0.1) | 30-55 |
| Ysgariad | Cost isel, tenantiaeth fer | Pellter byr | 27-50 |
| Cyd-fyw ac ail briodas | Rhentu cost isel neu forgais isel | Pellter byr a hir<br>Amlder isel (0.1) | 27-50 |
| Ymddeol | Prynu tŷ cost canolig neu isel yn llwyr | Llawer pellter hir i ardaloedd lled- drefol | 55-68 |
| Profedigaeth neu incwm yn darfod | Cost isel, rhentu neu rannu mewn ardaloedd a wasanaethir yn dda | Pellter byr neu fudwyr yn dychwelyd | 70+ |
| Llesgedd neu salwch cronig | Cost isel, rhentu, rhannu, cyd-gasglu neu sefydliadol | Pellter byr<br>Amlder canolig (0.3) | 75+ |

2.31 Gan ddefnyddio gwaith Stillwell et al (1996) awgryma Champion et al bod pobl oed gweithio wedi'u gorgynrychioli'n sylweddol mewn llifoedd rhyng-ranbarthol, o'u cymharu â phlant a'r oedrannus hŷn, sy'n cyfyngu eu symudiadau o fewn marchnadoedd tai lleol. Cefnogir hyn gan waith Warnes a Ford (1995) sy'n dangos er bod cynnydd yn y tueddfryd i symud

gydag oed cynyddol uwchben 75 oed, mae rhan fwyaf y mudo hyn ar ffurf symudiadau pellter byr.

2.32 Mae Champion et al yn dangos bod llifoedd mudol cysylltiedig â cham bywyd hefyd yn gysylltiedig â dwysedd y boblogaeth. Maent yn awgrymu bod patrwm cyffredinol i ardaloedd dwysedd uchel (trefol) golli mudwyr i ardaloedd dwysedd isel (gwledig a maestrefol), a bod y patrwm hwn yn gymwys i deuluoedd ac oed gwaith hŷn, ac i raddau llai i ddynion 65+ oed. Fodd bynnag, i bobl ifanc 16 - 29 oed y gwrthwyneb sy'n wir, gyda symudiadau o ardaloedd dwysedd isel i rai dwysedd uchel yn gysylltiedig â symudiadau o ardaloedd gwledig a threfol i gymdogaethau dwysedd uchel wedi'u lleoli'n agos at sefydliadau addysgol.

**Gwahaniaeth yn ôl rhyw**

2.33 Mae Champion et al yn dangos bod llifoedd mudol i fenywod yn tueddu i gynyddu'n gyflymach a chyrraedd eu hanterth yn gynharach nag i ddynion y tu hwnt i 16 oed, gan ostwng ychydig yn is na dynion tan ar ôl oed ymddeol pan maent yn uwch na chyfraddau mudo dynion. Mae hyn, maent yn ei awgrymu, yn gysylltiedig â:

- menywod yn gadael y cartref 1 neu 2 flynedd cyn dynion ac yn cyd-fyw /priodi dynion tua 2 flynedd yn hŷn; a
- dynion yn marw'n gynharach na menywod ac yn osgoi'r mudo sy'n ganlyniad i farwolaeth cymar.

Cefnogir hyn gan Warnes a Ford, sy'n dangos bod y tueddfryd uwch i symud ymysg pobl dros 75 oed fwyaf amlwg ymysg menywod dros 85 oed.

2.34 Yn nhermau pwy yw'r prif gymhellwr yn y mudo, a chan ddefnyddio gwaith Green (1997) yn Nottingham, awgryma Champion et al fod teuluoedd dwy yrfa yn ceisio lleoliadau sy'n rhoi'r dewis gorau i'r ddau bartner o safbwynt cyflogaeth. Mae lleoliadau lled-wledig yn agos at draffyrdd yn cael eu ffafrio.

**Ffactorau demograffig tarddiadau a chyrchfannau**

2.35 Mae Champion et al yn dangos y bydd swm yr all-fudo yn cael ei ddylanwadu gan gyfansoddiad oed-rhyw y tarddiad. Mae gan ardaloedd ifanc eu natur gyda phoblogaethau sy'n tyfu gyfraddau all-fudo uchel (a graddau mewn-fudo uwch fyth) ac mae gan ardaloedd â phoblogaethau hŷn gyfraddau all-fudo is. Awgryma Champion et al bod y cyfansoddiad oed a rhyw yn y cyrchfannau yn adlewyrchu effaith gronnus penderfyniadau mudo yn y gorffennol, felly mae ardaloedd gyda dwysedd uchel o fudwyr sydd wedi ymddeol (trefi glan môr a threfi sba) yn parhau i ddenu mudwyr sydd wedi ymddeol sy'n ceisio'r cyfleusterau a'r amgylchedd a ddenodd mudwyr tebyg yn ystod blynyddoedd cynharach.

**Ethnigrwydd**

2.36 Mae Champion et al, gan gyfeirio at waith Owen a Green (1992) a Champion (1996), yn dangos er bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o symud cartref nag aelwydydd gwyn, mae amrywiad sylweddol rhwng grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae cyfraddau mudo ar gyfer aelwydydd Tsieineaidd a Du Affricanaidd yn ddwbl cyfraddau aelwydydd Indiaidd, Du Caribïaidd a Phacistanaidd. At hynny, roedd aelwydydd Tsieineaidd yn tueddu i symud pellterau hwy nac aelwydydd gwyn.

**Gweithgarwch economaidd**

2.37 Mae Owen a Green yn dangos bod mudo rhyng-ranbarthol yn cael ei gyflawni'n bennaf gan y rheiny mewn cyflogaeth a'u dibynyddion, wedi'u dilyn gan y rheiny sy'n symud allan o gyflogaeth. Mae Champion et al yn dyfynnu cyfres o astudiaethau sy'n cyflwyno darlun aneglur o a yw pobl ddi-waith yn fwy neu'n llai tebygol o fudo:

- Dangosodd Antolin a Bover (1997), mewn astudiaeth o weithwyr di-waith yn Sbaen, fod gan y rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddi-waith gyfraddau mudo is na gweddill y boblogaeth;
- Cafodd Kitching (1990), mewn astudiaeth o bobl sgil-isel a di-waith yn Lerpwl, ei fod yn ymddangos bod y cyfle i sicrhau tai a chefnogaeth teulu a ffrindiau yn bwysicach na rhagolygon ansicr o gael swydd well yn rhywle arall;
- Dangosodd Van Dijk et al (1989) fod pobl ddi-waith yn yr Iseldiroedd yn fwy tebygol o fudo na'r rheiny mewn cyflogaeth. Awgryma Champion et al y gallai hyn fod yn gysylltiedig â throsglwyddo gwybodaeth mwy effeithlon ac effeithiol yn yr Iseldiroedd ar swyddi gwag, oedd yn galluogi'r di-waith i ddod o hyd i waith yn haws.

2.38 Dangosa Boheim a Taylor (2002) er bod y di-waith yn cynrychioli 10% o achosion o symud tŷ, mae person di-waith yn fwy tebygol o symud na chyflogai sydd fel arall yn debyg. Fodd bynnag, maent yn dangos y tebygolrwydd o ostyngiad mewn mudo rhanbarthol gyda hyd diweithdra, a bod rhai sy'n ddi-waith am gyfnod hir yn llai tebygol o fudo i ganfod gwaith.

**Dosbarth cymdeithasol**

2.39 Mae Champion et al yn tynnu sylw ar dystiolaeth sy'n awgrymu bod pobl mewn swyddi rheoli a phroffesiynol yn dangos cyfraddau mudo rhyng-ranbarthol 50-90% yn uwch na'r cyfartaledd. I'r gwrthwyneb, roedd gan alwedigaethau gwaith corfforol gyfraddau mudo rhyng-ranbarthol oedd yn 50% o'r cyfartaledd. Mae hyn, y maent yn ei awgrymu, yn gysylltiedig ag arbenigeddau mewn galwedigaethau. Yr uchaf i fyny'r hierarchaeth alwedigaethol, y mwyaf tebygol yw hi y bydd rhaid i berson cymwys symud i ganfod cyflogaeth, lle mae swyddi gwaith corfforol a rhai lled-fedrus yn fwy niferus mewn marchnadoedd llafur. Dangosa Boheim a Taylor fod gweithwyr gwaith corfforol yn llai tebygol i symud na'r holl grwpiau galwedigaethol eraill.

**Addysg**

2.40 Dangosa Champion et al fod cyfraddau mudo rhyng-ranbarthol oddeutu dwywaith y cyfartaledd ar gyfer y rheiny â chymhwyster gradd neu radd uwch, tra eu bod lawer yn is i'r rheiny gyda chymwysterau ysgol yn unig. Fodd bynnag, fel y maent yn ei nodi, mae addysg uwch hefyd yn cyfrannu at gyfraddau mudo yn uniongyrchol, gyda myfyrwyr yn cael eu hannog yn draddodiadol i geisio lle mewn sefydliad i ffwrdd o ardal eu cartref.

**Swyddi gwag galwedigaethol a chamgyfatebu llafur medrus**

2.41 Awgryma Champion et al, gan ddyfynnu Oberg (1997), hyd yn oes os yw'r galw am lafur a'r cyflenwad ohono mewn rhanbarthau yn gytbwys, bydd mudo gan weithwyr yn angenrheidiol o ganlyniad i gamgyfatebu yn amseru recriwtio llafur gyda sgiliau arbenigol i farchnadoedd llafur bach. Maent yn amlygu'r pwynt hwn drwy gynnig enghraifft ddamcaniaethol o 100 o swyddi gwag ar gyfer athrawon mathemateg mewn un ardal dros gyfnod o 10 mlynedd a 100 o bobl yn byw yn yr ardal honno yn gwneud cais am swyddi o'r fath. Er mai'r dybiaeth fyddai na fyddai unrhyw un o'r ymgeiswyr yn methu â chael swydd, y pwynt allweddol yw amseru'r swyddi gwag ac argaeledd yr ymgeiswyr. Felly er gwaetha'r ffaith ei bod yn ymddangos bod marchnadoedd swyddi yn gytbwys, bydd mudo yn parhau i ddigwydd rhwng ardaloedd.

**Natur newidiol yr economi**

2.42 Awgryma Champion et al fod newidiadau mawr yn strwythur y system economaidd ryngwladol ers y 1970au wedi cael effaith ddofn ar fudo cenedlaethol a rhanbarthol mewn gwledydd datblygedig. Maent yn cyfeirio at waith Dunford a Fielding (1997), sy'n nodi saith elfen o ailstrwythuro economaidd ôl-Fordaidd (ôl cynhyrchu màs dwys o ran llafur) sydd wedi effeithio ar batrymau mudo:

- dad-ddiwydiannu;
- preifateiddio;
- arbenigo hyblyg;
- ffemineiddio;
- aml-ddiwylliannaeth;
- polareiddiad cymdeithasol;
- rhyngwladoli.

Mae hyn, y maent yn ei awgrymu, wedi lleihau cyfloedd yn sylweddol i bobl mewn galwedigaethau di-sgil neu lled-fedrus i symud o ranbarth i ranbarth.

**Newid mewn cyflogaeth, differynnau diweithdra a gwahaniaethau mewn cyflogau**

2.43 Mae Champion et al yn ystyried yr ystod o waith a ymgymerwyd gan fodelwyr mudo. Er bod gwaith wedi dangos bod diweithdra uchel yn gysylltiedig â gostyngiad mewn mudo net a bod diweithdra isel yn gysylltiedig â chynnydd mewn mudo, nid yw'r patrwm hwn mor syml ag y

mae'n ymddangos. Maent yn cyfeirio at waith Congdon (1991) sy'n dangos, wrth ddatblygu model mudo rhyng-ranbarthol, roedd yn bwysig cynnwys newidynnau newid cyflogaeth a gwybodaeth am brisiau tai, oherwydd mae'r newidynnau hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r penderfyniad i fudo, tra bod incwm rhanbarthol wedi'i gysylltu'n llawer llai agos â'r penderfyniad i fudo.

**Cylchoedd busnes cenedlaethol a rhanbarthol**

2.44 Mae Champion et al yn awgrymu nad oes cyswllt clir rhwng cam y cylch economaidd a mudo rhyng-ranbarthol. Maent yn awgrymu yn ystod y cyfnod o ffyniant yn y 1980au cafwyd mwy o all-lifo cwmnïau a phoblogaeth o leoliadau trefol mwy prysur, yn chwilio am leoliadau rhatach ac amgylcheddau llai prysur, ond bod y duedd hon yn arafu'n sylweddol wrth i ddirwasgiad y 1990au cynnar, a arweiniwyd gan dai, gydio.

2.45 Dywed Jackman a Savouri (1992) bod swm y mudo yn gysylltiedig â cham y cylch economaidd, gyda llifoedd mudol yn lleihau pan fydd yr economi mewn dirwasgiad. Mae hyn, y maent yn ei awgrymu, oherwydd bod nifer y swyddi sy'n cael eu llenwi yn is mewn cyfnod o ddirwasgiad, felly mae llai o gyfleoedd i ddarpar fudwyr.

**Effeithiau lluosi mudo a arweinir gan ddefnydd**

2.46 Mae Champion et al yn nodi'r mathau o bobl nad ydynt wedi'u cyfyngu gan weithleoedd ac sydd ar y cyfan yn dewis lleoliadau rhatach y tu allan i'r prif ddinasoedd. Mae hyn yn tueddu i gael effaith luosi wrth greu swyddi i ddarparu ar gyfer y twf hwn yn y boblogaeth a arweinir gan fudo. Maent yn cyfeirio at waith a ymgymerwyd gan Newton a Bell (1996) a Bell (1995), sy'n cyfeirio ar y ffurf hon ar fudo fel mudo a arweinir gan ddefnydd. Mae Champion et al yn awgrymu bod y ffurf hon ar fudo wedi'i nodi ar gyfer y grwpiau canlynol:

- pobl hŷn;
- pobl hŷn sy'n gweithio yn symud cyn ymddeol;
- pobl hunangyflogedig nad oes angen iddynt deithio'n rheolaidd i weithle ar wahân;
- pobl ddi-waith sy'n cyfrifo y bydd eu budd-daliadau lles sefydlog yn werth mwy iddynt mewn ardaloedd nad ydynt yn fetropolitan a chyrchfannau y tu allan i'r tymor.

**Tai sector cyhoeddus yn rhwystr i fudo**

2.47 Mae Champion et al yn nodi'r corff o lenyddiaeth sy'n dangos bod tai sector cyhoeddus yn rhwystr i symudedd llafur. Dangosodd cyfres fawr o astudiaethau yn y 1980au a'r 1990au bod y rheiny sy'n byw mewn tai cyngor yn fwy tebygol o fod yn fudwyr diweddar, ond eu bod yn llai tebygol na'r rheiny mewn tai perchnogion preswyl i symud dros bellter hir.

2.48 Mae Pawson a Watkins (2008) yn dangos er bod y pellter y mae tenantiaid newydd yn symud yn para'n fyr ar y cyfan, mae tystiolaeth glir fod pellter o'r fath yn tueddu i gynyddu yn dilyn cyflwyno cynlluniau gosodiadau seiliedig ar ddewis.

**Tai perchnogion preswyl**

2.49 Dywed Champion et al bod aelwydydd sy'n byw mewn tai perchnogion preswyl yn fwy tebygol o fudo pellter hir na'r rheiny mewn tai cyngor, ond yn llai tebygol na'r rheiny mewn tai a rentir yn breifat, a bod twf parhaus y sector perchnogion preswyl yn creu goblygiadau ar gyfer mudo rhyng-ranbarthol. Maent yn mynd ymlaen i nodi'r canfyddiadau allweddol o'r llenyddiaeth am ffactorau sy'n dylanwadu ar fudo rhyng-ranbarthol perchnogion preswyl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **adeiladu tai newydd**
  Dadleuodd Evans (1990) y bydd rheoliadau cynllunio llym ar ddatblygu tir yn achosi cynnydd mewn prisiau tai fydd yn rhwystro mewn-fudo. Awgrymodd Bramley (1995) a Bramley a Watkins (1996) fod cyfraddau mewn-fudo net yn ymatebol iawn i ryddhau tir ar gyfer datblygu tai. Dangosodd Forrest a Murie (1994), mewn astudiaeth o adeiladu tai yn ne Lloegr, fod y farchnad perchnogaeth tai yn dod yn fewnblyg, o ganlyniad i gynnydd mawr mewn prisiau, gan ei wneud yn anodd i leiafrif sylweddol ddod yn berchnogion preswyl. Nid oedd datblygu tai newydd yn esgor ar aelwydydd o'r fath yn dod i mewn i'r sector, gan eu bod yn cael eu gwthio allan gan aelwydydd newydd mwy cyfoethog a pherchnogion preswyl. Roedd hyn, yr oeddent yn ei awgrymu, yn rhwystro llifoedd mudol i'r rhanbarth;

- **prisiau tai**
  Mae wedi'i ddangos bod perthynas negyddol rhwng prisiau tai rhanbarthol a mudo ym Mhrydain. Mae Champion et al yn dyfynnu gwaith Gordon (1982) a Harrigan et al (1986), oedd yn dangos bod mudo rhyng-ranbarthol ym Mhrydain yn negyddol gysylltiedig â phrisiau tai cymharol. Awgrymodd Forrest (1987) mai perchnogaeth breswyl, yn hytrach na thai cyngor, oedd yn ymddangos fel y prif rwystr i symudedd llafur;

- **dirwasgiad cenedlaethol**
  Mae Champion et al yn cyfeirio at waith Pissarides a Wadsworth (1989), sy'n dangos, yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad economaidd, mae'r rhai mewn cyflogaeth a'r di-waith yn dod yn llai symudol, a Fielding (1993), a ddangosodd bod rhanbarth cynnydd y 'de ddwyrain' yn profi gostyngiadau mewn mudo net yn ystod ffyniant economaidd a chynnydd mewn mudo net (neu ostyngiadau bach yn unig) yn ystod dirwasgiadau dwfn. Dangosodd Fielding bod cyfraddau all-fudo ar gyfer y de ddwyrain yn lleihau'n sylweddol yn ystod cyfnodau o

ddirwasgiad, y priodolir yn rhannol i'r anhawster wrth waredu tai. I'r gwrthwyneb, nid yw'n ymddangos bod cyfraddau mewn-fudo yn amrywio'n sylweddol rhwng cyfnodau ffyniant a dirwasgiad. Dangosodd Jones (2009) berthynas rhwng symudiadau mewn prisiau tai cyfartalog yn Llundain a Chymru a chyfradd y mewn-fudo i Gymru. Dangosodd Jones fod y gyfradd o fewn-fudo o Gymru yn cynyddu ar adegau pan fydd y bwlch rhwng prisiau tai cyfartalog yn Llundain a Chymru ar eu huchaf. Er bod y gyfradd all-fudo o Gymru yn aros yn gymharol gyson, mae cyfradd y mewn-fudo yn cynyddu wrth i'r bwlch rhwng prisiau tai cyfartalog yn Llundain a Chymru ehangu.

**Tai a rentir yn breifat**

2.50 Dywed Champion et al bod llawer llai o sylw wedi cael ei roi i rôl tai a rentir yn breifat mewn perthynas â mudo, yn rhannol oherwydd maint bach y sector yn y DU o'i gymharu â gwledydd datblygedig eraill. Awgryma Minford et al (1987) fod polisïau cysylltiedig â'r sector rhentu preifat yn gyfrifol am y diffyg eiddo a rentir yn breifat cymharol yn y DU, a bod hyn yn effeithio ar symudedd llafur. Mae Bover et al (1989) yn cefnogi'r dadleuon hyn, ac yn awgrymu bod Deddfau Rhentu penodol wedi gweithio fel ffactorau allweddol wrth leihau'r mudo rhyng-ranbarthol. Mae astudiaethau gan Boyle (1993), Hughes a McCormick (1981) a Boheim a Taylor wedi dangos yn gyson bod y rheiny sy'n symud i mewn i eiddo a rentir yn breifat wedi'u cyfyngu llai gan bellter na'r rheiny sy'n symud i mewn i sectorau eraill y farchnad dai.

**Mudo rhwng daliadaethau**

2.51 Mae Champion et al yn amlygu'r ffaith fod mudo weithiau yn cynnwys newidiadau mewn daliadaethau, gyda nifer sylweddol o'r rhai sy'n symud yn gadael un ddaliadaeth yn y tarddiad a symud i ddaliadaeth wahanol yn y cyrchfan, yn cynnwys niferoedd sylweddol yn symud o'r sector perchnogion preswyl i mewn i'r sector rhentu. Dangosa Buck (1994) fod pobl hŷn yn symud i mewn i dai cysgodol yn niferus ymysg y grŵp hwn, ond bod nifer sylweddol o symudiadau yn gysylltiedig ag achosion o droi allan ac adfeddiannu.

**'Gwrthdrefoli'**

2.52 Mae Champion et al yn nodi dylanwad ffactorau amgylcheddol sy'n arbennig o ddylanwadol mewn mudo o ranbarthau trefol i rai gwledig a symudiadau o leoedd mwy i rai llai yn yr hierarchaeth drefol. Maent yn cyfeirio at hyn fel 'gwrthdrefoli', ac yn dweud bod y duedd hon yn gymhleth – mae pobl yn symud am amrywiaeth o resymau ac i amrywiaeth o leoedd. Maent yn cyfeirio at waith Halliday a Coombes (1995) a nododd dri math o ymadawiad trefol:

- 'gwrth-fetropolitan' – yn cynnwys yr awydd i symud i ffwrdd oddi wrth ranbarthau â phoblogaeth uchel gyda phrisiau tai uchel a chysylltiadau â'r 'ras lygod';

- ‘gwrth-drefol’ - yn pwysleisio’r ffactorau dylanwadol fel trosedd, problemau cymdeithasol, anesmwythder ethnig, tagfeydd a llygredd sy’n broblemau a gysylltir â dinasoedd a threfi mwy o faint yn hytrach na setliadau llai;
- ‘rhag-wledig’ - yn pwysleisio’r cais am well amgylchedd neu ffordd o fyw mwy heddychlon, ac yn cael ei weld fel estyniad o faesdrefoli.

2.53 Awgryma Cross (1990) fod tri phrif grŵp o bobl yn ymwneud â’r broses wrthdrefoli:

- pobl sydd wedi ymddeol;
- cymudwyr pellter hir;
- pobl yn derbyn swyddi yn yr ardal leol.

2.54 Awgryma Champion et al fod y llenyddiaeth yn glir iawn am pam mae’r bobl hyn yn symud mewn niferoedd uwch ac yn cael effaith fwy ar ardaloedd gwledig nag o’r blaen:

- mae’r boblogaeth o bobl hŷn yn tyfu mewn maint, mae pobl yn ymddeol yn iau nag o’r blaen, ac mae mwy o bobl yn berchnogion preswyl nac mewn cenedlaethau blaenorol ac yn gallu ystyried prynu eiddo rhatach yn y farchnad a phrynu mewn ardal ratach i gynyddu eu cynilon;
- ers y 1970au mae’r dewis o ardal ymddeol wedi newid o dref glan môr i gefn gwlad;
- mae gwelliannau mewn rhwydweithiau trafnidiaeth, yn enwedig y rhwydwaith ffyrdd, wedi galluogi pobl i gymudo pellterau hwy nag o’r blaen, gan wneud mudo i ardaloedd gwledig yn opsiwn mwy realistig i bobl mewn cyflogaeth;
- y newid unigol pwysicaf yw’r newid yn naearyddiaeth cyflogaeth. Mae mwyafrif helaeth yr aelwydydd sy’n symud i mewn i ardaloedd gwledig Lloegr yn cynnwys pobl sy’n gweithio, ac mae’r prosesau dad-ddiwydiannu a datganoli cyflogaeth o ardaloedd trefol wedi cyfrannu at y duedd ‘gwrthdrefoli’.

2.55 Mae Champion et al yn nodi corff o waith sy’n dangos mai un o’r rhesymau sy’n sbarduno symudiadau o ardaloedd anfetropolitan yw bod pobl yn hoff o gefn gwlad. Cafodd Halfacree (1994) fod 59% o fudwyr trefol i wledig yn cyfeirio at ‘ansawdd ffisegol yr amgylchedd’ a 41% at ‘ansawdd cymdeithasol yr amgylchedd’. Maent hefyd yn dweud bod pobl sy’n symud allan o ardaloedd metropolitan yn gadael y maestrefi bras yn hytrach na’r cymdogaethau llai dymunol. Awgrymodd Fielding (1993) er mai mudo allan o’r rhanbarth metropolitan yw’r thema amlycaf mewn mudo yn Lloegr, mae cymryd rhan yn y thema hon yn amrywio gyda chwrs bywyd. Awgrymodd fod pobl yn cael eu denu i ddinasoedd yn ystod cyfnodau cynnar eu bywyd, lle mae llawer yn cynyddu’n gyflym o ran statws eu swyddi, ac yn dewis symud i fywyd tawelwch mewn amgylchiadau llai prysur a drud ar gam hwyrach yn eu bywyd.

**Mudo rhanbarthol i mewn i Gymru**

2.56 Pwysleisia Green (1992) rôl mudo o Loegr wedi'i chyfeirio at yr ardaloedd gwledig a de ddwyrain Cymru. Awgryma fod Cymru yn ei hanfod yn rhan o gefnwlad all-fudo ardaloedd metropolitan Lerpwl, Manceinion, Birmingham a Bryste, a de ddwyrain Lloegr hyd yn oed.

2.57 Mae Drinkwater a Blackaby (2004) yn creu darlun diddorol o fudo i mewn i Gymru ac allan ohoni, ac yn nodi hanes hir llifoedd mudol. Maent yn dweud:

- mae gan Gymru'r boblogaeth fwyaf amrywiol o holl wledydd y DU, gyda 25% o'r boblogaeth wedi'u geni tu allan i Gymru, o'i gymharu â 13% o boblogaeth Lloegr a'r Alban a 9% o boblogaeth Gogledd Iwerddon;
- mewn ardaloedd awdurdodau lleol yng ngogledd ddwyrain Cymru, mae nifer y rhai a anwyd yng Nghymru ychydig yn unig yn uwch na'r rheiny a anwyd y tu allan i Gymru[5];
- mae cyfran uchel o unigolion a anwyd yng Nghymru yn gadael y wlad, gyda 22% o boblogaeth Cymru oedd yn byw yn y DU yn byw y tu allan i Gymru, cyfran uwch nag ymysg y poblogaethau a anwyd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- mae cyfraddau mewn-fudo blynyddol wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, o oddeutu 45,000 ym 1981 i 64,000 yn 2002, o'i gymharu â chyfradd all-fudo flynyddol o oddeutu 50,000;
- y cynnydd yn y mudo net yng Nghymru yn ystod 1999-2000 oedd 7,000 o unigolion (yr oedd mwy na hanner o'r rheiny yn y grŵp 45-64 oed) a'r awdurdodau lleol gwledig sydd â'r mewn-fudo net uchaf ar gyfer y grŵp oed hwn;
- mae unigolion a anwyd yng Nghymru yn cynrychioli 23% o fudwyr i Gymru o rannau eraill y DU, a 30% o fudwyr o'r tu allan i'r DU.

2.58 Awgryma Drinkwater a Blackaby mai rhan o'r rheswm dros y cynnydd mewn mudo yw bod ardaloedd gwledig yn cynnig lleoliad deniadol i'r rheiny sydd wedi ymddeol ac yn nesáu at ymddeol.

2.59 Dangosa Hartwell et al (2007) bwysigrwydd mewn-fudo o ardaloedd gwledig Cymru. Rhwng 1981 a 2001 cynyddodd boblogaeth Cymru wledig o 886,200 i 957,700, cynnydd o 8.3% a yrrwyd gan fewn-fudo. Os tynnir mewn-fudo allan o'r cyfrifiad mewn perthynas â newid yn y boblogaeth, byddai poblogaeth Cymru wledig wedi gostwng dros y cyfnod 1991 hyd 2001, gyda newid naturiol yn y boblogaeth (yr amrywiad yn y boblogaeth o ganlyniad i enedigaethau a marwolaethau) yn dangos gostyngiad yn y

[5] Ganwyd y cyfrannau canlynol o boblogaethau'r 'chwe sir' yng Nghymru:
Ynys Môn 67.5%, Ceredigion 58.5%, Conwy 53.9%, Sir Ddinbych 57.9%, Sir y Fflint 51.1% a Gwynedd 69.8%.
Ffynhonnell: http://neighbourhood.statistics.gov.uk/

boblogaeth o 19,400. Fodd bynnag, awgryma Hartwell et al fod y twf yn y boblogaeth yng Nghymru wledig yn cuddio'r all-fudo ymysg pobl ifanc.

2.60 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) yn y bwletin ystadegol 'Patrymau mudo ar gyfer Cymru: Gweddill y DU a Rhyngwladol' yn dangos patrymau newidiol mudo i Gymru o weddill y DU a gweddill y byd yn ystod y cyfnod 1994 hyd 2004. Mae'n dangos bod:

- mudo i Gymru o weddill y DU yn cynrychioli 85% o'r holl fewnfudo i Gymru;
- ym mhob un o'r blynyddoedd yn y cyfnod hwn roedd mewnlif net o fudwyr i mewn i Gymru o weddill y DU;
- roedd mewnlif net blynyddol cyfartalog o 2,700 o fudwyr o weddill y byd yn ystod y cyfnod 1994 hyd 2004, ac roedd hyn yn gwyrdroi tuedd hir dymor o all-fudo net i weddill y byd.

2.61 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) yn y bwletin ystadegol 'Patrymau Mudo yng Nghymru' yn dangos patrymau mudol i mewn i Gymru, allan ohoni ac oddi mewn iddi yn ystod y cyfnod canol 1999 hyd canol 2004. Mae'n dangos y canlynol:

- Gogledd Cymru sy'n denu'r nifer mwyaf o fudwyr net o Loegr, sy'n cynrychioli ychydig dros draean o'r llif net i Gymru;
- mae all-lif net o fudwyr i Loegr ymysg y grŵp oed 16-24, ac eithrio De Ddwyrain Cymru;
- mae rhan fwyaf yr all-fudwyr yn gadael Cymru i fynd i Dde Orllewin Lloegr, tra bod rhan fwyaf y mewn-fudwyr o Loegr i Gymru yn dod i Ogledd Orllewin Lloegr.

**Rôl trefi glan môr**

2.62 Darn o lenyddiaeth academaidd perthnasol y mae angen ei ystyried yn yr adolygiad hwn yw astudiaeth a ymgymerwyd gan Beatty et al (2003), sydd, fel rhan o gyfres o astudiaethau ar y ffordd y mae'r farchnad lafur a'r galw am dai yn rhyngweithio, yn darparu gwybodaeth am gydrannau'r galw am dai cymdeithasol mewn pedair tref glan môr yn Lloegr. Maent yn nodi bod trefi glan môr yn grŵp unigryw o setliadau sy'n wahanol eu swyddogaeth, hanes a chymeriad i ddinasyddion, trefi diwydiannol ac ardaloedd gwledig Prydain, gyda nifer llawer uwch o lety a rentir yn breifat na mannau eraill a stoc tai cymdeithasol sylweddol is. Mae'r astudiaeth yn dangos bod y mewnlifau mwyaf i mewn i'r sector tai cymdeithasol wedi dod o'r rheiny yn byw yn y sector rhentu preifat yn yr ardal, a bod llifoedd i mewn i'r sector rhentu cymdeithasol o'r tu allan i'r ardal (o ba ddaliadaeth bynnag) yn llawer is. Maent yn dod i'r casgliad nad yw tai cymdeithasol mewn trefi glan môr yn cael eu llenwi gan bobl yn symud yn uniongyrchol i'r math hyn o dai o fannau eraill.

2.63 Mae Beatty et al yn awgrymu bod y sector rhentu preifat yn gweithredu fel pwynt mynediad i mewn i'r farchnad dai leol i bobl nad ydynt mewn cyflogaeth sy'n symud rhwng ardaloedd, gan nad yw'n gofyn am yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer perchnogaeth breswyl na'r rhwystrau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r sector tai cymdeithasol. Yn ogystal, mewn trefi glan môr mae stoc fawr o lety gwyliau blaenorol ar gael i'w rentu.

2.64 Maent yn amcangyfrif bod llawer mwy o'r rhai sy'n symud i mewn i dai a rentir yn breifat nad ydynt mewn cyflogaeth yn dod o'r tu allan i'r ardal ac, o'r rhain, y ddau grŵp mwyaf yw'r rheiny a oedd cyn hynny naill ai'n berchnogion preswyl neu'n denantiaid tai cymdeithasol. Pan ystyrir hyn ochr yn ochr â chanfyddiadau Buck (1994) (a awgrymodd fod cyfran fawr o fudo rhanbarthol, lle mae newid mewn daliadaeth yn digwydd, yn gysylltiedig ag adfeddiannu a throi allan), gellid dadlau bod llawer o denantiaid preifat o'r tu allan i'r ardal wedi symud i mewn i'r sector rhentu preifat mewn trefi glan môr oherwydd bod daliadaeth wedi methu mewn man arall. Fodd bynnag, dylid pwysleisio nad oes unrhyw dystiolaeth o faint y grŵp hwn o denantiaid sector preifat. Awgryma Champion et al (1998) mai un enghraifft o fudo a arweinir gan ddefnydd oedd pobl ddi-waith yn symud i gyrchfannau gwyliau 'y tu allan i'r tymor' i fwyafu eu budd-daliadau lles, ond eto, nid oes tystiolaeth ynghylch i ba raddau mae hyn yn digwydd.

2.65 Daw Beatty et al i'r casgliad fod yna, dros amser, lif allan o'r sector rhentu preifat i mewn i'r sector tai cymdeithasol. Felly mae peth o'r mewn-fudo i drefi glan môr yn bwydo drwyddo i alw uwch am dai cymdeithasol.

### Y ddadl tai gwledig ac ystyr 'lleol'

2.66 Mewn astudiaeth fel hon lleol mae'r awdurdodau lleol dan sylw yn ardaloedd gwledig yn bennaf, mae'n werth ystyried ystyr newidiol 'lle' a 'lleol', archwilio achosion gwreiddiol problemau tai gwledig yn y DU a Chymru, a thrafod un o'r datrysiadau a gynigiwyd i broblemau tai gwledig, gan sicrhau bod cartrefi mewn cymunedau gwledig yn cael eu gosod i 'bobl leol'.

2.67 Mae lle yn un o'r syniadau daearyddol mwyaf cymhleth, ac mae wedi bod yn destun trafodaeth helaeth ym maes daearyddiaeth ddynol. Mae Castree (2003) yn darparu trosolwg o'r trafodaethau hyn a, gan ddefnyddio gwaith Agnew (1987), mae'n awgrymu bod tri phrif ystyr i le:

- lle fel lleoliad – pwynt penodol ar arwyneb y ddaear;
- ymdeimlad o le – y teimladau goddrychol y mae gan bobl am leoedd, yn cynnwys rôl lle yn eu hunaniaeth unigol a grŵp;
- lle fel bro – lleoliad a chwmpas ar gyfer gweithrediadau bob dydd a rhyngweithio pobl.

2.68 Gan ddefnyddio'r diffiniadau hyn, mae'n amlwg y gall lle olygu gwahanol bethau i wahanol bobl, yn dibynnu ar eu profiadau. Fodd bynnag mae ystyr lle a'r hyn sy'n lleol yn gallu newid dros amser. Dangosir hyn orau gan Strathern (1984) yn ei gwaith yn archwilio ystyr cymdeithasol brogarwch. Gweithiodd Strathern gyda gwahanol grwpiau o bentrefwyr ym mhentref Elmdon yn Essex i geisio deall ystyr 'lleol' i'r grwpiau hyn. Awgryma fod pentrefwyr dosbarth canol yn ystyried bod hyd preswyliaeth, arfer a galwedigaeth yn pennu a oedd person yn 'bentrefwr gwirioneddol' neu'n 'ddieithryn'. Fodd bynnag, roedd hyn i'r gwrthwyneb i farn y rheiny oedd yn honni eu bod hwy yn 'bentrefwyr go iawn', oedd yn pennu mai'r cymhwyster oedd cysylltiad teuluol, gan felly eithrio mwyafrif y boblogaeth.

2.69 Mae Castree'n dadlau fod y broses o ryngwladoli a'r ffordd y mae'n ymestyn perthnasau cymdeithasol ar draws lle wedi codi cwestiynau am y farn draddodiadol am le. Disgrifir hyn orau gan Massey:
*"one of the results of this is an increasing uncertainty about what we mean by 'places' and how we relate to them. How, in the face of all this movement and intermixing, can we retain any sense of a local place and its particularity? An (idealised) notion of an era when places were (supposedly) inhabited by coherent and homogeneous communities is set against the current fragmentation and disruption."*[6]:

2.70 Yn draddodiadol, diffinnir 'pobl leol' fel y rheiny â chysylltiad tiriogaethol penodol yn bennaf oherwydd eu bod yn byw ac yn gweithio mewn ardal. Awgryma Huigen, Groote a Haartsen (2000) nad yw diffiniadau o'r fath yn ddigonol bellach, oherwydd bod nifer sylweddol uwch o randdeiliaid yn ymwneud â chymdeithasau gorllewinol modern sydd â hawliadau dilys dros yr hawl i ddweud sut y defnyddir adnoddau gwledig.

2.71 Disgrifiad Woods (2007) 'cefn gwlad byd-eang' fel lle y mae brwydro drosto lle mae'r trawsnewid a orfodir ar ofod gweledig gan ryngwladoli yn aml yn cael ei wrthwynebu gan ymgyrchwyr lleol. Ymddengys bod tai gwledig yn un o sawl maes lle mae'r lleol yn gwrthdaro yn erbyn y byd-eang.

2.72 Awgryma Shucksmith (1990) fod traddodiad hir o wrthdaro rhwng perchnogaeth a deiliadaeth tai gwledig yn y DU, sy'n ymddangos ei fod yn fwy amlwg na gweddill Ewrop. Mae problemau tai gwledig wedi ymddangos yn y cyfnod ôl 1945 ochr yn ochr â gwrthdrefoli a rhyngwladoli. Mae'r ddwy duedd hyn wedi newid y ddadl academaidd o gwmpas ystyr lle a chymdogaeth o fewn meysydd daearyddiaeth ddynol a chymdeithaseg wledig, sy'n amlygu natur cymdeithas sy'n prysur newid a'i heffaith ar ardaloedd gwledig.

---

[6] Massey (1991), t.1.

2.73 Awgryma Gallent (2007), gan ddefnyddio gwaith Newby (1979), fod cymunedau gwledig rhyng-ryfel yn tueddu i fod yn ‘draddodiadol’ a ‘galwedigaethol’ yn yr ystyr bod mwy o unffurfiaeth ar draws y grwpiau cymdeithasol o fewn y cymunedau hyn:
*“people tended to work in land based occupations; they had the same educational background; they tended to live, work and die in their ‘community’. Communities were places of common bonds and of interaction, built on tradition, shared values and ideas, and a common culture.”*[7]

2.74 Gan ddefnyddio gwaith Martin (1962), mae Gallent yn mynd ymlaen i nodi nad oedd strwythur cymdeithasol cymunedau gwledig wedi newid llawer o gwbl dros y 600 mlynedd flaenorol. Awgryma Gallent fod dechrau gwrthdrefoli yn y 1960au a ddigwyddodd o ganlyniadau i newidiadau economaidd, gwelliannau sylweddol yn yr isadeiledd trafnidiaeth a rhagolygon newidiol y sector amaethyddol (amaethyddiaeth fecanyddol seiliedig ar gymhorthdal yn ymddangos) wedi newid y strwythurau mewn cymunedau gwledig, gan greu cymunedau wedi’u hollti ar hyd ffiniau dosbarth, gyda phobl yn byw ac yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd, pobl yn gadael, pobl yn symud i mewn, pobl yn prynu bythynnod penwythnos a llawer o bobl yn cael eu hincwm o swyddi wedi’u lleoli mewn dinasoedd.

2.75 Mae Lewis a Sherwood (2000) yn dadlau bod y farn am wrthdrefoli fel symudiad un ffordd yn bennaf o ran y boblogaeth yn cynnig dealltwriaeth rannol yn unig o batrymau mudo gwledig cyfredol a newid cymdeithasol. Maent yn awgrymu bod mudo gwledig yn cynnwys ystod eang o symudiadau trawstoriadol cymhleth ac amrywiaeth eang o wahanol boblogaethau. Gan ganolbwyntio ar Loegr wledig, mae Lewis a Sherwood yn awgrymu bod ailstrwythuro’r farchnad dai ym Mhrydain wedi golygu bod pentrefi gwledig yn cynnwys nifer gynyddol uchel o eiddo perchnogion preswyl, drud, sy’n sefyll ar eu pennau’u hunain, a bod hyn yn cael effaith fawr ar bennu natur llifoedd mudol i mewn i gefn gwlad ac allan ohono. Maent yn awgrymu bod colli stoc awdurdodau lleol drwy’r Hawl i Brynu, a datblygu cartrefi cymdeithasau tai ar safleoedd eithriedig gwledig, wedi arwain at ddatblygu is-farchnadoedd tai gwledig newydd. Yn benodol maent yn awgrymu bod cyn dai cyngor mewn ardaloedd gwledig yn cael eu prynu gan aelwydydd sy’n symud o ardaloedd trefol ‘lleol’ i mewn i bentrefi llai, a bod rhai o’r tai fforddiadwy ar safleoedd eithriedig gwledig yn dal aelwydydd nad ydynt o’r gymdogaeth honno ac yn aml yn tarddu o ardaloedd trefol ‘lleol’.

2.76 Mae Halfacree (2006), wrth geisio cyflawni diffiniad o wledig, yn dangos sut mae newid ehangach yn cael effaith ar ddiffiniadau o ardaloedd gwledig, a bod y newidiadau hyn yn digwydd o fewn cyd-destun

[7] Gallent (2007) t.99-100.

rhyngwladol o newid gwledig a threfol parhaus. Awgryma Halfacree ei fod yn ymddangos bod dau ddeinamig rhyng-gysylltiedig allweddol ar waith:

- yn gyntaf, ac o bwys i bob gwlad, mae dylanwad newidiol sy'n dwysau 'rhyngwladoli cyfalafol', a amlygir mewn system fwyd sydd wedi'i rhyngwladoli ac ymgiliad ymgysylltu uniongyrchol gwladwriaethau â'r sector amaethyddol. Mae hyn, fe awgryma, wedi hyrwyddo dwysau a diwydiannu o fewn y sector amaethyddiaeth mewn gwledydd gorllewinol datblygedig;
- yn ail mae cydnabyddiaeth o'r rôl defnyddio gynyddol a photensial lleoedd gwledig. Awgryma Halfacree fod hyn wedi amlygu'i hun yn y byd datblygedig, lle mae pryderon a defnydd cynyddol wedi'i hadlewyrchu ym mhob peth o'r pwysigrwydd cynyddol a roddir i ystyriaethau 'amgylcheddol' o fewn rhai ffurfiau ar amaethyddiaeth, i amnewid amaethyddiaeth am ddefnyddiau tir eraill sy'n ceisio gwasanaethu gofynion 'allanol' preswylwyr trefol.

2.77 Awgryma Gallent, Mace a Tewdwr-Jones (2003) fod y cyflenwad tai (ac yn benodol polisi cynllunio sy'n cyfyngu ar ddatblygu) yn un o brif achosion problemau tai mewn ardaloedd gwledig, yn hytrach na'r materion a nodir fel arfer sef mewn-fudo ac ail gartrefi. Awgryma Gallent et al fod cyfuniad o gyfyngiadau cyflenwi, colli tai cymdeithasol, a dymuniad pobl i symud i'r ardaloedd gwledig mwy deniadol, yn golygu bod rhai grwpiau lleol yn wynebu problemau mynediad a fforddiadwyedd difrifol.

2.78 Awgryma Shucksmith (1990) fod caffael tai gwledig yn y DU yn symbol dymunol o statws ac yn ffordd i mewn i ffordd o fyw y tybir sy'n 'ddelfrydol'. Mae'r potensial cronnol (yn nhermau ei werth ariannol) yn dibynnu ar barhad y diwylliant hwn, ynghyd â chyfyngiadau ar gyflenwad tai o'r fath. Mae Shucksmith yn mynd ymlaen i awgrymu bod pryder am anghenion lleol yn adlewyrchu'r syniad o gymunedau gwledig cytbwys sy'n ganolog i'r 'ddelfryd wledig'.

2.79 Mae Gallent et al yn mynd ymlaen i awgrymu bod angen i Gymru ddatblygu strategaeth bositif tuag at fynd i'r afael â gofynion tai mewn-fudwyr yng Nghymru wledig, gan y bydd rhan fwyaf y twf mewn poblogaeth yng Nghymru yn deillio o'r ffynhonnell hon.

2.80 Mae Comisiwn Sefydliad Joseph Rowntree ar Dai Gwledig yng Nghymru, JRF (2008) yn priodoli'r problemau ffoddiadwyedd yng Nghymru wledig i brinder y cyflenwad o dai fforddiadwy mewn cymunedau gwledig yng Nghymru:
*"it is our view that the limited provision of, and restricted access to, affordable housing in rural Wales are affecting the social and cultural sustainability of many of its communities……….Without significant changes to the existing housing and planning systems, there is a real danger that we will lose the next generation of rural people, which will lead*

*to a broader set of social, cultural and welfare problems for rural communities."*[8]

2.81 Mae Webb (2006) yn nodi cefndir damcaniaethol gwrthwynebiad Cymuned i fudo i mewn i neu 'wladychu' cymunedau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru wledig gan fudwyr di-Gymraeg[9]. Mae'n dadlau bod mudo o'r fath yn cael effaith sylweddol ar iaith a diwylliant y cymunedau y mae mudwyr yn symud iddynt, ac yn dadlau am yr angen i sicrhau bod tai fforddiadwy digonol yn cael eu datblygu mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith i gwrdd ag anghenion aelwydydd iau sy'n cael eu prisio allan o'r farchnad eiddo leol.

2.82 Yn nhermau dyrannu tai cymdeithasol, un o'r mesurau a gynigir (ac a fabwysiadir) amlaf ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau tai mewn ardaloedd gwledig (a'r anawsterau y mae grwpiau penodol ar ben isaf yr ystod incwm yn eu cael wrth gyrchu tai) yw'r ymgais i sicrhau bod tai yn cael eu dyrannu i bobl leol.

2.83 Mae Rogers (1985) yn adolygu'r dadleuon o blaid ac yn erbyn polisïau tai sy'n ffafrio pobl leol yn y broses ddyrannu. Noda rai rhwystrau difrifol iawn wrth weithredu polisïau o'r fath yn nhermau diffinio yr hyn yw lleol, effaith polisïau o'r fath ar y bobl leol eu hunain ac ar yr economi wledig, y ffaith fod polisïau o'r fath yn cynyddu lefel y galw am y stoc tai presennol, codi prisiau tai ymhellach y tu hwnt i gyrraedd pobl leol, ac o'u cymryd i'r pen eithaf rhesymegol gallant ymddangos ar ffurf sy'n anghyfiawn ac yn foesol anghyfiawn. Noda Rogers enghraifft Jersey a Guernsey, yr oedd eu polisïau tai yn eithrio pawb, ar wahân i'r rheiny oedd yn gallu fforddio'r tai drutaf. Daw Rogers i'r casgliad yr ymddengys bod amheuon ac ansicrwydd digonol ynghylch y syniad iddo fod yn sylfaen wael iawn er mwyn seilio elfen sylweddol o bolisi lles.

2.84 Yn nhermau ceisiadau digartrefedd, mae ystyr penodol i'r gair 'lleol'. Mae penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol am gysylltiad yn cael eu pennu gan y ddeddfwriaeth a'r Cod Arweiniad y mae'n rhaid i awdurdodau eu dilyn wrth gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd.

2.85 Dywed Adran 199 Deddf Tai 1996:
*"A person has a local connection with the district of a local housing authority if he has a connection with it-*
*a) because he is, or in the past was, normally resident there, and that residence is or was of his own choice;*
*b) because he is employed there;*
*c) because of family associations; or*
*d) because of special circumstances".*

---

[8] Comisiwn JRF ar Dai Gwledig yng Nghymru (2008),t.41.
[9] Grŵp pwyso cymunedol yw Cymuned sy'n gweithio i gryfhau cymunedau Cymraeg eu hiaith.

2.86 Mae'r Cod Arweiniad i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC, 2003) a'r cod Arweiniad Digartrefedd i Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd yn fwy diweddar a gynhyrchwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr (DCLG, 2006) yn diffinio ymhellach hyd y cyfnod preswylio sydd ei angen i sefydlu cysylltiad lleol drwy gyfeirio at Weithdrefnau Cyfeirio Ymgeiswyr Digartref ar Sail Cysylltiad Lleol ag Awdurdod Lleol Arall, cytundeb a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) yn Lloegr, Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Awgryma'r gweithdrefnau hyn y canlynol:
*"a working definition of 'normal residence'* (for homelessness applicants) *should be residence for at least 6 months in the area during the previous 12 months, or for not less than 3 years during the previous 5 year period."*[10]

2.87 Mae'r gweithdrefnau yn mynd ymlaen i nodi:
*"In Re Betts (1983) the House of Lords considered the application of the referral arrangements agreed between the local authority associations. Their Lordships decided that a rigid application of the arrangements would constitute a fetter on an authority's discretion. The agreement could be taken into account, and applied as a guideline, provided its application to each case is given individual consideration"*

2.88 Mae Rhan VI Deddf Tai 1996 (Adran 167), fel y diwygiwyd gan Ddeddf Digartrefedd 2002, yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wrth ddyrannu tai i roi blaenoriaeth resymol i'r categorïau canlynol o bersonau (a adwaenir fel grwpiau blaenoriaeth resymol):

*(a) people who are homeless (within the meaning of Part 7);*
*(b) people who are owed a duty by any local housing authority under section 190(2), 193(2) or 195(2) (or under section 65(2) or 68(2) of the Housing Act 1985) or who are occupying accommodation secured by any such authority under section 192(3);*
*(c) people occupying insanitary or overcrowded housing or otherwise living in unsatisfactory housing conditions;*
*(d) people who need to move on medical or welfare grounds; and*
*(e) people who need to move to a particular locality in the district of the authority, where failure to meet that need would cause hardship (to themselves or to others).*

[10] Gweithdrefnau Cyfeirio Ymgeiswyr Digartref ar Sail Cysylltiad Lleol ag Awdurdod Lleol Arall, para 1.4, t.229, Cod Arweiniad Digartrefedd i Awdurdodau Lleol (DCLG) 2006.

*The scheme may also be framed so as to give additional preference to particular descriptions of people within this subsection (being descriptions of people with urgent housing needs).*
(Section 16(3) Homelessness Act 2002)

2.89 Gall awdurdodau lleol ystyried ffactorau eraill wrth bennu blaenoriaethau rhwng grwpiau blaenoriaeth resymol fel adnoddau ariannol y person,unrhyw ymddygiad sy'n effeithio ar addasrwydd yr ymgeisydd i fod yn denant, a chysylltiad person ag ardal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau dyrannu sy'n ymgorffori lefel o flaenoriaeth i ymgeiswyr sydd â chysylltiad lleol ac sydd o fewn un o'r grwpiau blaenoriaeth resymol.

2.90 Mae'r mater o fudo rhyngwladol a'i effaith ar ddyrannu tai cymdeithasol wedi bod yn destun craffu gan y cyfryngau yn dilyn cyhoeddi erthygl yn yr Observer gan gyn Weinidog y Llywodraeth Margaret Hodge AS. Yn yr erthygl mae Hodge (2007) yn awgrymu y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth wrth ddyrannu tai cymdeithasol i deuluoedd a anwyd yn y wlad y mae angen am dai arnynt, yn hytrach nag aelwydydd mudol sydd newydd gyrraedd y mae'r un angen am dai arnynt. Derbyniodd y sylw hwn gefnogaeth gref gan rai carfannau, a gwrthwynebiad cryf gan eraill. Ymatebodd y llywodraeth drwy gyflwyno cynlluniau i:

*"……reform social housing allocation - enabling local authorities to give more priority to local people whose names have been on waiting lists for far too long."*

(Y Gwir Anrhydeddus Gordon Brown AS, Datganiad i Dŷ'r Cyffredin ar Adeiladu Dyfodol Prydain. 29ain Mehefin 2009[11])

2.91 Mae Llywodraeth San Steffan wedi cynhyrchu arweiniad statudol drafft yn ddiweddar i awdurdodau lleol yn Lloegr ar ddyrannu tai cymdeithasol, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2009). Bydd yr arweiniad drafft, os caiff ei weithredu'n llawn, yn gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol i:

- weithio gyda chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o sut mae tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu a'u cynnwys yn natblygu cynlluniau dyrannu tai cymdeithasol;
- cynhyrchu gwybodaeth sy'n hawdd ei chyrchu a'i deall am y cynllun dyrannu;
- darparu cyngor i ymgeiswyr am weithdrefnau ar gyfer gwneud dyraniad a sut y caiff ymgeiswyr eu blaenoriaethu o dan y cynllun dyrannu;
- cyhoeddi gwybodaeth am osodiadau.

2.92 Mae'r arweiniad, sy'n ystyried penderfyniad diweddar Tŷ'r Arglwyddi yn *Ahmad*[12], yn atgyfnerthu'r ffaith y gall awdurdodau lleol ddefnyddio

[11] http://www.number10.gov.uk/Tudalen19847

cysylltiad lleol i flaenoriaethu rhwng ymgeiswyr â lefel debyg o angen (gan ddefnyddio cysylltiadau lleol fel blaenoriaeth polisi), ar yr amod bod y cynllun yn parhau i gwrdd â'r gofynion blaenoriaeth resymol yn Adran 167 Rhan VI Deddf Tai 1996.

**Casgliadau**

2.93 Y canlynol yw'r prif gasgliadau y gellir eu cyrraedd o'r canfyddiadau a wnaed wrth adolygu'r llenyddiaeth:

- cafwyd cynnydd sylweddol mewn mudo rhyngwladol i'r DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf, am resymau cysylltiedig â chyflogaeth ac astudio. Roedd cynnydd cyflym yn niferoedd y mewnfudwyr o Wladwriaethau sydd wedi'u Derbyn A8 o 2004 ymlaen ond ymddengys bod hyn yn lleihau;

- mae hawl mudwyr rhyngwladol i dai cymdeithasol wedi'i gyfyngu, ac felly hefyd eu mynediad iddo, ac mae eu heffaith ar y farchnad dai yn tueddu i fod fwyaf yn y sector rhentu preifat;

- cam cylch bywyd aelwydydd yw'r penderfynydd hollbwysig mewn perthynas â mudo rhanbarthol. Mae aelwydydd iau yn tueddu i symud i ardaloedd trefol, ac mae aelwydydd hŷn yn tueddu i symud o ardaloedd trefol a maestrefol i ardaloedd gwledig;

- mae natur newidiol yr economi a daearyddiaeth cyflogaeth, ffactorau amgylcheddol, gwell rhwydweithiau trafnidiaeth, pobl yn ymddeol yn iau a 'phrisiau tai rhatach' mewn ardaloedd gwledig wedi helpu i greu tuedd gwrthdrefoli;

- mae mudwyr rhanbarthol yn fwy tebygol o fod:
  - mewn cyflogaeth;
  - yn symud allan o gyflogaeth (ymddeol);
  - yn uwch i fyny'r hierarchaeth alwedigaethol;

- mae natur newidiol yr economi wedi lleihau cyfleoedd i bobl mewn galwedigaethau di-sgil neu rhannol-fedrus symud o ranbarth i ranbarth;

- er bod tystiolaeth am dueddfryd pobl ddi-waith i symud o ranbarth i ranbarth yn aneglur, mae pobl sy'n ddi-waith am gyfnod hir yn llai tebygol o symud;

- effeithir ar fudo rhanbarthol gan berchnogion preswyl gan y gwahaniaethau rhwng prisiau tai yn ardal y tarddiad a'r cyrchfan. Mae

[12] R (Ahmad) v Cyngor Bwrdeistref Llundain Newham [2009] UKHL 14; [2009] WLR (D) 78

swm y llifoedd mudol o ardaloedd trefol i rai gwledig wedi'i gysylltu'n agos â'r cam yn y cylch economaidd a'r gwahaniaeth mewn prisiau tai rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Mewn cyfnodau o ddirwasgiad mae mudo o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig yn gostwng, fel ag y mae pan fydd prisiau tai ar eu hisaf;

- ymddengys bod byw mewn tai cymdeithasol yn rhwystr i symud;

- mae tenantiaid sector preifat yn llai cyfyngedig yn nhermau symudiadau pellter hir na grwpiau eraill;

- mae mewn-fudo i Gymru wledig wedi helpu i gynnal poblogaeth yr ardal, ond mae'n cuddio colli aelwydydd iau;

- mae aelwydydd oedolion hŷn yn symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol yn fwy tebygol o fod yn symud o ardaloedd tarddiad maestrefol cymharol gyfoethog i leoliadau mwy gwledig. Maent yn debygol o fod yn symud o dai drutach i rai rhatach ac nid yw'n debygol y byddant yn cyrchu'r sector tai cymdeithasol;

- mae aelwydydd sydd wedi symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac wedi cyrchu tai a rentir yn breifat mewn trefi glan môr, yn debygol o gynrychioli cyfran sylweddol y galw am dai cymdeithasol yn yr ardaloedd awdurdodau lleol dan sylw;

- mae proses 'ryngwladoli' wedi newid cymunedau gwledig ac ystyr 'lle' yn sylweddol. Mae'r cefn gwlad 'byd-eang' yn arena ar gyfer gwrthdaro dros y defnydd o le gwledig. Mae tai gwledig yn un maes lle mae'r 'lleol' yn gwrthdaro â'r 'byd-eang';

- ystyrir mai'r cyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy yng Nghymru wledig sydd wrth wraidd y gwrthdaro rhwng y 'lleol' a'r 'byd-eang';

- mae mewn-fudo i Gymru wledig â goblygiadau ieithyddol a diwylliannol cysylltiedig;

- ystyrir bod namau difrifol yn y polisïau sy'n blaenoriaethu 'pobl leol' wrth ddyrannu tai cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig, a hynny'n gysyniadol ac yn eu gweithredu.

## 3 Cyd-destun: y 'chwe sir'

### Cyflwyniad

3.1 Bydd adran hon yr adroddiad yn darparu cyd-destun i'r ymchwil drwy ddarparu gwybodaeth gefndir am 'chwe sir' Ynys Môn; Ceredigion; Conwy; Sir Ddinbych; Sir y Fflint, a Gwynedd. Bydd hyn ar ffurf nifer o adrannau.

3.2 Bydd yr adran gyntaf yn darparu gwybodaeth gefndir am bob un o'r 'chwe sir', gan ddefnyddio gwybodaeth o Gyfrifiad 2001, data cyflogaeth a gweithgarwch economaidd wedi'i gymryd o ffynonellau swyddogol, a data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008 (WIMD 2008).

3.3 Bydd yr ail adran yn darparu gwybodaeth am fudo i'r 'chwe sir'. Bydd yn archwilio data llywodraeth ganolog ar fudo rhyngwladol ac yn ystyried amgylchiadau tai mudwyr rhyngwladol. Bydd hefyd yn ystyried llifoedd mudol rhanbarthol, gan ddefnyddio data o'r Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion (PRDS).

3.4 Bydd y drydedd adran yn archwilio data ar y camau a gymerwyd gan y 'chwe sir' yn ystod y tair blynedd perthnasol i'r astudiaeth, yn nhermau digartrefedd a dyrannu tai.

### Gwybodaeth gefndir

3.5 Mae'r adran hon yn darparu disgrifiad cryno o bob un o'r 'chwe sir' yn nhermau:

- lleoliad a nodweddion daearyddol;
- poblogaeth;
- amddifadedd cymharol;
- stoc tai;
- blaenoriaeth a roddir i aelwydydd â chysylltiad lleol yng nghynllun dyrannu'r sir.

3.6 Mae ystadegau allweddol ar boblogaeth y 'chwe sir' wedi'u cynnwys yn Atodiad 2. Yn y paragraffau isod, lle y bo'n bosib, gwneir cymariaethau rhwng awdurdodau lleol unigol a'r cyfartaledd Cymru gyfan. Mewn achosion eraill, lle nad yw'r ffigur Cymru gyfan ar gael, gwneir cymhariaeth â'r awdurdodau lleol eraill yn ardal y 'chwe sir'.

### Ynys Môn

3.7 Lleolir Ynys Môn oddi ar arfordir gogledd orllewin Cymru, wedi'i gwahanu rhag y tir mawr gan Afon Menai. Mae Ynys Môn yn cynnwys pedair prif

dref - tref hanesyddol Biwmares ar arfordir de ddwyrain yr ynys, tref Caergybi ar Ynys Caergybi oddi ar arfordir gogledd orllewin yr ynys (sef un o brif borthladdoedd fferi y DU ar gyfer teithio ar draws Fôr yr Iwerydd), tref sirol Llangefni yng nghanol Ynys Môn, a thref Amlwch ar gornel ogledd ddwyreiniol yr ynys.

3.8 Ar adeg Cyfrifiad 2001, roedd gan Ynys Môn boblogaeth o 66,829, yn byw mewn 28,356 o aelwydydd. Amcangyfrifwyd bod y boblogaeth wedi tyfu i 69,000 erbyn canol 2007.

3.9 Roedd 57.6% o boblogaeth y sir o oed gweithio yn 2007, yr ail isaf yn ardal y 'chwe sir', sy'n awgrymu bod gan yr ardal gyfran uchel o bobl sydd wedi ymddeol yn y boblogaeth.

3.10 Mae'r ardal yn wledig yn bennaf, gyda chyfran uwch o gyflogeion yn gweithio yn y sectorau twristiaeth ac amaethyddiaeth na'r ffigur Cymru gyfan. Fodd bynnag, mae gan y sir gyfran uwch hefyd o gyflogeion yn gweithio yn y sector gweithgynhyrchu na ffigur Cymru gyfan.

3.11 Yn 2008 roedd cyflog net cyfartalog canolrif yr holl weithwyr llawn amser oedd yn byw yn y sir ychydig yn uwch na chyfartaledd canolrif Cymru. Roedd Ynys Môn yn cynnwys 44 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAs), yr oedd 2 ohonynt (Llangefni a Chaergybi) ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

3.12 Ar adeg Cyfrifiad 2001 roedd gan y sir ychydig yn llai o aelwydydd yn byw mewn tai perchnogion preswyl, a sector rhentu preifat ychydig yn fwy, o'i gymharu â ffigur Cymru gyfan.

3.13 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn stoc o 3,800 o anheddau, ac mae ganddo fynediad i gyfran o osodiadau a wneir i anheddau'r cymdeithasau tai yn y sir. Mae'r cyngor yn gweithredu rhestr aros ar y cyd gyda Chymdeithas Tai Eryri (y mae ganddynt 410 o eiddo yn y sir) Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (100 o eiddo), a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru (36 eiddo). Mae Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin hefyd yn berchen ar nifer cyfyngedig o gartrefi yn y sir.

3.14 Mae cynllun dyrannu'r cyngor yn gynllun pwyntiau seiliedig ar angen sy'n darparu pwyntiau cysylltiad lleol. Mae ymgeiswyr sy'n byw yn y sir yn derbyn 3 phwynt ar gyfer pobl blwyddyn o breswylio (hyd at fwyafswm o 30 pwynt). Mae ymgeiswyr nad ydynt yn byw yn y sir, ond mae ganddynt deulu agos sydd wedi byw yn y sir ers 5 mlynedd, yn derbyn 10 pwynt. Mae ymgeiswyr sydd wedi byw yn y sir am 6 o'r 12 mis diwethaf yn derbyn 1 pwynt. Yn ogystal, gall ymgeiswyr sy'n byw neu'n gweithio yn y plwyf y maent yn dymuno cael eu hailgartrefu ynddo dderbyn 10 pwynt ychwanegol (2 bwynt ar gyfer pob blwyddyn o breswylio neu

gyflogaeth).Ystyrir bod gan ymgeisydd â mwy na 100 o bwyntiau lefel uchel o flaenoriaeth.

**Ceredigion**

3.15 Lleolir Ceredigion yng Ngorllewin Cymru ar fae Ceredigion, wedi'i ffinio gan Bowys i'r dwyrain, Sir Benfro a Sir Gâr i'r de, a Gwynedd i'r gogledd. Y prif drefi yn y sir yw trefi Prifysgol Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan, trefi arfordirol Aberaeron ac Aberteifi, a thref fewndirol Llandysul.

3.16 Ar adeg Cyfrifiad 2001, roedd gan y sir boblogaeth o 74,941 yn byw mewn 30,972 o aelwydydd. Amcangyfrifwyd bod y boblogaeth wedi cynyddu i oddeutu 77,800 erbyn 2007.

3.17 Mae gan boblogaeth oed gweithio'r sir gyfradd isel o weithgarwch economaidd o'i gymharu â ffigur Cymru gyfan, ac mae cyfran sylweddol is o'r boblogaeth oed gweithio yn derbyn budd-daliadau allan o waith allweddol na'r siroedd eraill yn ardal y 'chwe sir'.

3.18 Mae'r ardal yn wledig yn bennaf, ac adlewyrchir hyn yn y patrymau cyflogaeth yn y sir. Mae 8.6% o'r boblogaeth oed gweithio yn byw yn y sector amaethyddol (y gyfran uchaf ar draws ardal y 'chwe sir'), mae 13.4% yn gweithio yn y sector twristiaeth, a dim ond 5.5% sy'n gweithio yn y sector gweithgynhyrchu.

3.19 Mae economi cyflogau isel gan y sir. Cyflog net cyfartalog canolrif wythnosol yr holl weithwyr llawn amser oedd yn byw yn y sir yn 2008 oedd £370.10, yr isaf yn ardal y 'chwe sir'. Fodd bynnag, er gwaethaf yr economi cyflogau isel nid oedd unrhyw rai o'r 47 LSOAs yng Ngheredigion ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

3.20 Mae gan y sir gyfran sylweddol is o aelwydydd yn byw yn y sector rhentu cymdeithasol o'i gymharu â ffigur Cymru gyfan (y chweched isaf ar y cyd yn ardal y 'chwe sir'), a'r gyfran uchaf o aelwydydd yn byw yn y sector rhentu preifat yn ardal y 'chwe sir'.

3.21 Mae gan Gyngor Sir Ceredigion stoc o 2,260 o anheddau[13], ac mae ganddo fynediad i gyfran o osodiadau a wneir i'r 1,400 o anheddau cymdeithasau tai yn y sir. Y prif bartner cymdeithas tai yw Cymdeithas Tai Cantref, gyda chymdeithasau Tai Canolbarth Cymru a Chymru a'r Gorllewin yn berchen ar nifer cyfyngedig o gartrefi yn y sir.

3.22 Yn 2004 sefydlodd y cyngor Gofrestr Tai Gyffredin mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Cantref. Mae hon yn ei hanfod yn rhestr aros a rennir, sy'n golygu nad yw Tai Cantref yn cynnal rhestr aros bellach, gan dynnu ei

[13] Ym mis Tachwedd 2008, pleidleisiodd tenantiaid Cyngor Sir Ceredigion o blaid trosglwyddo eu cartrefi i'r cymdeithas tai newydd ei sefydlu Tai Ceredigion. Disgwylir bydd y trosglwyddo yn digwydd yn ystod hydref 2009.

holl denantiaid o'r Gofrestr Tai Cyffredin. Mae cynllun dyrannu'r cyngor yn gynllun pwyntiau seiliedig ar angen sy'n darparu pwyntiau cysylltiad lleol yn unig i ymgeiswyr y mae angen tai arnynt. Mae ymgeiswyr sydd wedi byw yn y sir am dair blynedd ar adeg eu cais yn derbyn 20 pwynt, a 10 pwynt ychwanegol os ydynt am gael eu hailgartrefu yn y gymuned y maent yn byw ynddi ar hyn o bryd. Mae ymgeiswyr sydd wedi'u cyflogi o fewn Ceredigion am gyfnod o 12 mis yn derbyn 15 pwynt. Mae ymgeiswyr â chysylltiadau teuluol yng Ngheredigion yn derbyn 5 pwynt. Ystyrir bod ymgeisydd sydd â mwy na 90 pwynt â lefel uchel o flaenoriaeth.

**Conwy**

3.23 Lleolir Conwy ar arfordir Gogledd Cymru ac mae'r ymgorffori dyffryn Afon Conwy. Ffin y sir i'r gorllewin ac i'r de yw Gwynedd, ac i'r dwyrain mae sir Ddinbych. Y prif drefi yn y sir yw cyrchfannau arfordirol Llandudno, Conwy, Bae Colwyn ac Abergele, a threfi mewndirol Llanrwst a Betws y Coed. Mae'r ardal yn wledig yn bennaf, ond mae'n cynnwys datblygiad trefol sylweddol ar hyd y llinyn arfordirol, i'r gogledd o'r A55. Mae oddeutu 80% o'r boblogaeth yn byw yn y prif drefi ar hyd y llinyn arfordirol gogleddol, a 4% yn unig sy'n byw o fewn Parc Cenedlaethol Eryri sy'n cwmpasu 35% o arwynebedd y sir.

3.24 Ar adeg y Cyfrifiad yn 2001, roedd gan y sir boblogaeth o 109,596 yn byw mewn 48,062 o aelwydydd. Erbyn 2007, amcangyfrifwyd bod poblogaeth yr ardal wedi cynyddu i oddeutu 111,700.

3.25 Mae cyfran sylweddol is o boblogaeth y sir o oed gweithio (55.5%) na ffigur Cymru gyfan (60.3%), a dyma'r gyfradd isaf yn ardal y 'chwe sir'. Mae gan y sir gyfradd ychydig yn uwch o weithgarwch economaidd yn ei phoblogaeth oed gweithio (77.5%) na'r gyfradd genedlaethol. Mae 14.4% o'r boblogaeth oed gweithio yn derbyn budd-daliadau allan o waith allweddol, yr ail gyfradd uchaf yn ardal y 'chwe sir'.

3.26 Yn nhermau cyflogaeth mae 17.2% o'r cyflogeion sy'n byw yng Nghonwy yn gweithio yn y sector twristiaeth, 4.2% yn y sector gweithgynhyrchu a 3.1% yn y sector amaethyddol.

3.27 Yn 2008 cyflog net cyfartalog canolrif wythnosol yr holl weithwyr llawn amser oedd yn byw yn y sir oedd £437.40, oedd yn fwy na £10 yn uwch na chyfartaledd canolrif Cymru. Er gwaethaf ei heconomi cyflog uchel, o 71 LSOAs y sir, mae pedair (yn Abergele, Bae Colwyn a Llandudno) ymysg y 10% LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru (yr ail gyfradd fwyaf o amddifadedd lluosog yn ardal y 'chwe sir').

3.28 Ar adeg Cyfrifiad 2001, roedd y gan y sir sector perchnogion preswyl oedd ychydig yn fwy na ffigurau Cymru gyfan, y gyfran tenantiaid tai

cymdeithasol oedd yr isaf ar y cyd yn y 'chwe sir', a'r gyfran o denantiaid rhentu preifat oedd yr ail uchaf yn ardal y 'chwe sir'.

3.29 Trosglwyddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ei stoc tai i Cartrefi Conwy ym mis Medi 2008. Mae Cartrefi Conwy yn berchen ar 3,792 o gartrefi. Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill yn yr ardal yw cymdeithas Tai Gogledd Cymru (sy'n berchen ar 1,277 o gartrefi), Cymdeithas Tai Clwyd (274 o gartrefi), Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (368 o gartrefi), a Chymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin (228 o gartrefi).

3.30 Mae cynllun dyrannu'r cyngor yn gynllun pwyntiau seiliedig ar angen sy'n cynnwys pwyntiau i ymgeiswyr â chysylltiad lleol. Dyfernir 1 pwynt y flwyddyn am hyd at 10 mlynedd i ymgeiswyr sy'n byw yn ardal y sir ar hyn o bryd. Dyfernir 5 pwynt ychwanegol i'r rheiny â dros 10 mlynedd o gyfnod preswylio, gan wneud cyfanswm o 15 pwynt. Yn ogystal, dyfernir uchafswm o 5 pwynt cymuned leol i'r rheiny sy'n byw neu sy'n gyflogedig yn y gymuned o'u dewis cyntaf (eto 1 pwynt y flwyddyn). Ystyrir bod gan ymgeisydd â mwy nag 80 o bwyntiau lefel uchel o flaenoriaeth. Mae Cartrefi Conwy yn gweithredu cynllun dyrannu tebyg iawn.

**Sir Ddinbych**

3.31 Lleolir Sir Ddinbych ar arfordir Gogledd Cymru ac mae'n ffinio Conwy a Gwynedd i'r gorllewin, Sir y Fflint a Wrecsam i'r dwyrain a Phowys i'r de. Prif drefi'r sir yw trefi arfordirol y Rhyl a Phrestatyn, a threfi mewndirol Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Llangollen, Corwen a Rhuddlan. Mae'r ardal yn wledig yn bennaf, ond gyda datblygiad trefol sylweddol ar hyd llinyn yr arfordir, i'r gogledd o'r A55.

3.32 Ar adeg Cyfrifiad 2001, roedd gan y sir boblogaeth o 93,065 yn byw mewn 39,892 o aelwydydd. Amcangyfrifwyd bod poblogaeth y sir wedi tyfu i oddeutu 97,800 erbyn 2007.

3.33 Dim ond 57.7% o'r boblogaeth sydd o oed gweithio, gan awgrymu, yn yr un modd â Chonwy ac Ynys Môn, fod gan yr ardal gyfran uchel o aelwydydd hŷn sydd wedi ymddeol. Mae 14.9% o'r boblogaeth oed gweithio yn derbyn budd-daliadau allan o waith allweddol, y gyfradd uchaf ar draws ardal y 'chwe sir', ond yn dal i fod yn is na ffigur Cymru gyfan sef 15.6%.

3.34 Mae 84% o'r cyflogeion sy'n byw yn y sir wedi'u cyflogi o fewn y sector gwasanaeth, sy'n cynnwys 10.5% sydd wedi'u cyflogi yn y diwydiant twristiaeth. Mae 10.1% o'r boblogaeth wedi'u cyflogi yn y sector gweithgynhyrchu, a dim ond 3.6% sydd wedi'u cyflogi mewn amaethyddiaeth.

3.35 Yn 2008 cyflog net cyfartalog canolrif wythnosol yr holl weithwyr llawn amser oedd yn byw yn Sir Ddinbych oedd £392.00, sy'n sylweddol is na chyfartaledd canolrif Cymru. Mae gan Sir Ddinbych y gyfradd uchaf o amddifadedd lluosog yn ardal y 'chwe sir'. O'r 58 o LSOAs yn y sir, mae 6 (10%) yn y 10% LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae pob un o'r 6 wedi'u lleoli yn y Rhyl. Mae 3 o'r rhain ymysg y 5 LSOA mwyaf lluosog difreintiedig yng Nghymru.

3.36 Ar adeg Cyfrifiad 2001, roedd gan y sir sector perchnogion preswyl cymaradwy o ran maint â ffigur Cymru gyfan, cyfran is o denantiaid tai cymdeithasol, a chyfran uwch o denantiaid rhentu preifat.

3.37 Cyngor Sir Dinbych yw'r landlord cymdeithasol mwyaf yn y sir, ac yn berchen ar 3,470 o gartrefi. Y prif landlordiaid cymdeithasol sy'n berchen ar dai yn y Sir yw Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (961 o gartrefi) a Chymdeithas Tai Clwyd (702 o gartrefi). Mae Cymdeithasau Tai Cymru a'r Gorllewin, Gogledd Cymru a First Choice a Tai Hafan hefyd yn berchen ar gartrefi yn y sir.

3.38 Mae cynllun dyrannu'r cyngor yn gynllun pwyntiau seiliedig ar angen sydd hefyd yn darparu pwyntiau cysylltiad lleol. Mae ymgeiswyr sydd wedi byw neu weithio yn y sir yn derbyn 1 pwynt ar gyfer pob blwyddyn eu preswyliaeth neu gyflogaeth (hyd at uchafswm o 15 pwynt). Yn ogystal, gall ymgeiswyr dderbyn 1 pwynt at gyfer pob blwyddyn o'u preswyliaeth neu gyflogaeth yn y gymuned y maent yn dymuno cael eu hailgartrefu ynddi (hyd at uchafswm o 5 pwynt). Ystyrir bod ymgeisydd â mwy na 30 o bwyntiau â lefel uchel o flaenoriaeth.

**Sir y Fflint**

3.39 Lleolir Sir y Fflint yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, ar hyd aber Dyfrdwy. Mae'r sir wedi'i ffinio i'r gorllewin gan Sir Ddinbych, i'r de gan Wrecsam a'r i'r dwyrain gan Gaer a'r Wirral. Prif drefi'r sir yw Yr Wyddgrug, Fflint, Treffynnon, Cei Connah ac Y Fferi Isaf.

3.40 Ar adeg Cyfrifiad 2001, roedd gan y wlad boblogaeth o 148,594 yn byw mewn 60,539 o aelwydydd, yr amcangyfrifwyd ei bod wedi tyfu i oddeutu 150,500 erbyn 2007.

3.41 Roedd 61.3% o boblogaeth y sir o oed gweithio, a chyfradd gweithgarwch economaidd pobl o oed cyflogaeth oedd 82%, y gyfradd uchaf o weithgarwch economaidd yn ardal y 'chwe sir', ac yn sylweddol uwch na chyfradd Cymru gyfan. O'r boblogaeth oed gweithio, dim ond 11.1% oedd yn derbyn budd-daliadau allan o waith allweddol.

3.42 Yn nhermau cyflogaeth, mae'r ardal yn dangos dibyniaeth uwch ar weithgynhyrchu na'r ardaloedd eraill o fewn y 'chwe sir' (gyda 33.9% o

gyflogeion yn cael eu cyflogi yn y sector gweithgynhyrchu), llai o ddibyniaeth ar y sector twristiaeth (gyda 6.6% yn unig wedi'u cyflogi yn y sector hwn), a'r gyfradd isaf o gyflogaeth yn y sector amaethyddol (1.5%).

3.43 Yn 2008 cyflog net cyfartalog canolrif wythnosol gweithwyr llawn amser oedd £440.90, y gyfradd uchaf yn y 'chwe sir', ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd canolrif Cymru. O'r 92 LSOA yn Sir y Fflint roedd 5 yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r rhain wedi'u lleoli yn Nhreffynnon, Shotton, Cei Connah a'r Wyddgrug.

3.44 Ar adeg Cyfrifiad 2001, roedd gan yr ardal y gyfran fwyaf o aelwydydd yn byw mewn tai perchnogion preswyl (75.8%) a'r gyfran leiaf o aelwydydd yn byw yn y sector rhentu preifat (6.5%) yn ardal y 'chwe sir'.

3.45 Cyngor Sir y Fflint yw'r landlord cymdeithasol mwyaf yn y sir, ac yn berchen ar 7,000 o gartrefi. Mae landlordiaid cymdeithasol eraill sy'n berchen ar dai yn y sir yn cynnwys Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (sy'n berchen ar 1,537 o gartrefi), Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin (714 o gartrefi), a Chymdeithas Tai Clwyd (85 o gartrefi).

3.46 Cyflwynwyd cynllun dyrannu presennol y cyngor ym mis Mai 2008, ac mae'n gynllun pwyntiau seiliedig ar angen sy'n cynnwys pwyntiau ar gyfer cysylltiad lleol. Dyfernir pwyntiau ar gyfer preswylio yn y Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd, 1 pwynt y flwyddyn hyd at uchafswm o 10 pwynt. Dyfernir pwyntiau hefyd am breswyliaeth blaenorol o dros 10 mlynedd, gydag 1 pwynt ar gyfer 5 mlynedd o breswylio blaenorol, a phwynt ar gyfer pob blwyddyn ar ben hynny, hyd at uchafswm o 10 pwynt. Ystyrir bod gan ymgeisydd â 90 pwynt lefel uchel o flaenoriaeth.

**Gwynedd**

3.47 Lleolir Gwynedd yng Ngogledd Orllewin Cymru o gwmpas Bae Ceredigion a Bae Caernarfon, wedi'i ffinio i'r de gan Geredigion, i'r gogledd gan Gonwy ac i'r dwyrain gan Sir Ddinbych a Phowys. Y prif setliadau yw dinas prifysgol Bangor, trefi arfordirol Caernarfon, Pwllheli, a Phorthmadog, a threfi mewndirol Dolgellau a Blaenau Ffestiniog.

3.48 Ar adeg Cyfrifiad 2001, roedd gan y sir boblogaeth o 116,843 yn byw mewn 49,237 o aelwydydd. Amcangyfrifwyd bod hyn wedi tyfu i oddeutu 118,400 erbyn 2007.

3.49 Mae'r ardal yn wledig yn bennaf, ac adlewyrchir hyn ym mhatrwm cyflogaeth y sir. Mae 4.7% o'r boblogaeth oed gweithio yn gweithio yn y sector amaethyddol, mae 14.1% yn gweithio yn y sector twristiaeth, a dim ond 8.3% sy'n gweithio yn y sector gweithgynhyrchu.

3.50 Yn 2008 cyflog net cyfartalog canolrif yr holl weithwyr llawn amser oedd yn byw yng Ngwynedd oedd £389.90, yr ail isaf yn ardal y 'chwe sir', ac yn sylweddol is na chyfartaledd canolrif Cymru. Roedd 3 o'r 75 LSOAs yng Ngwynedd yn y 10% o LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Lleolir y rhain ym Mangor a Chaernarfon.

3.51 Ar adeg Cyfrifiad 2001, roedd gan y sir y gyfradd isaf o berchnogion preswyl (66.6%) a'r gyfran uchaf o gartrefi yn rhentu gan landlord cymdeithasol (18.3%) yn ardal y 'chwe sir'. Yn ogystal, roedd gan yr ardal sector rhentu preifat sylweddol.

3.52 Mae gan Gyngor Sir Gwynedd stoc o 6,375 o anheddau[14], a mynediad i gyfran o osodiadau a wneir i'r 2,061 o anheddau tai cymdeithasol yn y sir. Y prif bartneriaid cymdeithasau tai yw Cymdeithas Tai Eryri a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru, gyda Chymdeithas Tai Clwyd a Chymru a'r Gorllewin yn berchen ar lai o gartrefi yn y Sir.

3.53 Ym mis Mai 2007 lansiodd y cyngor fersiwn ddiwygiedig o'i gynllun dyrannu. Roedd y cynllun newydd, sy'n gynllun pwyntiau seiliedig ar angen, yn dileu'r gofyniad i orfod byw yn y sir am ddwy flynedd er mwyn cael eich gosod ar y rhestr aros, ac yn lleihau nifer y pwyntiau a ddyfarnwyd i aelwydydd â chysylltiad lleol. Mae ymgeiswyr y dyfarnwyd iddynt bwyntiau blaenoriaeth resymol bellach yn derbyn 1 pwynt ar gyfer pob blwyddyn o breswyliaeth yn y sir, hyd at uchafswm o 20 pwynt, ac 1 pwynt ar gyfer pob blwyddyn o breswyliaeth yn ardal y cyngor sir y maent yn dymuno cael tŷ ynddi, hyd at uchafswm o 5 pwynt. Gall ymgeiswyr nad ydynt wedi derbyn pwyntiau blaenoriaeth resymol hefyd dderbyn yr un lefel o bwyntiau am gysylltiad lleol, ac, yn ymarferol, dyfernir i bob ymgeisydd o'r fath bwyntiau felly. Ystyrir bod gan ymgeisydd sydd â dros 50 o bwyntiau lefel uchel o flaenoriaeth.

## Mudo rhyngwladol

3.54 Mae effaith mewnfudo rhyngwladol yn y 'chwe sir' wedi bod yn gyfyngedig. Mae Tabl 2 yn dangos llifoedd mudol rhyngwladol i mewn i bob awdurdod lleol ac allan ohonynt dros y cyfnod 2003-04 hyd 2006-07. Dros y cyfnod hwn cynyddodd boblogaeth y 'chwe sir' o amcangyfrifiad o 1,200 o bobl o ganlyniad i fudo rhyngwladol. Dim ond Ceredigion ddangosodd nifer positif yn gyson o fudwyr rhyngwladol yn symud i mewn i'r ardal. I'r gwrthwyneb, ni ddangosodd Ynys Môn unrhyw dwf yn ystod tair o'r pedair blynedd, a cholled net yn 2004-05.

[14] Ym mis Mawrth 2009 pleidleisiodd tenantiaid Cyngor Gwynedd o blaid trosglwyddo'u cartrefi i'r gymdeithas tai newydd ei sefydlu, Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Disgwylir y bydd trosglwyddo'r stoc tai yn digwydd yn ystod gwanwyn 2010.

***Tabl 2. Cyfradd mudo rhyngwladol net 2003-04 hyd 2006-07 yn y 'chwe sir'***
*Ffynhonnell amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn y Cofrestrydd Cyffredinol*

| **Awdurdod Lleol** | **Cynnydd/gostyngiad net poblogaeth o ganlyniad i fudo rhyngwladol** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2003/04** | | **2004/05** | | **2005/06** | | **2006/07** | |
| | **Mewn** | **Allan** | **Mewn** | **Allan** | **Mewn** | **Allan** | **Mewn** | **Allan** |
| Ynys Môn | 100 | 100 | 100 | 200 | 100 | 100 | 200 | 200 |
| Gwynedd | 300 | 300 | 300 | 300 | 400 | 200 | 600 | 400 |
| Conwy | 200 | 300 | 200 | 400 | 200 | 200 | 400 | 300 |
| Sir Ddinbych | 200 | 200 | 200 | 300 | 200 | 200 | 400 | 200 |
| Sir y Fflint | 200 | 300 | 200 | 300 | 300 | 200 | 400 | 300 |
| Ceredigion | 400 | 200 | 400 | 300 | 500 | 200 | 800 | 400 |
| **Cyfanswm** | **1400** | **1400** | **1400** | **1800** | **1700** | **1100** | **2800** | **1800** |

3.55 Mae Tabl 3 yn dangos nifer y Rhifau YG a ddosbarthwyd i weithwyr o dramor sy'n preswylio ym mhob un o'r 'chwe sir', dros y cyfnod 2002-03 hyd 2007-08. Mae hyn yn dangos bod nifer y Rhifau YG a ddyrannwyd i weithwyr tramor wedi dechrau tyfu cyn i'r gwladwriaethau A8 gael eu derbyn i'r UE ym mis Mai 2004. Ers hynny cafwyd twf amlwg, gan gyrraedd uchafbwynt o 3,280 o weithwyr tramor wedi'u cofrestru yn 2005-06. Mae Gwynedd a Sir y Fflint yn dangos y nifer uchaf o weithwyr tramor, ac Ynys Môn y nifer isaf.

***Tabl 3. Rhifau YG a ddyrannwyd i weithwyr tramor rhwng 2002-03 hyd 2007-08 yn y 'chwe sir'*** *Ffynhonnell yr Adran Gwaith a Phensiynau*

| **Awdurdod Lleol** | **Rhifau YG a ddyrannwyd i weithwyr tramor** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2002/03** | **2003/04** | **2004/05** | **2005/06** | **2006/07** | **2007/08** |
| Ynys Môn | | 100 | 150 | 230 | 170 | 160 |
| Gwynedd | 220 | 300 | 490 | 740 | 620 | 700 |
| Conwy | 140 | 230 | 360 | 560 | 480 | 400 |
| Sir Ddinbych | 140 | 230 | 270 | 520 | 440 | 250 |
| Sir y Fflint | 140 | 140 | 270 | 740 | 730 | 650 |
| Ceredigion | 160 | 250 | 350 | 490 | 410 | 550 |
| **Cyfanswm** | **800** | **1250** | **1890** | **3280** | **2850** | **2710** |

3.56 Mae Tabl 4 yn dangos yr ardaloedd o'r byd yr oedd gweithwyr yn cofrestru am Rifau YG yn tarddu ohonynt yn ystod y blynyddoedd ariannol 2005-06 hyd 2007-08. Dros y cyfnod o dair blynedd, cofrestrodd gyfanswm o 8,800 o weithwyr tramor am rifau YG. Roedd ychydig o dan 75% yn tarddu o dir mawr Ewrop, gyda 61% o wladwriaethau A2 a A8. Yr ardal fwyaf nesaf o ran tarddiad oedd Asia a'r Dwyrain Canol, o lle yr oedd 17% o weithwyr tramor yn tarddu. Roedd ychydig o dan 50% o gyfanswm y cofrestriadau yn ardal y 'chwe sir' yn Sir y Fflint a Gwynedd.

*Tabl 4. Ardal Tarddiad y Byd gweithwyr tramor (miloedd) yn gwneud cais am Rifau YG yn y 'chwe sir' rhwng 2005-06 hyd 2007-08* Ffynhonnell Adran Gwaith a Phensiynau

| Awdurdod Lleol | Ardal Tarddiad y Byd | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Undeb Ewropeaidd | Gwladwriaethau wedi'u Derbyn i'r UE | Ewropeaidd Arall | Affrica | Asia a'r Dwyrain Canol | Yr Americas | Awstralasia ac Ynysoedd y De | Anhysbys |
| Ynys Môn | 70 | 330 | 30 | 30 | 80 | 20 | 10 | - |
| Gwynedd | 290 | 1030 | 30 | 80 | 520 | 70 | 40 | - |
| Conwy | 170 | 850 | 60 | 50 | 220 | 30 | 40 | - |
| Sir Ddinbych | 70 | 720 | 50 | 60 | 260 | 50 | 30 | - |
| Sir y Fflint | 110 | 1700 | 50 | 50 | 150 | 30 | 30 | - |
| Ceredigion | 20 | 780 | 40 | 70 | 30 | 60 | 20 | - |
| **Cyfanswm** | **730** | **5410** | **260** | **340** | **1260** | **260** | **170** | **0** |

3.57 MaeTabl 5 yn dangos cyfanswm nifer y cymeradwyaethau Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS) ar gyfer dinasyddion gwledydd A8 sydd wedi'u derbyn yn ystod y cyfnod Mai 2004 hyd at ddiwedd 2008 a gofrestrodd â chyflogwyr wedi'u lleoli ym mhob un o'r 'chwe sir'. Roedd 43% o'r holl gymeradwyaethau cychwynnol WRS ar gyfer gweithwyr yr oedd eu man gwaith yn Sir y Fflint.

*Tabl 5. Cymeradwyaethau Cofrestru Gweithwyr yn y 'chwe sir' yn ystod y cyfnod Mai 2004 hyd Ragfyr 2008* Ffynhonnell LGA http://www.lga.gov.uk/lga/core/page.do?pageId=1095223

| Awdurdod Lleol | Nifer y gweithwyr A8 a gofrestrwyd ym mhob ardal awdurdod lleol |
|---|---|
| Ynys Môn | 180 |
| Gwynedd | 760 |
| Conwy | 690 |
| Sir Ddinbych | 500 |
| Sir y Fflint | 1,935 |
| Ceredigion | 420 |
| **Cyfanswm** | **4,485** |

3.58 Mae Tabl 6 yn dangos cenedligrwydd gweithwyr WRS a gofrestrwyd yn ystod y cyfnod Mai 2004 a Rhagfyr 2008 yr oedd eu man gwaith o fewn ardal y 'chwe sir'. Roedd 73% o weithwyr oedd yn symud i mewn i'r 'chwe sir' o wladwriaethau A8 sydd wedi'u derbyn yn tarddu o Wlad Pwyl. Mae hyn yn cyfateb i'r canfyddiadau o'r IPS yn 2006.


***Tabl 6. Cenedligrwydd Cymeradwyaethau'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn y 'chwe sir' yn ystod y cyfnod Mai 2004 hyd Ragfyr 2008*** *Ffynhonnell LGA* *http://www.lga.gov.uk/lga/core/page.do?pageId=1095223*

| Cenedligrwydd gweithwyr WRS | Nifer y gweithwyr WRS |
|---|---|
| Y Weriniaeth Siec | 125 |
| Estonia | 40 |
| Hwngari | 105 |
| Latfia | 100 |
| Lithwania | 295 |
| Gwlad Pwyl | 3,270 |
| Slofacia | 500 |
| Slofenia | 0 |
| **Cyfanswm** | **4,435** |

3.59 Roedd 55% o gofrestriadau WRS yn ardal y 'chwe sir' yn ymwneud â'r sectorau gwasanaethau lletygarwch ac arlwyo, a gweinyddiaeth, a busnes a rheoli.

3.60 Dangosa Shipley (2008), gan ddefnyddio data o gymwysiadau o geisiadau WRS a Rhifau YG, y cafwyd gostyngiad yn nifer y gweithwyr mudol yn dod i mewn i Gymru ers Gorffennaf 2007. Mae Ffigur 3 yn dangos y gostyngiad yn nifer y cofrestriadau WRS yr ardal y 'chwe sir'.

***Ffigur 3. Cofrestriadau'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn ardal y 'chwe sir' yn ôl chwarter yn ystod y cyfnod Ebrill 2006 hyd Ragfyr 2008***
*Ffynhonnell LGA http://www.lga.gov.uk/lga/core/page.do?pageId=1095223*




3.61 Ychydig yn unig a wyddys am amgylchiadau tai mudwyr rhyngwladol i ardal y 'chwe sir'. Gellid casglu data gan awdurdodau lleol ar genedligrwydd ymgeiswyr ar gyfer tai, ond nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n set ddata y gellid ei defnyddio yn y prosiect ymchwil hwn. Nid oes unrhyw ymchwil wedi'i wneud gan awdurdodau lleol mewn perthynas â mudwyr rhyngwladol yn byw yn y sectorau perchnogion preswyl neu rentu preifat.

3.62 Ymgymerodd Woods a Watkin (2008) ag ymchwil i mewn i'r amgylchiadau, y profiadau a'r amodau a wynebwyd gan weithwyr mudol Canol a Dwyrain Ewrop yng Nghymru wledig. Dadansoddwyd data ganddynt gan WRS ac o arolwg ar ffurf holiadur a ymgymerwyd o blith gweithwyr mudol mewn pedair cymdogaeth. Lleolwyd un o'r cymdogaethau hyn (Conwy) o fewn un o'r 'chwe sir' yn unig ac roedd un yn cynnwys ardal gogledd Sir Gâr / de Ceredigion.

3.63 Ar draws eu sampl cyfan cawsant y canlynol:

- roedd 90% o weithwyr mudol o wledydd A8 sydd wedi'u derbyn yn ennill rhwng £4.50 a £5.99 yr awr;
- roedd 50% o weithwyr mudol yn rhentu gan landlord preifat ac roedd traean yr oedd eu cyflogwyr yn darparu llety iddynt;
- nododd 15% o weithwyr mudol eu bod wedi profi anawsterau gydag ansawdd eu llety, a dywedodd 40% fod eu llety yn waeth na'u llety blaenorol yn eu gwlad enedigol.

3.64 Yn y ddwy gymdogaeth yn eu sampl sydd o fewn cwmpas yr astudiaeth bresennol hon:

- roedd mwyafrif y gweithwyr mudol wedi'u cyflogi yn y sector lletygarwch ac arlwyo;
- roedd gwahaniaeth amlwg mewn trefniadau byw. Yng ngogledd Sir Gâr/Ceredigion roedd 60% o weithwyr mudol yn byw mewn llety a rentir yn breifat, lle yng Nghonwy roedd 80% o weithwyr mudol yn byw mewn llety a ddarparwyd gan eu cyflogwyr.

**Mudo rhanbarthol**

3.65 Wrth ystyried llifoedd mudol rhanbarthol i mewn i'r 'chwe sir' ac allan ohonynt rydym yn dibynnu ar un prif ffynhonnell o ddata swyddogol, y Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion (PRDS) a luniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS). Drwy lawrlwytho bob cofrestr cleifion, a thrwy gyfuno holl grynodebau'r gofrestr cleifion â'i gilydd, gall ONS greu cofrestr gyfan ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan.

3.66 Mae amcangyfrifon mudo yn seiliedig ar gleifion yn symud ac yn newid eu meddyg wrth iddynt newid cyfeiriad. Diffinnir mudwr yn y PRDS fel person sydd, rhwng un flwyddyn a'r nesaf, yn newid eu hardal breswyl. Mae cymharu cofnodion mewn un flwyddyn gyda rheiny'r flwyddyn flaenorol drwy gysylltu rhif GIG yn galluogi adnabod pobl sy'n newid eu cod post. Talgrynnir data i'r 10 agosaf.

3.67 Mae cywirdeb data seiliedig ar y GIG yn dibynnu ar gleifion yn ailgofrestru gyda meddyg newydd pan fyddant yn newid preswylfa, neu'n hysbysu eu meddyg teulu am unrhyw newid yn eu cyfeiriad preswyl. Gwyddys bod patrymau ailgofrestru yn amrywio yn ôl rhyw a grŵp oed, gyda dynion yn llai tebygol o gofrestru na merched, ac oedolion iau yn llai tebygol o gofrestru na phobl canol oed a phobl hŷn.

3.68 Mae Tabl 7 yn dangos, ar gyfer pob un o'r 'chwe sir', y cynnydd neu'r gostyngiad mudol net o'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod Mehefin 2004 hyd at ddiwedd Mehefin 2007. Dros y cyfnod hwn roedd cynnydd mudol net yn ardal y 'chwe sir' o 6,300 o bersonau. Roedd y ddwy sir Sir Ddinbych a Chonwy yn cynrychioli 63% o'r cynnydd mudol hwn.

***Tabl 7. Cynnydd/gostyngiad mudol o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ym mhob un o'r 'chwe sir' rhwng Mehefin 2004 a Mehefin 2007*** *Ffynhonnell PRDS*

| **Awdurdod Lleol** | **Cynnydd / gostyngiad mudol net o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr** | | |
|---|---|---|---|
| | **2005** | **2006** | **2007** |
| Ynys Môn | 500 | 200 | 200 |
| Gwynedd | 200 | 400 | 0 |
| Conwy | 400 | 600 | 800 |
| Sir Ddinbych | 700 | 600 | 900 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sir y Fflint | 100 | -200 | 100 |
| Ceredigion | 400 | 100 | 300 |

3.69 Mae Ffigurau 1 i 12 yn Atodiad 3 yn dangos llifoedd mudol i mewn i bob un o'r 'chwe sir' ac allan ohonynt o ranbarthau yng Nghymru a Lloegr. Mae Tabl 1 yn Atodiad 3 yn dangos y cynnydd neu ostyngiad mudol ym mhob un o'r 'chwe sir' mewn perthynas â phob un o ranbarthau Cymru a Lloegr. Disgrifir y data yn gryno isod.[15]

3.70 **Ynys Môn**

1 Roedd nifer mwyaf y mudwyr rhanbarthol i Ynys Môn yn tarddu o:
- Ogledd Cymru (2360 o bersonau);
- Gogledd Orllewin Lloegr (1650 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (450 o bersonau).

2 Symudodd y nifer mwyaf o fudwyr o Ynys Môn i:
- Ogledd Cymru (2,090 o bersonau);
- Gogledd Orllewin Lloegr (1,330 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (280 o bersonau).

3 Enillodd Ynys Môn 900 o bersonau o ganlyniad i fudo i ranbarthau Cymru a Lloegr ac oddi yno.

4 Profodd Ynys Môn y cynnydd net mwyaf o boblogaeth o'r rhanbarthau canlynol:
- Gogledd Orllewin Lloegr (320 o bersonau);
- Gogledd Cymru (270 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (170 o bersonau).

5 Profodd Ynys Môn y colledion net mwyaf o boblogaeth i'r rhanbarthau canlynol:
- Canolbarth a Gorllewin Cymru (70 o bersonau)
- De Orllewin Lloegr (50 o bersonau)
- Gorllewin De Cymru (30 o bersonau)

3.71 **Ceredigion**

1 Roedd nifer mwyaf y mudwyr rhanbarthol i Geredigion yn tarddu o:
- Ganolbarth a Gorllewin Cymru (2,790 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (2,680 o bersonau);
- De Ddwyrain Lloegr (1,790 o bersonau).

2 Symudodd y nifer mwyaf o fudwyr o Geredigion i:

---

[15] Dylid trin y data a ddefnyddiwyd yn yr adran hon fel dangosol yn unig gan fod y ffigurau yn seiliedig ar ddata crynhoad a dalgrynnwyd yn wreiddiol i'r 10 agosaf gan ONS.

- Ganolbarth a Gorllewin Cymru ( (2820 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (1,980 o bersonau);
- De Ddwyrain Lloegr (1520 o bersonau).

3 Enillodd Ceredigion 800 o bersonau o ganlyniad i fudo i ranbarthau Cymru a Lloegr ac oddi yno.

4 Profodd Ceredigion y cynnydd net mwyaf o boblogaeth o'r rhanbarthau canlynol:
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (700 o bersonau);
- De Ddwyrain Lloegr (270 o bersonau);
- Dwyrain Canolbarth Lloegr (130 o bersonau);
- De Ddwyrain Cymru (130 o bersonau).

5 Profodd Ceredigion y colledion net mwyaf o boblogaeth i'r rhanbarthau canlynol:
- Canol De Cymru (270 o bersonau)
- Gogledd Orllewin Lloegr (120 o bersonau)
- Llundain (70 o bersonau)

3.72 **Conwy**

1 Roedd nifer mwyaf y mudwyr rhanbarthol i Gonwy yn tarddu o:
- Ogledd Cymru (4,360 o bersonau);
- Gogledd Orllewin Lloegr (3,890 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (1,290 o bersonau).

2 Symudodd y nifer mwyaf o fudwyr o Gonwy i:
- Ogledd Cymru (4,200 o bersonau);
- Gogledd Orllewin Lloegr (2,850 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (840 o bersonau).

3 Enillodd Ceredigion 800 o bersonau o ganlyniad i fudo i ranbarthau Cymru a Lloegr ac oddi yno.

4 Profodd Conwy y cynnydd net mwyaf o boblogaeth o'r rhanbarthau canlynol:
- Gogledd Orllewin Lloegr (1,040 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (450 o bersonau);
- Llundain (190 o bersonau).

5 Profodd Conwy y colledion net mwyaf o boblogaeth i'r rhanbarthau canlynol:
- De Orllewin Lloegr (120 o bersonau)
- Gogledd Ddwyrain Lloegr (80 o bersonau)
- Canol De Cymru (70 o bersonau)

3.73 **Sir Ddinbych**

1 Roedd nifer mwyaf y mudwyr rhanbarthol i Sir Ddinbych yn tarddu o:
   - Ogledd Cymru (5,140 o bersonau);
   - Gogledd Orllewin Lloegr (3,620 o bersonau);
   - Gorllewin Canolbarth Lloegr (1,190 o bersonau).

2 Symudodd y nifer mwyaf o fudwyr o Sir Ddinbych i:
   - Ogledd Cymru (4,470 o bersonau);
   - Gogledd Orllewin Lloegr (2,640 o bersonau);
   - Gorllewin Canolbarth Lloegr (890 o bersonau).

3 Enillodd Sir Ddinbych 2,200 o bersonau o ganlyniad i fudo i ranbarthau Cymru a Lloegr ac oddi yno.

4 Profodd Sir Ddinbych y cynnydd net mwyaf o boblogaeth o'r rhanbarthau canlynol:
   - Gogledd Orllewin Lloegr (980 o bersonau);
   - Gogledd Cymru (670 o bersonau);
   - Gorllewin Canolbarth Lloegr (200 o bersonau).

5 Profodd Sir Ddinbych y colledion net mwyaf o boblogaeth i'r rhanbarthau canlynol:
   - Gogledd Ddwyrain Lloegr (50 o bersonau)
   - Canol De Cymru (60 persons)
   - Gorllewin De Cymru (40 o bersonau)
   - Dwyrain Canolbarth Lloegr (40 o bersonau)

3.74 **Sir y Fflint**

1 Roedd nifer mwyaf y mudwyr rhanbarthol i Sir y Fflint yn tarddu o:
   - Gogledd Orllewin Lloegr (5,860 o bersonau);
   - Gogledd Cymru (3,220 o bersonau);
   - Gorllewin Canolbarth Lloegr (700 o bersonau).

2 Symudodd y nifer mwyaf o fudwyr o Sir y Fflint i:
   - Ogledd Orllewin Lloegr (4,860 o bersonau);
   - Gogledd Cymru (3,220 o bersonau);
   - Gorllewin Canolbarth Lloegr (680 o bersonau).

3 Arhosodd poblogaeth Sir y Fflint yn ddigyfnewid o ganlyniad i fudo i mewn i'r ardal ac allan ohoni yn ystod y cyfnod.

4 Profodd Sir y Fflint y cynnydd net mwyaf o boblogaeth o'r rhanbarthau canlynol:
   - Gogledd Orllewin Lloegr (1,000 o bersonau);

- Llundain (100 o bersonau);
- De Ddwyrain Lloegr (50 o bersonau).

5 Profodd Sir y Fflint y colledion net mwyaf o boblogaeth i'r rhanbarthau canlynol:
- Gogledd Cymru (720 o bersonau)
- De Orllewin Cymru (150 o bersonau)
- Dwyrain Canolbarth Lloegr (120 o bersonau)

3.75 **Gwynedd**

1 Roedd nifer mwyaf y mudwyr rhanbarthol i Wynedd yn tarddu o:
- Ogledd Cymru (2,750 o bersonau);
- Gogledd Orllewin Lloegr (2,560 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (2,140 o bersonau).

2 Symudodd y nifer mwyaf o fudwyr o Wynedd i:
- Ogledd Cymru (3,360 o bersonau);
- Gogledd Orllewin Lloegr (2,560 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (1,590 o bersonau).

3 Enillodd Gwynedd 600 o bersonau o ganlyniad i fudo i ranbarthau Cymru a Lloegr ac oddi yno.

4 Profodd Gwynedd y cynnnydd net mwyaf o boblogaeth o'r rhanbarthau canlynol:
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (550 o bersonau);
- De Ddwyrain Lloegr (250 o bersonau);
- Llundain (240 o bersonau).

5 Profodd Gwynedd y colledion net mwyaf o boblogaeth i'r rhanbarthau canlynol:
- Gogledd Cymru (640 o bersonau)
- Canol De Cymru 160 o bersonau)
- De Orllewin Lloegr (130 o bersonau)

3.76 Mae dadansoddiad o'r data yn dangos er bod y llifoedd mwyaf rhwng ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos, mae gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru berthynas mudol gydag ardaloedd awdurdodau lleol yng Ngogledd Orllewin Lloegr (ardal Glannau Mersi a Manceinion Fwyaf) a Gorllewin Canolbarth Lloegr, lle yr ymddengys bod perthynas Ceredigion gyda De Chymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr, De Ddwyrain Lloegr a De Orllewin Lloegr i raddau uwch.

3.77 Dros y cyfnod Mehefin 2004 hyd at ddiwedd Mehefin 2007, dangosodd ardal y 'chwe sir' gyfanswm o gynnydd a gostyngiad mudol net o'r rhanbarthau canlynol:

- Gogledd Orllewin Lloegr (+3430 o bersonau);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr (+2190 o bersonau);
- De Ddwyrain Lloegr (+1020 o bersonau);
- Llundain (+540 o bersonau);
- Canol De Cymru (-550 o bersonau)
- De Orllewin Lloegr (-410 o bersonau).

3.78 Mae'r data mudo rhanbarthol yn tueddu i gefnogi'r rhagosodiad a gynigiwyd gan Green (1992) bod y 'chwe sir' yn rhan o gefnwlad all-fudo ardaloedd metropolitan Lerpwl, Manceinion, Birmingham a De Ddwyrain Lloegr.

3.79 Mae Tabl 8 yn dangos y cynnydd mudol net yn ôl grŵp oed ym mhob un o'r 'chwe sir' dros y cyfnod 2004 hyd 2007. Mae hyn yn dangos y golled o ran pobl ifanc 15-29 oed, a'r twf sylweddol yn nifer y bobl 45-64 oed. Mae hefyd yn werth nodi bod y cynnydd mudol net mwyaf wedi digwydd yn y ddau awdurdod lleol â'r nifer mwyaf o 'drefi glan môr' - Sir Ddinbych (Prestatyn a'r Rhyl) a Chonwy (Bae Colwyn a Llandudno).

***Tabl 8. Cynnydd/gostyngiad mudol net yn y 'chwe sir' yn ôl grŵp oed yn y cyfnod 2004-2007*** *Ffynhonnell PRDS*

| **Awdurdod Lleol** | **Cynnydd mudol net yn ôl grŵp oed 2005-2007** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **0-14** | **15-29** | **30-44** | **45-64** | **65+** | **Cyfanswm** |
| Ynys Môn | 250 | -270 | 260 | 490 | 20 | **750** |
| Gwynedd | 30 | -50 | -10 | 660 | -250 | **380** |
| Conwy | 460 | -760 | 590 | 1,240 | 150 | **1,680** |
| Sir Ddinbych | 400 | -70 | 550 | 1,080 | 310 | **2,270** |
| Sir y Fflint | 160 | -660 | 300 | 0 | -80 | **-280** |
| Ceredigion | 410 | -420 | 130 | 730 | -90 | **760** |
| **Cyfanswm** | **1,710** | **-2,230** | **1,820** | **4,200** | **60** | |

## Yr angen am dai, digartrefedd a gosodiadau

3.80 Ychydig yn unig o ddata sydd ar gael ar anghenion tai yn ardal y 'chwe sir'. Nododd Comisiwn JRF ar Dai Gwledig yng Nghymru (2008) y diffyg blynyddol net o dai fforddiadwy yng Nghymru wledig. Dangosir eu canfyddiadau yn Nhabl 9. Nid oedd Sir y Fflint wedi'i chynnwys yn astudiaeth JRF, felly mae'r tabl wedi'i ymestyn er mwyn ymgorffori data ar Sir y Fflint a gymerwyd o Fordham Research (2005). Fodd bynnag, ni ellir ystyried bod y data yn y tabl yn ddibynadwy oherwydd bod y methodolegau gwahanol a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol i gyfrifo'r

diffyg blynyddol net mewn tai fforddiadwy, ac amseru gwahanol yr astudiaethau yn ei wneud yn anodd gwneud cymariaethau.

***Tabl 9. Diffyg blynyddol net tai fforddiadwy yn y 'chwe sir'***
*Ffynonellau JRF (2008) a Fordham Research Ltd (2005)*

| **Awdurdod Lleol** | **Blwyddyn yr ymgymerwyd yr asesiad** | **Diffyg blynyddol net tai fforddiadwy** |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 2001 | 311 |
| Ceredigion | 2004 | 274 |
| Conwy | 2002 | 209 |
| Sir Ddinbych | 2003 | 645 |
| Sir y Fflint | 2005 | 808 |
| Gwynedd | 2002 | 314 |

3.81 Gall data digartrefedd ddarparu darlun o raddau'r angen am dai mewn cymdogaeth, ac mae gweithgarwch gosodiadau yn dangos gallu awdurdod lleol i gwrdd â'r angen am dai cymdeithasol yn ei ardal drwy osod tai o'i stoc ei hun neu drwy enwebu aelwydydd i bartner cymdeithas tai. Dangosir gweithgarwch digartrefedd a gosodiadau yn y 'chwe sir' yn ystod y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08 yn Ffigurau 1 i 6 a Thablau 1 i 5 yn Atodiad 4, gan ddefnyddio data o ffurflen hunan-gwblhau WHO12 bob awdurdod lleol, sydd ar gael ar wefan Uned Ddata Cymru.

3.82 Yn nhermau digartrefedd, dros y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08 cafwyd:

- gostyngiad bach yn nifer yr ymholiadau digartrefedd yn ardal y 'chwe sir', yn cynnwys cwymp sylweddol mewn ymholiadau yn 2006-07;
- gostyngiad mewn ymholiadau digartrefedd ym mhedair o'r 'chwe sir', gyda Sir y Fflint a Gwynedd yn eithriadau;
- gostyngiad parhaus yn nifer y penderfyniadau digartrefedd a wnaed gan bob un o'r 'chwe sir';
- gostyngiad parhaus yn nifer yr aelwydydd y cafwyd eu bod yn ddigartref ac yn gymwys ar gyfer cymorth yn y 'chwe sir';
- gostyngiad parhaus yn nifer yr aelwydydd y cafwyd eu bod yn ddigartref ac yn gymwys ar gyfer cymorth ym mhump o'r 'chwe sir', gydag Ynys Môn yn eithriad.

3.83 Yn nhermau gosodiadau, dros y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08 cafwyd:

- gostyngiad o 2.8% yng nghyfanswm y gosodiadau sydd ar gael i awdurdodau lleol yn ardal y 'chwe sir';
- gostyngiad o 12.8% mewn gosodiadau tai cyngor yn ardal y 'chwe sir'. Cwympodd gosodiadau tai cyngor ar draws pob un o'r 'chwe sir';
- cynnydd o 61.8% yn nifer y gosodiadau a wnaed gan gymdeithasau tai yn dilyn enwebiadau gan awdurdodau lleol yn ardal y 'chwe sir'. Mae pedwar o'r cynghorau yn dangos cynnydd yn nifer gosodiadau y cymdeithasau tai yn dilyn enwebiad, ond mae dau yn dangos gostyngiad mewn gosodiadau. Er y gallai rhai o'r amrywiadau hyn gael eu hachosi gan newidiadau yn nifer yr ailosodiadau gan gymdeithasau

tai oedd ar gael yn y cyfnod, gallai rhai gael eu priodoli i wallau wrth gofnodi data enwebu.

**Casgliadau**

3.84 Y canlynol yw'r themâu allweddol sy'n ymddangos o adran hon yr adroddiad:

- nid yw'r 'chwe sir' yn ardal unffurf. Mae gwahaniaethau amlwg rhwng pob un o'r awdurdodau lleol yn yr ardal, yn nhermau patrymau cyflogaeth, oed y boblogaeth a phroffiliau daliadaeth tai;

- yn nhermau amddifadedd cymharol, roedd pob un o'r chwe sir yn gwneud yn dda o'u cymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru. Ymddengys bod amddifadedd lluosog fwyaf dwys yn nhrefi arfordirol yr ardal;

- ym mhump o'r 'chwe sir' (Ynys Môn, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd) mae cyfran y bobl sy'n byw mewn llety preifat a rentir yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru;

- er gwaethaf twf sylweddol yn niferoedd y gweithwyr mudol sy'n dod i'r ardal, mae cyfanswm nifer y gweithwyr mudol yn y 'chwe sir' yn fach;

- ymddengys mai Sir y Fflint a Gwynedd yw dau brif gyrchfan gweithwyr mudol rhyngwladol o fewn ardal y 'chwe sir';

- nid yw'n debygol y bydd gweithwyr mudol wedi cyrchu tai cymdeithasol o fewn y 'chwe sir', ond mae eu presenoldeb yn y sector rhentu preifat yn debygol o fod wedi cael effaith ar farchnadoedd tai Sir y Fflint a Gwynedd;

- rhwng Ebrill 2005 a diwedd Mawrth 2008 amcangyfrifir bod ardal y 'chwe sir' wedi cynyddu o 6,300 o bersonau o ganlyniad i fewn-fudo. Mae'r cynnydd mudol net yn cuddio colli oedolion iau a chynnydd yn y boblogaeth o oedolion hŷn;

- ymddengys bod y 'chwe sir' yn rhan o gefnwlad fudol Gogledd Orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lleogr a De Ddwyrain Lloegr;

- mae'r cyfraddau uchel o gynnydd mudol a brofwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn gysylltiedig â chyfnod estynedig o dwf economaidd a chynnydd mewn prisiau tai. Gallai'r dirywiad economaidd ac unrhyw ddirywiad mewn prisiau tai leihau mewnlif y mudwyr i'r 'chwe sir';

- mae natur wledig pump o'r 'chwe sir' a'u lleoliad arfordirol yn debygol o ddenu mudwyr tuag at ddiwedd eu gyrfaoedd gwaith a'r rheiny sydd eisoes wedi ymddeol;

- mae'r cysylltiadau trafnidiaeth ardderchog ar hyd arfordir gogledd Cymru (ffyrdd a rheilffyrdd) yn debygol o ddenu pobl mewn cyflogaeth i awdurdodau Gogledd Cymru, gan y gallant gymudo i leoedd cyflogaeth ar hyd yr arfordir neu yng Ngogledd Orllewin Lloegr. Mae hyn yn debygol o gynnwys niferoedd sylweddol i aelwydydd dau incwm, nad yw'n debygol y byddant yn ceisio cyrchu'r sector tai cymdeithasol;

- mae nifer uchel y trefi glan môr (h.y. Prestatyn, Y Rhyl, Bae Colwyn, Llandudno, Caernarfon, Pwllheli ac Aberystwyth) yn golygu ym mhump o'r 'chwe sir' mae stoc tai mawr o dai rhentu preifat sy'n darparu ffynhonnell hygyrch barod o dai i fewn-fudwyr. Mae tystiolaeth o ardaloedd eraill y DU i awgrymu bod niferoedd uchel o breswylwyr tai'r sector rhentu preifat mewn trefi glan môr yn fudwyr o'r tu allan i'r ardal, a bod niferoedd sylweddol yn berchnogion preswyl neu'n denantiaid tai cymdeithasol yn flaenorol;

- gostyngodd nifer yr ymholiadau digartrefedd a dderbyniwyd gan y 'chwe sir' yn ystod y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08, fel y gwnaeth y nifer o aelwydydd y cafwyd eu bod yn ddigartref ac yn gymwys ar gyfer cymorth;

- mae nifer y gosodiadau tai cymdeithasol yn ardal y 'chwe sir' wedi gostwng dros y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08;

- mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn caniatáu i awdurdodau lleol ystyried ffactorau eraill, yn cynnwys cysylltiad lleol, wrth bennu blaenoriaethau rhwng ymgeiswyr o fewn y grwpiau blaenoriaeth resymol a/neu ychwanegol. Nid yw cynlluniau dyrannu pump o'r 'chwe sir', drwy ddarparu lefel o flaenoriaeth i'r holl ymgeiswyr â chysylltiad lleol, yn hytrach na'r rheiny y maent wedi derbyn blaenoriaeth resymol neu ychwanegol, wedi'u fframio o fewn ysbryd y ddeddfwriaeth sydd yn ei lle ar hyn o bryd.

# 4 Barn rhanddeiliaid lleol allweddol

## Cyflwyniad

4.1 Mae adran hon yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am farn rhanddeiliaid lleol allweddol gafodd gyfweliad yn ystod y cam gwaith maes ym mhob un o'r 'chwe sir'.

4.2 Ym mhob un o'r chwe awdurdod lleol cynhaliwyd cyfweliad â'r swyddogion canlynol (neu'r swyddog cyfatebol):

- Pennaeth Tai;
- Rheolwr Digartrefedd/Dyraniadau;
- Swyddog Gosodiadau;
- Swyddog Digartrefedd.

Cynhaliwyd cyfweliadau â Swyddogion Ymchwil Corfforaethol lle bynnag yr oedd yn bosib.

4.3 Gwnaed ymgais i ymgysylltu ag aelodau etholedig ym mhob un o'r 'chwe sir'. Cyflawnwyd hyn ym mhump o'r 'chwe sir'. Roedd yn ymgysylltu ar ffurf cyflwyniadau i gyrff ffurfiol fel y Pwyllgorau Craffu neu Drosolwg, neu gyflwyniadau i weithgorau anffurfiol o aelodau.

4.4 Gofynnwyd i swyddogion ac aelodau ddarparu eu barn ar gyfres o gwestiynau. Ceir crynodeb o'u hymatebion di-enw isod.

## Barn rhanddeiliaid

### Sut mae'r awdurdod yn diffinio 'lleol' mewn perthynas â digartrefedd a dyraniadau?

4.5 Ym mhob un o'r 'chwe sir', mae swyddogion digartrefedd yn defnyddio'r diffiniad a dderbyniwyd o hyd preswyliaeth i sefydlu cysylltiad lleol, h.y. preswyliad yn yr ardal am 6 mis o leiaf yn ystod y 12 mis blaenorol, neu heb fod yn llai na 3 blynedd yn ystod y cyfnod 5 mlynedd flaenorol. Gellir sefydlu cysylltiad lleol hefyd drwy gyflogaeth, a thrwy gael teulu'n byw yn yr ardal.

4.6 Er mwyn dyrannu tai cymdeithasol, mae pob un o'r 'chwe sir' yn gweithredu cynlluniau gosodiadau seiliedig ar angen sy'n cynnig pwyntiau ychwanegol i ymgeiswyr â chysylltiad lleol. Yr ymagwedd fwyaf cyffredin yw dyfarnu nifer o bwyntiau ar gyfer pob blwyddyn y mae'r ymgeisydd wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol (hyd at uchafswm nifer o bwyntiau). Ym mhedair o'r 'chwe sir' mae'r awdurdod hefyd yn dyrannu pwyntiau ychwanegol (hyd at uchafswm nifer o bwyntiau) ar gyfer nifer y blynyddoedd y mae'r ymgeisydd wedi byw yn y gymuned leol (a ddiffinnir fel yr adran etholaethol neu blwyf) y maent yn dymuno cael eu hailgartrefu ynddi.

4.7 Ym mhump o'r awdurdodau, dyfernir pwyntiau cysylltiad lleol i unrhyw ymgeisydd â chysylltiad lleol. Yn yr awdurdod arall, ychwanegir pwyntiau cysylltiad lleol i gyfanswm pwyntiau ymgeisydd os ydynt wedi derbyn pwyntiau oherwydd eu bod mewn angen am dai. Yn dibynnu ar y pwysoli cymharol a roddir i gysylltiad lleol a phwyntiau angen am dai, gallai hyn olygu, ym mhump o'r 'chwe sir', gallai ymgeiswyr â chysylltiad lleol hirsefydlog ond lefelau isel o angen am dai dderbyn mwy o bwyntiau na mudwyr diweddar â lefel uwch o angen am dai. Mae cyfanswm nifer y pwyntiau cysylltiad lleol y gellir o bosib eu dyfarnu, fel cyfran o nifer y pwyntiau a ddyfernir i ymgeisydd ag anghenion tai blaenoriaeth uchel, yn amrywio rhwng awdurdodau o 11% i 66%.[16]

4.8 Roedd lleiafrif bach o swyddogion mewn un cyngor yn teimlo bod y darpariaethau cysylltiad lleol o fewn y cynllun dyrannu a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol 'ar dir sigledig' yn nhermau ei gydymffurfiad â deddfwriaeth. Mae tri chynllun wedi bod yn destun beirniadaeth yn ddiweddar gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â:

- lefel y flaenoriaeth gymharol a roddir i aelwydydd sy'n ddigartref;
- lefel y pwyntiau a ddyfernir i bobl â chysylltiad lleol, o'u cymharu â phwyntiau a ddyfernir am elfennau o angen am dai.

4.9 Beirniadodd yr Ombwdsmon un cynllun hefyd mewn perthynas â gofyniad i fod yn preswylio yn y gymdogaeth am ddwy flynedd er mwyn ymuno â'r rhestr aros. Aeth yr awdurdod lleol i'r afael â'r pryderon hyn yn ddiweddarach gan ddiwygio ei gynllun dyrannu.

4.10 Gofynnwyd i randdeiliaid a oedd cysylltiad lleol yn gydran ym mholisïau eraill y cyngor. Roedd darpariaethau cysylltiad lleol yn cael eu defnyddio yn unig bron i reoli mynediad i wasanaethau tai:

- ym mhedair o'r 'chwe sir' dywedodd swyddogion bod polisi cysylltiad lleol yn cael ei ddefnyddio i ddyrannu tai fforddiadwy a ddatblygwyd ar safleoedd Adran 106. Roedd tri awdurdod yn ei wneud yn ofyniad bod ymgeiswyr o'r fan wedi byw yn y gymdogaeth am 5 mlynedd, ac un awdurdod am 10 mlynedd;
- yn un o'r 'chwe sir', dywedodd swyddogion bod mynediad i gymorth ariannol gan yr awdurdod lleol i atgyweirio a gwella tai sector preifat yn dibynnu ar fod yr ymgeisydd wedi byw yn y gymodgaeth ers 10 mlynedd.

### A yw'r defnydd o'r diffiniadau hyn yn esgor ar y canlyniadau bwriedig?

[16] Sefydlwyd cyfran cyfanswm y pwyntiau a dderbyniwyd ar gyfer cysylltiad lleol ymgeisydd sydd â blaenoriaeth uchel drwy gyfrifo uchafswm nifer y pwyntiau y gall ymgeisydd eu derbyn am gysylltiad lleol hirsefydlog a sefydlu pa gyfran o gyfanswm y pwyntiau y mae ymgeisydd â blaenoriaeth uchel ym mhob awdurdod yn ei gynrychioli.

4.11 Roedd swyddogion yn y ‘chwe sir’ yn teimlo’n gyfforddus ar y cyfan â chanlyniadau’r diffiniadau a ddefnyddiwyd.

4.12 Roeddent, fodd bynnag, yn teimlo bod problem ddifrifol o ran tybiaeth gyhoeddus. Cyfeiriodd lawer at y tybiaeth fod gosodiadau yn mynd i ‘bobl estron’ yn hytrach na ‘phobl leol’, ac roeddent yn teimlo bod hyn yn cael ei atgyfnerthu gan y diffyg tai cymdeithasol. Dywedasant y gall gosodiadau unigol gael eu craffu’n agos iawn, ac efallai mai dim ond un neu ddau o osodiadau yn cael eu gwneud i bobl ‘nad ydynt yn lleol’ y byddai’n ei gymryd i gryfhau’r dybiaeth fod hyn yn fater llawer ehangach. Nododd rai bod llawer o ystadau yr oeddent yn flaenorol yn llwyr o fewn perchnogaeth y cyngor bellach yn ddaliadaeth gymysg yn bennaf o ganlyniad i Hawl i Brynu, ac roeddent yn teimlo bod hyn yn ychwanegu at y dybiaeth fod mudwyr yn byw mewn tai cymdeithasol, lle mewn gwirionedd roedd llawer o’r eiddo bellach o fewn perchnogaeth breifat, ac roedd rhai yn cael eu gosod yn breifat gan y perchnogion.

4.13 Nododd swyddogion o rai siroedd ganlyniadau nas bwriadwyd polisïau cysylltiad lleol er enghraifft:

- mae rhai pobl ifanc mewn un sir nad ydynt yn gallu derbyn uchafswm y pwyntiau cysylltiad lleol er gwaetha’r ffaith eu bod wedi byw yn yr ardal drwy gydol eu hoes;
- bydd mudwyr digartref diweddar sydd wedi cael eu rhoi mewn llety dros dro ar y cyfan yn aros yno am gyfnod hwy oherwydd eu diffyg pwyntiau cysylltiad lleol. Mae hyn yn ychwanegu at gostau’r awdurdod lleol wrth ddarparu’r llety;
- gall fod yn anodd dod o hyd i enwebeion ar gyfer rhai gosodiadau cymdeithasau tai lle mae’r cynllun gosodiadau yn ei wneud yn ofynnol i’r enwebai ddod o blwyf neu adran etholaethol benodol;[17]
- roedd rhai plant oedd yn mynychu’r ysgol o fewn un sir yn byw yr ochr arall i’r ffin sirol. Os nad oeddent yn cael eu hystyried ar gyfer ailgartrefu o fewn y sir, roedd perygl y byddai hynny’n ymyrryd ar eu haddysg.

4.14 Roedd gan rai aelodau yn y ‘chwe sir’ wahanol farn i’r swyddogion am ganlyniadau’r diffiniadau a ddefnyddiwyd:

- yn un awdurdod dywedodd aelodau nad oedd y cynllun dyrannu yn gweithio. Roeddent yn teimlo bod tystiolaeth o hyn yng nghyfran uchel y mudwyr diweddar oedd yn sicrhau tai yn yr ardal, a’r anhawster y mae pobl sy’n tarddu o’r ardal yn ei gael wrth sicrhau tai fforddiadwy pan maent yn dychwelyd i’r ardal;
- roedd aelodau mewn awdurdod arall o’r farn gref nad yw’r diffiniadau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn cefnogi pobl leol yn ddigonol i allu cael mynediad i dai;

[17] Mae hyn yn arafu’r broses ailosod. Lle nad oes modd dod o hyd i ymgeiswyr yn y plwyf neu’r adran etholaethol o fewn cyfnod penodol o amser, estynnir yr ardal i ardal ehangach ac yn y pen draw i ardal yr awdurdod lleol.

- mewn dwy o'r 'chwe sir' roedd nifer o aelodau yn teimlo bod cymdeithasau tai yn fwy tebygol o ddyrannu tai i bobl o'r tu allan i'r ardal, yn enwedig pobl â 'ffyrdd o fyw anhrefnus';
- dywedodd rhai aelodau fod cymhlethdod system seiliedig ar bwyntiau yn ei wneud yn anodd iddynt egluro i aelodau'r cyhoedd ganlyniadau'r broses osodiadau, a pham roedd ymgeisydd wedi derbyn tŷ cyn teulu o'r gymuned leol.

4.15 Roedd swyddogion mewn nifer o awdurdodau yn credu bod y dybiaeth eu bod yn rhoi tai i 'bobl o'r tu allan' yn cael ei hachosi'n bennaf gan 'blwyfoldeb lleol'. I aelodau rhai awdurdodau, nid oedd y rhai a ystyriwyd yn 'bobl o'r tu allan' o reidrwydd yn fudwyr diweddar i'r sir, ond yn bobl o'r sir (yn enwedig y rheiny a dderbyniodd dŷ oherwydd eu bod yn ddigartref) y dyrannwyd iddynt eiddo mewn cymuned benodol nad oedd ganddynt gysylltiad â hi.

4.16 Roedd swyddogion ac aelodau etholedig yn cytuno mai'r mater hollbwysig oedd y cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy, gyda thai fforddiadwy annigonol ar gael i aelwydydd lleol, sydd fel arfer wedi'u prisio allan o'r farchnad dai leol. Roedd hyn yn golygu bod gosod tai cymdeithasol yn destun llawer mwy o graffu nag y byddai'n digwydd pe byddai cyflenwad digonol o dai fforddiadwy.

**Pa lefel o alw y mae'r awdurdod yn ei phrofi gan fudwyr diweddar [18], ac o ble maent yn tarddu?**

4.17 Ychydig neu ddim tystiolaeth gadarn oedd gan ran fwyaf yr awdurdodau o'r galw gan fudwyr diweddar neu am eu tarddiad.

4.18 Roedd amcangyfrifon gan swyddogion o lefel y galw a gynhyrchwyd gan fudwyr diweddar yn amrywio'n sylweddol o fewn y 'chwe sir'. Roedd amcangyfrifon o gyfran yr ymgeiswyr digartrefedd oedd yn fudwyr diweddar yn amrywio o 10% i 40%. Roedd amcangyfrifon o gyfran yr aelwydydd mudwyr diweddar ar y rhestr aros am dai yn amrywio o 5% i 30%. Roedd amcangyfrifon aelodau o'r lefel o alw a gynhyrchwyd gan fudwyr diweddar yn aml yn sylweddol uwch nag amcangyfrifon swyddogion.

4.19 Cafodd Cyngor Gwynedd (2008) fod mwyafrif y rhai oedd yn symud tŷ a brynodd gartref yn y sir yn 2007-08 wedi symud o gyfeiriad yng Ngwynedd. Cafwyd bod y gyfran o bobl oedd yn symud i mewn i gartrefi newydd yr oedd ganddynt gyfeiriad yng Ngwynedd (81.7%) yn sylweddol uwch na chyfran y bobl oedd yn prynu cartref ail-law (57.7%), a phriodolwyd yr amrywiad hwn i nifer o ffactorau fel amodau preswyliaeth lleol mewn datblygiadau newydd a mwy o hyrwyddo datblygiadau newydd

[18] Defnyddiwyd y term mudwr diweddar i ddisgrifio person sydd wedi symud i mewn i'r ardal awdurdod lleol ac wedi byw yno am lai na 3 blynedd.

yn lleol. Cafwyd hefyd bod 57.2% o gartrefi a brynwyd yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu prynu gan bobl oedd yn tarddu o'r tu allan i'r sir.

4.20 Amcangyfrifodd y tri awdurdod lleol o fewn ardal y 'chwe sir' â threfi glan môr Fictoraidd mawr (Ceredigion, Conwy a Sir Ddinbych) oll lefel uwch o alw gan fudwyr diweddar na'r awdurdodau eraill.

4.21 Disgrifiodd un o'r awdurdodau hyn "gronfa anferth" o ymgeiswyr ar gyfer tai cymdeithasol gyda niferoedd uchel o geisiadau newydd yn cael eu derbyn bob blwyddyn, a nifer fawr o geisiadau yn cael eu canslo (yn bennaf o ganlyniad i ddiffyg dychwelyd gwybodaeth yn dilyn y gwiriad rhestr aros blynyddol). Mynegodd swyddogion y gred fod mwyafrif y ceisiadau a ganslwyd gan bobl oedd yn byw y tu allan i'r sir.

4.22 Adroddodd ddau awdurdod fod nifer yr ymholiadau digartrefedd yn tueddu i gynyddu yn ystod misoedd yr haf, a mynegodd swyddogion y gred fod yr ymholiadau ychwanegol hyn gan ymwelwyr haf o'r tu allan i'r sir yn bennaf.

4.23 Nododd rhan fwyaf y rhanddeiliaid allweddol ardaloedd tarddiad mudwyr diweddar fel:

- mannau eraill yng Ngogledd Cymru;
- Gogledd Orllewin Lloegr (Manceinion a Glannau Mersi);
- Gorllewin Canolbarth Lloegr.

**A oes gan aelwydydd mudol nodweddion penodol?**

4.24 Cytunodd rhanddeiliaid yn gyffredinol mai'r aelwydydd mudol oedd yn gosod y galw mwyaf ar yr awdurdod lleol oedd:

- menywod (yn aml â phlant dibynnol) yn dianc rhag trais domestig;
- pobl hŷn yn dychwelyd i'r ardal i fod yn agosach i aelodau'u teuluoedd.

4.25 Dywedodd rhanddeiliaid hefyd bod aelwydydd mudol yn cynnwys:

- pobl yn symud am resymau cysylltiedig â gwaith;
- pobl hŷn yn byw mewn llety gwyliau (carafanau sefydlog a chalets);
- pobl hŷn yn dymuno symud yn ôl i mewn i'r ardal;
- pobl sengl;
- pobl hawdd eu niweidio ag anghenion lluosog a chymhleth;
- pobl yn dianc rhag trais (e.e. tystion trosedd ddifrifol);
- y rheiny â chysylltiad teuluol â'r ardal sy'n gweld yr ardal yn lle da i fagu plant;
- pobl sydd wedi cael eu troi allan gan gynghorau eraill.

4.26 Mae ystod y cyfleusterau a leolwyd o fewn awdurdod lleol yn cael effaith ar y math o aelwydydd sy'n cysylltu â'r awdurdod am gymorth fel pobl ddigartref. Er enghraifft, mae gan nifer o'r 'chwe sir' fwy nag un lloches

cymorth i fenywod wedi'i leoli o fewn yr ardal, sy'n golygu eu bod yn derbyn cyfran uwch o geisiadau gan fenywod yn tarddu o fannau eraill yn y DU sy'n dianc rhag trais domestig. Yn yr un modd, adroddodd awdurdodau â phrosiectau i bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau eu bod yn derbyn cyfran uwch o geisiadau gan bobl â materion caethiwed.

4.27 Awgrymodd un aelod y gellid rhannu mudwyr i'r ardal yn dri grŵp eang:

- mudwyr economaidd - sy'n symud i weithio yn y 'chwe sir'. Awgrymodd fod y rhain yn aml yn bobl broffesiynol fyddai naill ai'n prynu neu'n rhentu'n breifat, ac na fyddent felly yn cyrchu'r sector tai cymdeithasol;
- pobl hŷn - yn ymddeol i gymunedau gwledig neu drefi glan môr. Eto awgrymodd fod y rhain fel arfer yn prynu eu cartrefi, ac nid oeddent yn tueddu i gyrchu'r sector tai cymdeithasol;
- mudwyr dibynnol ar fudd-daliadau - y di-waith ail neu drydedd genhedlaeth, sydd wedi gwneud y dewis o ran ffordd o fyw i symud o ardal drefol (yng Ngogledd Orllewin Lloegr neu Ganolbarth Gorllewin Lloegr) i dref glan môr, yn symud yn aml i mewn i barciau carafanau neu osodiadau gwyliau y tu allan i'r tymor. Awgrymodd fod gan y rhain ar y cyfan lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol a lefelau iechyd gwael, ond eu bod yn fwy craff na'r gymuned leol, ac yn fwy abl i drafod y system tai cymdeithasol a budd-daliadau i'w dibenion eu hunain. Awgrymodd mai'r grŵp olaf hwn oedd yn tueddu i wyro tuag at y system tai cymdeithasol a chystadlu â'r gymuned leol ar gyfer gosodiadau tai cymdeithasol prin.

**Pa setliadau mae mudwyr diweddar yn tueddu i symud iddynt?**

4.28 Mewn pump o'r 'chwe sir', adroddodd rhanddeiliaid fod mudwyr diweddar yn tueddu i wyro tuag at y prif drefi ac, mewn ardaloedd lle roedd diwydiant twristiaeth sylweddol, i drefi arfordirol neu lan môr.

4.29 Mewn un sir ni nodwyd unrhyw batrwm penodol o fudo. Teimlwyd bod pobl yn dymuno naill ai ardaloedd trefol neu rai gwledig.

**A yw aelwydydd mudol yn tueddu i aros yn y setliad y maent yn mudo iddo, neu a ydynt yn symud o fewn y sir?**

4.30 Dywedodd randdeiliaid, ar y cyfan, fod mudwyr diweddar yn tueddu i aros yn y setliadau yr oeddent wedi symud i mewn iddynt yn wreiddiol wrth gyrraedd yr ardal.

4.31 Mewn un sir adroddwyd fod mudwyr diweddar wedi symud ar adegau prin, lle roeddent wedi dianc rhag trais domestig a'r sawl oedd wedi cyflawni'r drosedd wedi darganfod eu lleoliad.

**Beth yw effaith mudo ar ddyrannu tai cymdeithasol ac ar breswylwyr lleol sydd wedi gwneud cais am dai?**

4.32 Roedd rhaniad clir rhwng swyddogion ac aelodau etholedig yn nhermau'r farn a fynegwyd am effaith mudo ar ddyrannu tai cymdeithasol ac ar breswylwyr lleol sydd wedi gwneud cais am dai.

4.33 Dywedodd swyddogion fod y galw am dai gan fudwyr diweddar yn cynyddu lefel y galw am adnodd prin, ond ar y cyfan bod effaith mudwyr diweddar yn fach iawn.

4.34 Roedd nifer o awdurdodau wedi ymgymryd â dadansoddiad o osodiadau i sefydlu lefel y galw gan fudwyr diweddar, a'u llwyddiant wrth sicrhau tai. Ym mhob achos dangoswyd er bod mudwyr diweddar ac ymgeiswyr o'r tu allan i'r ardal ymddangos ar y gofrestr tai, roeddent yn sicrhau cyfran fach iawn o osodiadau.

4.35 Mewn un awdurdod, dywedodd swyddogion fod mudwyr wedi cael effaith ar ddarparu gwasanaethau digartrefedd, gan fod achosion yn ymwneud â phobl oedd yn tarddu o'r tu allan i'r ardal yn golygu archwiliadau mwy cymhleth, ac yn ei wneud yn llawer mwy anodd cyflawni deilliannau llwyddiannus yn nhermau atal digartrefedd.

4.36 Cyfeiriodd swyddogion mewn ychydig o awdurdodau yn unig at effaith mudo ar faterion y tu hwnt i rai tai cymdeithasol. Mewn dau awdurdod, dywedodd swyddogion:

- wrth i ganran uchel o fudwyr mewnol symud i'r ardal i ymddeol, mae proffil oed uwch ganddynt, ac mae hyn yn creu goblygiadau hir dymor o safbwynt gofal;
- mae mudo mewnol yn effeithio ar ddyrannu lleoedd mewn ysgolion, ac yn cael effaith fawr ar ysgolion lleol.

Mewn un awdurdod dywedodd swyddogion bod mudo mewnol yn creu goblygiadau i'r iaith Gymraeg, os yw mudwyr yn ddi-Gymraeg.

4.37 Roedd gan aelodau etholedig fwy o bryderon na swyddogion am effaith mudo:

- roedd llawer yn teimlo bod mudwyr diweddar yn atal pobl leol rhag cael mynediad i dai;
- roedd un yn teimlo bod effaith ar allu pobl leol i drosglwyddo o fewn tai cymdeithasol (e.e. i gael tŷ mwy pan oedd eu teuluoedd yn tyfu);
- mewn tair o'r 'chwe sir' dywedodd aelodau fod presenoldeb mudwyr diweddar yn cael effaith ar y Gymraeg a diwylliant Cymreig (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig);
- mewn tair o'r 'chwe sir' dywedodd aelodau hefyd fod mudwyr diweddar â phroblemau (e.e. cyn-droseddwyr a'r rheiny â materion caethiwed) yn dod â ffyrdd o fyw trefol i mewn i ardaloedd gwledig, oedd yn creu aflonyddwch yn y gymuned leol.

4.38 Mewn pedwar awdurdod, roedd yn amlwg mai'r mater allweddol i aelodau wardiau oedd mewn-fudo i mewn i'w cymunedau gan aelwydydd oedd yn tarddu o gymunedau eraill o fewn yr un sir, yn enwedig y rheiny a dderbyniodd lety oherwydd eu bod yn ddigartref.

**Beth fu effaith Rhannau VI a VII Deddf Tai 1996 ar yr awdurdod ac ar ddyrannu tai cymdeithasol?**

4.39 Adroddodd randdeiliaid nifer o effeithiau ar yr awdurdod a achoswyd gan gyflwyno Rhannau VI a VII Deddf Tai 1996.

4.40 Y brif effaith a nodwyd oedd bod nifer y ceisiadau digartrefedd wedi cynyddu, a bod hyn wedi esgor ar fwy o aelwydydd yn derbyn llety drwy'r llwybr digartrefedd.

4.41 Adroddwyd effeithiau eraill fel a ganlyn:

- adroddodd un awdurdod effaith ar lefel y ddadl yn lleol am y cynllun dyrannu, a oedd nawr yn destun mwy o graffu gan aelodau etholedig;
- adroddodd un awdurdod graffu mwy dwys nid yn unig gan aelodau lleol, ond gan ymgeiswyr aflwyddiannus a sefydliadau eirioli;
- adroddodd un bod gwell cydnabyddiaeth wedi'i chreu'n gorfforaethol o gyfrifoldebau digartrefedd y cyngor, a bod cyllidebau digartrefedd o ganlyniad wedi cynyddu;
- adroddodd un arall fod y dyletswyddau a osodwyd ar staff digartrefedd wedi dod yn fwy beichus (yn cynnwys mwy o bwysau ar y tîm i gynnig tystiolaeth dros benderfyniadau) gan esgor ar gynnydd yn y fiwrocratiaeth cysylltiedig â darparu'r gwasanaeth digartrefedd a chost darparu'r gwasanaeth hwnnw;
- adroddodd un awdurdod bod y gofyniad i gael cofrestr tai agored wedi cynyddu'r baich gweinyddol ar yr awdurdod oherwydd nifer uchel y ceisiadau yr oeddent yn eu derbyn gan bobl oedd yn byw y tu allan i'r sir. Adroddwyd bod 27% o ymgeiswyr ar eu cofrestr tai naill ai'n byw y tu allan i'r sir neu'n fudwyr diwedd i'r ardal, ac ystyriwyd bod hyn yn cynrychioli "ymarfer gweinyddol anferth yn arwain at ddim deilliant o gwbl", gan fod ychydig neu ddim posibilrwydd y byddai llawer o'r ymgeiswyr hyn yn cael eu hailgartrefu;
- adroddodd dau awdurdod bod gofyn iddynt adolygu eu cynlluniau dyrannu i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.

**Beth fu effaith Gorchymyn Anghenion Blaenoriaeth 2001 ar yr awdurdod ac ar ddyrannu tai cymdeithasol?**

4.42 Estynnodd Gorchymyn Personau Digartrefedd (Anghenion Blaenoriaeth) (Cymru) 2001 angen blaenoriaeth i'r grwpiau canlynol:

- y rheiny sy'n gadael gofal neu bersonau mewn perygl penodol o ecsbloetio rhywiol neu ariannol, sy'n 18 oed neu'n hŷn ond o dan 21;
- pobl ifanc 16 neu 17 oed;

- personau (heb blant dibynnol) sy'n dianc rhag trais domestig;
- personau sy'n ddigartref ar ôl gadael y lluoedd arfog;
- cyn garcharorion sy'n ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa.

4.43 Adroddodd randdeiliaid fod hyn wedi cael nifer o effeithiau, yn cynnwys:

- cynnydd mewn costau llety dros dro (ac, i ddechrau, cynnydd yn y defnydd o wely a brecwast) gan nad oedd gan awdurdodau lleol lety yn ei le i gwrdd ag anghenion y grwpiau hawdd eu niweidio ychwanegol (yn enwedig y rheiny oedd yn gadael y carchar a phobl ifanc 16 a 17 oed);
- cynnydd yn nifer y ceisiadau digartrefedd, yr oedd cyfran uchel ohonynt â ffyrdd o fyw anhrefnus (yn cynnwys materion caethiwed), a'r effaith yr oedd ymgeiswyr o'r fath yn ei chael pan yn lletya mewn cymunedau bach;
- costau cynyddol i awdurdodau mynd i'r afael â'r problemau a achosir gan gyflwyno'r Gorchymyn, er enghraifft, creu swyddi newydd i gwrdd â galw ychwanegol am wasanaethau, datblygu polisïau a gweithdrefnau ychwanegol, a mwy o waith partneriaeth â landlordiaid y sector preifat i ddarparu llety i'r nifer uwch o bobl sengl yr oedd dyletswydd arnynt bellach i ddarparu cartref iddynt;
- creu anawsterau wrth ddyrannu llety, oherwydd nid oedd aelodau wardiau yn dymuno cael mwy o aelwydydd digartref hawdd eu niweidio yn byw yn eu cymunedau;
- cynnydd mewn cwynion gan y cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas â'r flaenoriaeth a roddir i'r rheiny sy'n gadael y carchar. Adroddodd un awdurdod achos o berson y rhoddwyd cartref iddo yn y modd hwn gafodd ei droi allan yn ddiweddarach oherwydd ei fod wedi torri gorchymyn gwahardd i atal chwe pherson rhag ymweld, lle cafodd pump o'r chwe pherson hynny eu hailgartrefu eu hunain yn y pen draw drwy'r llwybr hwn. Dywedasant, o safbwynt tybiaeth y cyhoedd, gwelwyd bod troseddwyr ailadroddus yn "cael 3 neu 4 cyfle i gael llety, lle weithiau nad yw'r rhai nad ydynt yn troseddu yn cael un";
- problemau o safbwynt rheoli. Dywedodd un awdurdod, er bod "gan lawer becyn cefnogi at ddiben cyrchu llety, mae hyn yn aml yn ymddatod ar ôl i lety gael ei osod";
- roedd swyddogion mewn un awdurdod yn teimlo bod pwysau i osod cyn-droseddwyr mewn llety yn rhy gyflym, heb ganiatáu cyfnod digon hir i asesu a oeddent yn debygol o aildroseddu ac awgrymwyd bod angen cynnal prosiect ymchwil ar a oedd y Gorchymyn Anghenion Blaenoriaeth wedi cael effaith ailsefydlu.

4.44 Yn nhermau effaith y Gorchymyn Anghenion Blaenoriaeth 2001 ar ddyrannu tai, adroddodd awdurdodau gynnydd yn nifer y ceisiadau digartrefedd (yn enwedig gan aelwydydd personau sengl), a chynnydd cyfatebol yn nifer y derbyniadau. Mewn awdurdodau sydd â chyflenwad rhesymol o lety personau sengl, adroddwyd bod hyn yn arwain at

broblemau rheoli tai mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, adroddodd nifer o randdeiliaid fod yr effaith ar ddyrannu stoc tai eu hawdurdod yn gyfyngedig oherwydd bod cyn lleied o unedau personau sengl ganddynt. Cyflawnodd yr awdurdodau hynny eu dyletswydd i bobl sengl drwy eu cynorthwyo i sicrhau llety a rentir yn breifat.

**Beth fu effaith yr agenda atal digartrefedd ar yr awdurdod ac ar ddyrannu tai cymdeithasol?**

4.45 Adroddodd randdeiliaid fod yr agenda atal digartrefedd wedi cynyddu costau i'r awdurdodau wrth ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd. Fodd bynnag, roedd hyn wedi cael effeithiau positif, sef:

- roedd nifer y ceisiadau digartrefedd a'r derbyniadau wedi lleihau;
- roedd costau llety dros dro wedi lleihau;
- roedd gwell deilliannau yn cael eu cyflawni i ddefnyddwyr gwasanaeth (yn enwedig o ganlyniad o ymyrraeth llawer cynharach mewn achosion o ddigartrefedd posib).

4.46 Adroddodd randdeiliaid nifer o effeithiau eraill:

- nododd un awdurdod y cafwyd cynnydd yn y ddealltwriaeth am rôl y gwasanaethau opsiynau tai, a newid y canfyddiad o'r gwasanaeth fel un oedd yn creu problemau i'r awdurdod i asiantaeth cynghori;
- dywedodd ddau awdurdod fod yr agenda atal wedi sbarduno gweithio aml-asiantaeth. Dywedodd un o'r rhain fod ei Fforwm Digartrefedd bellach yn "bwysig iawn" yn nhermau atal.

4.47 Adroddodd yr holl randdeiliaid mai effaith yr agenda atal digartrefedd ar ddyrannu tai cymdeithasol oedd lleihau nifer yr aelwydydd y rhoddwyd llety iddynt oherwydd eu bod yn ddigartref.

**I ba raddau mae pobl yn camgynrychioli eu hamgylchiadau i gael mynediad i dai cymdeithasol?**

4.48 Yn gyffredinol, roedd mwy o ymdeimlad fod pobl yn 'defnyddio'r system' nac yn camgynrychioli eu hamgylchiadau. Dywedodd fwyafrif y rhanddeiliaid mai ychydig iawn o dystiolaeth oedd i awgrymu bod ymgeiswyr tai, naill ai drwy'r gofrestr tai neu drwy'r llwybr digartrefedd, yn camgynrychioli eu hamgylchiadau er mwyn cael mynediad i dai cymdeithasol. Dywedodd un swyddog, er bod rhai aelwydydd yn gor-ddweud rhai agweddau ar eu hamgylchiadau o bosib, roedd nifer cyfartal os nad uwch o aelwydydd fwy na thebyg yn tanchwarae difrifoldeb eu hamgylchiadau.

4.49 Yn gyffredinol, roedd swyddogion yn teimlo bod archwiliadau yr ymgymerwyd â hwy mewn perthynas â digartrefedd a cheisiadau tai cymdeithasol yn debygol o nodi rhai fwyaf yr achosion o gamgynrychioli. Nodwyd nifer o fecanweithiau oedd yn eu lle i leiafu tebygrwydd camgynrychioli, e.e.:

- ei wneud yn ofynnol i'r holl ymgeiswyr digartrefedd ac ymgeiswyr ar gyfer tai cymdeithasol ddarparu prawf o'u preswyliaeth er mwyn derbyn pwyntiau preswyliaeth at ddibenion dyrannu (e.e. tystysgrifau geni, cofnod gwaith, llythyrau meddyg, hawliadau budd-daliadau, llythyrau banc, llythyrau gan aelodau lleol);
- gwirio cyfeiriadau blaenorol
- ymweld â chartrefi'r holl ymgeiswyr ar gyfer tai cymdeithasol (neu'r holl rai â nifer uchel o bwyntiau);
- ymweliad â chartrefi ymgeiswyr digartrefedd gan y Swyddog Atal Digartrefedd (heb roi rhybudd ymlaen llaw) sy'n honni bod teulu/ffrindiau yn gofyn iddynt adael.

Dywedodd swyddogion mewn un awdurdod fod mwyafrif helaeth yr ymweliadau cartref yn cadarnhau gwybodaeth a ddarparwyd gan ymgeiswyr, ac mae prin iawn oedd y rhai oedd yn esgor ar gwestiynu gwybodaeth.

4.50 Mewn un awdurdod, dywedodd swyddogion er nad oedd tystiolaeth o gysylltiad lleol wedi'i chofnodi ar y ffeiliau bob tro, mewn llawer o achosion maent yn adnabod neu'n gwybod am y cleientiaid y maent yn ymdrin â hwy, gan mai lle bach yw'r sir. Dywedasant os oedd amheuon am gysylltiad lleol, byddent yn ceisio tystiolaeth ysgrifenedig (e.e. gan awdurdodau eraill, yr heddlu, Meddygon Teulu, aelodau'r teulu, banciau). Yn ystod yr amser yr oeddent wedi bod gyda'r awdurdod (oedd yn amrywio rhwng 5 a 13 mlynedd), dywedodd y swyddogion hyn nad oedd unrhyw apeliadau wedi bod am benderfyniadau ar gysylltiad lleol.

4.51 Dywedodd swyddogion mewn awdurdod arall nad oedd gwiriadau ar gysylltiad yn cael eu gwneud tan yn ddiweddar iawn, ac y gallai fod yn anodd iawn i ymgeiswyr ddarparu prawf o gysylltiad hanesyddol lleol (e.e. os oeddent wedi byw yn yr ardal llawer o flynyddoedd yn ôl). Adroddwyd mai dim ond oddeutu un cais y chwarter sy'n cael ei gyfeirio'n ôl i herio penderfyniadau ar gysylltiad lleol, er nad oedd yr un erioed wedi mynd i'r llys.

4.52 Fodd bynnag, roedd nfier o randdeiliaid yn credu bod peth camgynrychioli:

- mewn un awdurdod awgrymodd swyddogion ad aelodau fod rhai pobl yn gwybod sut i ddefnyddio'r system, ac yn symud i mewn i lety o ansawdd gwael yn fwriadol fel ffordd o wella eu cyfle i gael tai cymdeithasol;
- dywedodd swyddogion mewn un awdurdod, yn yr ychydig iawn o achosion lle roedd pobl wedi camgynrychioli eu hamgylchiadau, roedd yr achosion hynny mewn perthynas â:
    - phobl yn gor-ddweud eu hamgylchiadau pan oedden yn dianc rhag trais annomestig; a
    - phobl ifanc (yn enwedig menywod beichiog) oedd yn dweud nad oedd eu rhieni yn fodlon darparu cartref iddynt bellach.

- Mewn tri awdurdod, awgrymodd staff digartrefedd fod cyfran sylweddol o ymgeiswyr digartrefedd yn camgynrychioli eu hamgylchiadau er mwyn cael mynediad i dai. Roedd yr amcangyfrifon yn amrywio o oddeutu 25% i 50%. Mewn dau achos dywedodd swyddogion fod ymgeiswyr wedi gor-ddweud materion iechyd ac anabledd. Dywedodd swyddogion yn y trydydd awdurdod bod cydgynllwynio weithiau gydag aelodau'r teulu i awgrymu troi allan, a chydgynllwynio gyda landlordiaid preifat i sicrhau nad oedd tenantiaethau byrddaliad sicr yn cael eu hymestyn.

4.53 Dywedodd aelodau mewn un awdurdod fod mudwyr yn "glyfar yn y dulliau yr oeddent yn eu defnyddio i sefydlu cysylltiad lleol", er enghraifft:
- drwy nodi cysylltiad â "Modryb Jane o 20 mlynedd yn ôl";
- drwy'r sector preifat, drwy symud i mewn i'r sector preifat yn y sir i ddechrau, ac yna'n cyrchu tai cymdeithasol ar y sail fod eu tenantiaeth breifat yn anaddas neu'n dod i ben.

4.54 Fodd bynnag, dywedodd fwyafrif helaeth y rhanddeiliaid nad oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod mudwyr diweddar yn fwy tebygol o gamgynrychioli eu hamgylchiadau na'r boblogaeth frodorol. Mewn dau awdurdod lleol adroddodd staff fod y boblogaeth frodorol yn fwy tebygol o gamgynrychioli ei hamgylchiadau. Dywedasant mewn nifer fach o achosion roedd aelodau wardiau wedi cynghori etholwyr i gamgynrychioli eu hamgylchiadau a mynd at yr awdurdod a datgan eu bod yn ddigartref, fel ffordd o wella eu cyfleoedd o sicrhau tai.

4.55 Dywedodd swyddogion un awdurdod fodd bynnag y gallai fod yn anodd iawn, yn ddwys o ran llafur, yn cymryd llawer o amser ac yn gostus gwirio gwybodaeth ar ymgeiswyr o'r tu allan i'r sir. Am y rheswm hwnnw, maent yn credu bod angen newid yn y gyfraith i sicrhau y gall ymgeiswyr gyflwyno'u hachos i'w hawdurdod lleol eu hunain yn unig. Dywedodd swyddogion ei fod yn arbennig o anodd gwirio'r rhesymau y mae ymgeiswyr o'r tu allan i'r sir yn eu darparu ar gyfer dymuno symud i'r ardal. Maent yn cyd-gysylltu ag adrannau tai, yr heddlu, a landlordiaid cymdeithasol a phreifat yn ardaloedd tarddiad ymgeiswyr, ond yn dweud bod asiantaethau weithiau'n ymddangos fel eu bod yn "dymuno cael pobl allan o'u hardal".

**A yw'r diffiniadau o 'gysylltiad lleol' a ddefnyddir at ddibenion digartrefedd a dyrannu yn briodol? Os nad ydy, pam, a sut y dylid eu newid?**

4.56 Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn teimlo bod y diffiniad o breswyliaeth o "6 allan o 12 mis" a ddefnyddiwyd yn y fframwaith digartrefedd yn gyfnod rhy fyr i gynrychioli cysylltiad lleol. Adroddodd awdurdodau lleol â threfi glan môr mawr fod mudwyr yn symud i mewn i'r ardal er mwyn byw mewn gosodiadau y tu allan i'r tymor, ac, pan oedd y rheiny'n dod i ben,

roeddent wedyn yn gallu dangos cysylltiad lleol er mwyn cyflwyno'u hunain yn ddigartref. Teimlwyd bod cyd-ddigwyddiad y diffiniad 6 mis o breswyliaeth a 6 mis tenantiaeth byrddaliad sicr yn creu cyfleoedd i lawer o bobl sefydlu cysylltiad lleol. Roedd yr holl randdeiliaid yn teimlo bod hyn yn gosod baich ychwanegol ar awdurdodau, gan mai cyflenwad cyfyngedig oedd ganddynt o osodiadau tai cymdeithasol.

4.57 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn teimlo y byddai 12 mis o breswyliaeth mewn ardal yn gyfnod mwy priodol er mwyn sefydlu cysylltiad lleol at ddibenion digartrefedd, er bod rhai o'r farn y dylai fod yn ddwy flynedd. Roedd swyddogion mewn un ardal yn teimlo y dylai awdurdodau lleol allu defnyddio'u disgresiwn mewn perthynas â chyfnod amser hwy, fel y gellid derbyn cyfnodau amser byrrach fel y bo'n briodol.

4.58 Nododd swyddogion mewn un awdurdod y gellid sefydlu cysylltiad lleol drwy gael aelodau'r teulu yn byw yn yr ardal, hyd yn oed pan oedd yr ymgeisydd wedi'i ddieithrio rhag yr aelodau hynny o'r teulu. Nid oeddent yn credu ei fod yn rhesymegol i sefydlu cysylltiad lleol mewn achosion o'r fath.

4.59 Roedd rhan fwyaf y rhanddeiliaid yn teimlo fod y diffiniad o gysylltiad lleol a ddefnyddiwyd yn eu polisïau dyrannu yn briodol.

4.60 Fel yr adroddwyd yn gynharach, mae mater i rai rhanddeiliaid ynghylch y dehongliad o 'lleol', ac a ddylai hynny fod yn gymwys i ardal yr awdurdod lleol, neu gymuned benodol o fewn yr ardal honno. Mae un awdurdod lleol, fodd bynnag, wedi cynnig tynnu'r pwyntiau cymuned leol (ar gyfer preswyliaeth yn y gymuned leol lle mae'r ymgeiswyr yn gwneud cais) oherwydd eu bod yn credu nad yw'r pwyntiau hynny wedi esgor ar y deilliant bwriedig. Er enghraifft, efallai bod gan ymgeiswyr bwyntiau ym Mhentref A (nad oes ganddo unrhyw stoc tai cymdeithasol), ond nid ym Mhentref B dair milltir i ffwrdd (y mae ganddo stoc tai cymdeithasol).

### Casgliadau

4.61 Y canlynol yw'r themâu allweddol sy'n deillio o adran hon yr adroddiad:

- wrth gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd, mae pob un o'r awdurdodau lleol yn ardal y 'chwe sir' yn defnyddio diffiniad a dderbynnir yn gyffredin o hyd preswyliaeth i sefydlu cysylltiad lleol ar hyn o bryd (h.y. preswyliaeth yn yr ardal am 6 mis o leiaf yn ystod y 12 mis diwethaf, neu am gyfnod neb fod yn llai na 3 blynedd yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd flaenorol);

- roedd yr holl randdeiliaid yn cytuno fod y cyfnod preswylio o 6 mis a ddefnyddir i sefydlu cysylltiad lleol mewn asesiadau digartrefedd yn rhy fyr, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylid ei ymestyn i 12 mis;

- gellid ystyried bod y chwe awdurdod, drwy fabwysiadu polisi hollgynhwysol i sefydlu cysylltiad lleol, yn 'llyffetheirio eu disgresiwn' (gweler paragraff 2.87);

- mae nodweddion cysylltiad lleol yn nodwedd cynlluniau dyrannu pob un o'r 'chwe sir', ond mae lefel y flaenoriaeth a roddir i bobl â chysylltiad lleol yn amrywio'n eithaf sylweddol;

- roedd swyddogion yn teimlo mai ychydig yn unig o effaith yr oedd mudwyr diweddar wedi'i chael ar ddyrannu tai cymdeithasol a bod y darpariaethau cysylltiad lleol o fewn eu cynlluniau dyrannu wedi esgor ar y canlyniadau bwriedig;

- fodd bynnag, roedd llawer o aelodau etholedig â barn wahanol ac yn teimlo bod effaith mudwyr diweddar wedi atal pobl leol rhag cyrchu tai cymdeithasol, wedi cael effaith andwyol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru ac wedi dod â ffyrdd o fyw trefol i gymunedau gwledig;

- ystyriwyd gan ran fwyaf y rhanddeiliaid bod y cyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy yn fater pwysicach nag effaith mewn-fudo ar argaeledd tai cymdeithasol;

- roedd swyddogion yn teimlo bod problem ddifrifol mewn perthynas â thybiaeth y cyhoedd. Cyfeiriodd lawer at y tybiaeth fod gosodiadau yn mynd i 'bobl o'r tu allan' yn hytrach nag i ' bobl leol';

- mewn nifer o ardaloedd roedd materion ynghylch 'plwyfoldeb lleol', lle nad oedd y rhai y'u hystyriwyd yn 'bobl o'r tu allan' o reidrwydd yn fudwyr diweddar i'r sir, ond yn bobl o du mewn i'r sir y dyrannwyd iddynt eiddo mewn cymuned benodol nad oedd ganddynt gysylltiad â hi;

- roedd galw am dai cymdeithasol gan fudwyr lleol yn amrywio'n sylweddol ar draws y 'chwe sir' ond adroddwyd ei fod yn uwch yn y tair sir sy'n cynnwys 'trefi glan môr';

- roedd mudwyr diweddar yn tueddu i symud i drefi mawr, yn hytrach na chymunedau gwledig, ac i aros yn y setliadau hyn;

- ychydig o dystiolaeth sydd yna i awgrymu bod ymgeiswyr yn camgynrychioli eu hamgylchiadau er mwyn cyrchu tai cymdeithasol,

ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod mudwyr diweddar yn fwy tebygol o wneud hynny na’r boblogaeth frodorol.

# 5 Digartrefedd yn y ‘chwe sir’

## Cyflwyniad

5.1 Mae adran hon yr adroddiad yn darparu manylion y canlynol:

- yr ymagwedd a ddefnyddiwyd er mwyn casglu gwybodaeth am sampl yr achosion digartrefedd a adolygwyd yn yr astudiaeth;
- graddau’r galw gan fudwyr diweddar [19] am wasanaethau digartefedd yn y ‘chwe sir’;
- deilliannau i fudwyr diweddar yn nhermau digartrefedd;
- nodweddion ymgeiswyr digartrefedd oedd yn fudwyr diweddar, o’u cymharu ag ymgeiswyr digartrefedd lleol.

## Ymagwedd at waith maes

5.2 Roedd cam gwaith maes y prosiect yn cynnwys dadansoddi nifer o ffeiliau digartrefedd a ddewiswyd ar hap o’r blynyddoedd ariannol 2005-06, 2006-07 a 2007-08 o bob un o’r awdurdodau lleol yn ardal y ‘chwe sir’. Ymgymerwyd â’r gwaith maes rhwng Chwefror a Mehefin 2009.

5.3 Pennwyd nifer y ffeiliau digartrefedd a ddewiswyd ar hap ym mhob un o’r ‘chwe sir’ gan yr angen i sicrhau sampl oedd yn arwyddocaol yn ystadegol ar draws y ‘chwe sir’.

5.4 Dewiswyd y sampl ar sail yr angen i gyflawni 95% hyder plws neu minws 8.5% ar draws y ‘chwe sir’. O’r cyfanswm o 8,201 o benderfyniadau digartrefedd a wnaed yn ardal y ‘chwe sir’ yn ystod ffocws tair blynedd yr astudiaeth, maint gofynnol y sampl oedd 723.

5.5 Pennwyd y sampl ym mhob un o’r siroedd ar sail pro rata yn ôl nifer y penderfyniadau a wnaed ym mhob sir yn ystod ffocws tair blynedd yr astudiaeth. Mae Tabl 10 yn dangos cyfanswm nifer y penderfyniadau digartrefedd a wnaed ym mhob sir yn ystod y cyfnod hwn, maint y sampl yr oedd yr ymchwilwyr yn ceisio’i gyflawni, a nifer y ffeiliau a adolygwyd ym mhob ardal.

[19] Defnyddir y term ‘mudwr diweddar’ i ddisgrifio person sydd wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol am 3 mlynedd neu lai.

*Tabl 10. Penderfyniadau digartrefedd yn y chwe sir yn ystod y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08 a maint y sampl gofynnol a'r hyn a gyflawnwyd*

| Awdurdod Lleol | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 | Cyfanswm 3 blynedd | Maint y sampl gofynnol | Sampl a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 449 | 382 | 386 | 1177 | 120 | 149 |
| Gwynedd | 987 | 1216 | 1344 | 2207 | 125 | 125 |
| Conwy | 705 | 483 | 451 | 1445 | 122 | 122 |
| Sir Ddinbych | 1127 | 764 | 957 | 1157 | 119 | 149 |
| Sir y Fflint | 770 | 374 | 1182 | 1327 | 121 | 121 |
| Ceredigion | 886 | 972 | 486 | 888 | 116 | 124 |
| **Cyfanswm** | | | | **8,201** | **723** | **790** |

5.6 Cyn mynd ar y safle, gofynnodd yr ymchwilwyr am fanylion gan bob un o'r awdurdodau lleol ar ffurf rhestr ddi-enw o'r holl aelwydydd oedd wedi cyflwyno'u hunain i'r cyngor yn ddigartref yn ystod y cyfnod tair blynedd, lle yr oedd penderfyniad wedi'i wneud mewn perthynas â'u hawl i wasanaethau. Dewisodd yr ymchwilwyr y nifer priodol o achosion gan ddefnyddio rhaglen cynhyrchu rhifau ar hap. Yna sicrhaodd swyddogion cynghorau fod y ffeiliau a ddewiswyd ar gael i'w harolygu yn ystod cam gwaith maes y prosiect. Mewn dau awdurdod, cafwyd anawsterau yn cael mynediad i rai o'r ffeiliau a ddewiswyd (o ganlyniad i broblemau archifo, ac ati). Yn yr achosion hyn, dewisodd yr ymchwilwyr ffeiliau eraill a ddewiswyd ar hap o'r blynyddoedd perthnasol.

5.7 Wrth adolygu'r ffeiliau, sefydlodd yr ymchwilwyr:

- hyd cysylltiad yr ymgeisydd a'r sir;
- os nad oedd ganddynt gysylltiad, y sir yr oeddent yn tarddu ohoni;
- math o aelwyd yr ymgeisydd;
- oed pennaeth yr aelwyd;
- amgylchiadau tai yr aelwyd ar adeg eu cais;
- a oedd yr ymgeisydd yn byw mewn tref glan môr ar adeg eu cais;
- os oedd cysylltiad yr ymgeisydd â'r sir yn llai na 5 mlynedd, nifer y symudiadau a wnaed gan yr aelwyd yn ystod y 5 mlynedd blaenorol;
- rhesymau dros ddigartrefedd;
- y penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod lleol;
- a ofynnodd yr ymgeisydd am adolygiad o'r penderfyniad, ac, os felly, canlyniad y broses adolygu,a wnaeth yr ymgeisydd apelio yn erbyn y penderfyniad, a chanlyniad y broses apêl;
- a oedd y ffeil yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad a wnaed;
- a oedd y penderfyniad a wnaed gan y swyddog oedd yn archwilio'r achos wedi'i gymeradwyo gan swyddog uwch;
- a roddwyd yr aelwyd mewn llety dros dro ac, os felly, hyd y cyfnod a dreuliwyd mewn llety dros dro;
- y camau a gymerwyd gan yr awdurod lleol.

5.8 Roedd gallu'r ymchwilwyr i gasglu'r holl wybodaeth ofynnol yn ddibynnol ar ansawdd yr wybodaeth a gasglwyd gan yr awdurdod ar adeg gwneud y

cais digartrefedd, a'r ffordd y cafodd ei storio. Ym mhob un o'r 'chwe sir' roedd yn amlwg, dros gyfnod 3 blynedd yr astudiaeth (yn enwedig yn ystod y flwyddyn olaf), y cafwyd gwelliannau mawr wrth gasglu tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau a wnaed. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nid oedd ymchwilwyr yn gallu casglu'r wybodaeth ofynnol. Yn y tablau isod, cyfeirir at faint y boblogaeth y tynnwyd yr wybodaeth ohoni.

5.9 Gan ddefnyddio gliniaduron, mewnosododd yr ymchwilwyr y data yn uniongyrchol i gronfa ddata Microsoft Office Access, a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r sampl ar lefel sirol a'chwe sirol'.

### Dadansoddiad o ddata digartrefedd

5.10 Mae'r adran hon yn darparu canfyddiadau allweddol o'r dadansoddiad o ddata digartrefedd yn ardal y 'chwe sir', yn ystod y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08.

### Digartrefedd a mudwyr diweddar

5.11 Mae Tabl 11 yn dangos yr ymgeiswyr digartrefedd yn mhob un o'r 'chwe sir' yn ôl hyd eu cysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- o fewn y 'chwe sir', nid oedd gan 9.3% (ym amrywio mewn ystod rhwng siroedd o 5.3% i 14.5%) yr holl ymgesiwyr digartref unrhyw gysylltiad â'r awdurdod lleol y gwnaethant gais iddo
- roedd 19.4% arall (mewn ystod o 10.7% i 24.1%) wedi byw am lai na 3 blynedd yn ardal yr awdurdod lleol y gwnaethant gais iddo
- derbyniwyd cyfanswm o 28.7% (mewn ystod o 18.1% i 34.2%) o geisiadau digartrefedd yn y 'chwe sir' gan aelwydydd y gellid eu disgrifio fel mudwyr diweddar (naill ai heb gysylltiad â'r sir neu wedi byw yn y sir am lai na 3 blynedd).

***Tabl 11. Ymgeiswyr digartrefedd ym mhob un o'r 'chwe sir' yn ôl hyd eu cysylltiad â'r awdurdod lleol y gwnaethant gais iddo Maint y boblogaeth***

| Awdurdod Lleol | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal |
|---|---|---|---|
| **Sir 1** | 70.5 | 24.1 | 5.4 |
| **Sir 2** | 66.2 | 19.3 | 14.5 |
| **Sir 3** | 70.5 | 23.8 | 5.7 |
| **Sir 4** | 65.8 | 20.8 | 13.4 |
| **Sir 5** | 81.9 | 10.7 | 7.4 |
| **Sir 6** | 81.8 | 12.0 | 7.2 |
| **Cyfanswm** | 71.3 | 19.4 | 9.3 |

5.12 Mae'n amlwg bod y tri awdurdod lleol sy'n cynnwys 'trefi glan môr Fictoraidd' traddodiadol yn profi'r lefel uchaf o alw gan ymgeiswyr digartref y gellir eu disgrifio fel mudwyr diweddar.

### Ardaloedd tarddiad

5.13 Mae Tabl 12 yn dangos, i ymgeiswyr digartref nad oedd ganddynt gysylltiad â'r awdurdod lleol y gwnaethant gais iddo, yr ardaloedd yr oeddent yn tarddu ohonynt. Roedd ychydig o dan draean yn tarddu o fannau eraill yng Ngogledd Cymru, ac roedd ugain y cant arall yn tarddu o Ogledd Orllewin Lloegr. Dim ond 2 ymgeisydd oedd yn tarddu o'r tu allan i'r DU.

***Tabl 12. Tarddiadau ymgeiswyr digartrefedd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r awdurdod lleol y gwnaethant gais iddo***

| Rhanbarth lle roedd gan yr ymgeisydd gysylltiad | Nifer |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 14 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | 11 |
| De Ddwyrain Lloegr | 6 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 5 |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | 3 |
| De Ddwyrain Cymru | 2 |
| De Orllewin Cymru | 2 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 2 |
| Dwyrain Anglia | 2 |
| Y tu allan i'r DU | 2 |
| Llundain | 1 |
| De Orllewin Lloegr | 1 |
| Canolbarth Cymru | 1 |
| Yr Alban | 1 |

### Mathau o aelwydydd

5.14 Mae Tabl 13 yn dangos ymgeiswyr digartef yn y 'chwe sir' yn ôl math yr aelwyd a hyd eu cysylltiad â'r awdurdod lleol y gwnaethant gais iddo. Mae hyn yn dangos bod llai o aelwydydd pobl sengl yn gyfrannol ymysg mudwyr diweddar, a chyfran uwch o aelwydydd yn cynnwys plant dibynnol.

***Tabl 13. Ymgeiswyr digartrefedd yn ôl math yr aelwyd a hyd cysylltiad â'r ardal.***
*Maint y boblogaeth 762*

| Math yr aelwyd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|
| **Person sengl** | 51.9 | 48.6 | 40.8 | 52.2 |
| **Cwpl di-blant** | 5.3 | 12.2 | 7.0 | 6.9 |
| **Cyplau gyda phlant dibynnol** | 15.0 | 16.3 | 16.9 | 15.9 |
| **Rhieni unigol gyda phlant dibynnol** | 27.2 | 22.3 | 33.7 | 27.9 |
| **Aelwyd aml-oedolyn** | 0.7 | 0.7 | 0.0 | 0.6 |
| **Arall** | 0.0 | 0.0 | 1.4 | 0.1 |
| **Nifer yr ymgeiswyr ym mhob grŵp** | 543 | 148 | 71 | 762 |

## Oed pennaeth yr aelwyd

5.15 Mae Tabl 14 yn dangos oed pennaeth yr aelwyd yr holl ymgeiswyr digartref yn y chwe sir yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd ymgeiswyr oedd wedi byw yn y sir ers mwy na 3 blynedd yn cynnwys y canran uchaf o'r rheiny 16-17 oed a 45-64 oed;
- roedd y rheiny oedd wedi byw yn y sir am lai an 3 blynedd yn cynnwys y ganran uchaf o bobl 30-44 oed;
- roedd y rheiny heb gysylltiad â'r awdurdod yn cynnwys y canrannau uchaf o bobl 18-29 oed a'r rheiny 65+ oed.

***Tabl 14. Ymgeiswyr digartrefedd yn ôl oed pennaeth yr aelwyd a hyd cysylltiad â'r ardal.*** *Maint y boblogaeth 761*

| Oed pennaeth yr aelwyd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|
| **16 - 17** | 10.5 | 8.1 | 8.6 | 9.9 |
| **18 - 29** | 40.9 | 36.5 | 41.4 | 40.1 |
| **30 - 44** | 28.9 | 37.2 | 32.9 | 30.9 |
| **45 - 64** | 17.3 | 16.9 | 14.3 | 16.9 |
| **65+** | 2.4 | 1.4 | 2.9 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 2.2 |

**Amgylchiadau tai ar adeg y cais digartref**

5.16 Mae Tabl 15 yn dangos amgylchiadau tai ymgeiswyr yn y 'chwe sir' ar adeg eu cais, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd ymgeiswyr oedd wedi byw yn y sir am fwy na 3 blynedd yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny yn byw gydag aelodau agos o'u teulu, a'r rheiny oedd yn berchnogion preswyl;
- roedd y rheiny a oedd wedi byw yn yr ardal am lai na 3 blynedd yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny oedd yn byw gyda ffrindiau, yr oeddent yn denantiaid preifat neu heb do uwch eu pennau;
- roedd y rheiny nad oedd ganddynt gysylltiad â'r awdurdod lleol yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny oedd yn byw mewn gwely a brecwast, parciau carfanau neu mewn tenantiaethau awdurdodau lleol a'r ganran uchaf o'r rheiny oedd yn byw mewn hosteli a ffurfiau eraill ar lety dros dro o bell ffordd.

***Tabl 15. Amgylchiadau tai aelwydydd digartref ar adeg eu cais, yn ôl hyd cysylltiad â'r ardal.*** *Maint y boblogaeth 757*

| Amgylchiadau Tai | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|
| **Gwely a Brecwast** | 3.5 | 2.0 | 5.7 | 3.3 |
| **Parc Carafanau** | 1.7 | 3.4 | 7.1 | 2.4 |
| **Lluoedd EM** | 0.2 | 0.0 | 0.0 | 0.1 |
| **Ysbyty** | 1.5 | 1.4 | 1.4 | 1.5 |
| **Hostel / Llety dros dro (ac eithrio Gwely a Brecwast)** | 5.5 | 8.2 | 30.0 | 8.6 |
| **Tenantiaeth cymdeithas tai** | 0.9 | 1.4 | 0.0 | 1.0 |
| **Byw gyda theulu** | 29.0 | 25.2 | 15.7 | 27.1 |
| **Byw gyda ffrindiau** | 10.7 | 12.9 | 11.4 | 11.0 |
| **Gofal awdurdod lleol** | 0.4 | 0.0 | 0.0 | 0.3 |
| **Tenantiaeth Awdurdod Lleol** | 2.8 | 0.0 | 4.3 | 2.5 |
| **Arall** | 1.5 | 1.4 | 1.4 | 1.4 |
| **Perchennog preswyl** | 6.8 | 0.7 | 1.4 | 5.1 |
| **Carchar** | 3.7 | 4.1 | 2.9 | 3.8 |
| **Rhentu Preifat** | 22.7 | 24.5 | 8.6 | 21.6 |
| **Heb do uwch eu pennau** | 7.6 | 13.6 | 8.6 | 8.9 |
| **Llety Clwm** | 1.3 | 1.4 | 1.4 | 1.3 |

**Trefi Glan Môr**

5.17 Ceisiodd yr astudiaeth sefydlu a oedd ymgeiswyr yn byw mewn trefi glan môr ar adeg eu cais digartrefedd. Nodwyd bod y setliadau canlynol yn drefi glan môr:

- Prestatyn
- Y Rhyl
- Bae Colwyn
- Llandudno
- Caernarfon
- Pwllheli
- Aberdyfi
- Y Bermo
- Borth
- Aberystwyth.

5.18 Mae Tabl 16 yn dangos cyfran yr ymgeiswyr oedd yn byw mewn trefi glan môr, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng yn y tri grŵp.

***Tabl 16. Ymgeiswyr digartrefedd yn byw mewn trefi gan môr ar adeg eu cais digartrefedd, yn ol hyd eu cysylltiad a'r ardal*** *Maint y boblogaeth 752*

| Yn byw mewn tref glan môr ar adeg y cais | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|
| **Oeddent** | 29.0 | 29.5 | 29.6 | 29.1 |
| **Nac oeddent** | 71.0 | 70.5 | 70.4 | 70.9 |

5.19 Yn y tair ardal awdurdod lleol sy'n cynnwys 'trefi glan môr Fictoraidd', roedd cyfran yr ymgeiswyr oedd yn byw mewn trefi glan môr ar adeg eu cais yn amrywio o 29.5% i 60.2%.

**Nifer y cyfeiriadau yn ystod y 5 mlynedd diwethaf**

5.20 Roedd 282 o ymgeiswyr yr oedd ganddynt naill ai dim cysylltiad â'r ardal awdurdod lleol neu yr oeddent wedi byw yn ardal yr awdurdod lle am lai na 5 mlynedd. Mae Tabl 17 yn dangos nifer y cyfeiriadau yr oedd gan yr ymgeiswyr hyn yn ystod y 5 mlynedd cyn eu cais digartref, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Fodd bynnag, mae llawer o achosion nid oedd y ffeiliau a adolygwyd yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am gyfeiriadau blaenorol ymgeiswyr, felly mae'n rhaid ystyried y ffigurau a ddangosir ar gyfer nifer y cyfeiriadau fel isafswm. Mae'r Tabl yn dangos bod sawl achos o symud yn gyffredin ar draws pob grŵp.

***Tabl 17. Nifer cyfeiriadau yn ystod y 5 mlynedd diwethaf ymgeiswyr digartefedd oedd wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol am lai na 5 mlynedd, yn ôl hyd cysylltiad â'r ardal.*** *Maint y boblogaeth282*

| Nifer y cyfeiriadau | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 8.4 | 16.2 | 12.3 | 12.8 |
| 2 | 29.5 | 31.6 | 35.1 | 31.6 |
| 3 | 26.3 | 23.1 | 17.5 | 23.1 |
| 4 | 22.1 | 15.3 | 19.3 | 18.4 |
| 5 | 8.4 | 6.9 | 5.3 | 7.1 |
| 6 | 1.1 | 3.1 | 5.3 | 2.8 |
| 7 | 4.2 | 1.5 | 1.7 | 2.5 |
| 8 | 0 | 1.5 | 1.7 | 1.1 |
| 9 | 0 | 0.8 | 0 | 0.4 |
| 11 | 0 | 0 | 1.7 | 0.4 |

Mae maint y boblogaeth yn y tabl uchod yn sylweddol lai na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r terfyn hyder 95%, ac felly mae'r tabl hwn yn ddangosol yn unig.

## Rhesymau dros Ddigartrefedd

5.21 Mae Tabl 18 yn dangos y rhesymau dros ddigartrefedd, yn ôl hyd cysylltiad â'r ardal. Mae'n dangos y canlynol:

- roedd ymgeiswyr sydd wedi byw yn y sir am fwy na 3 blynedd yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny ddaeth yn ddigartref oherwydd nad oedd eu rhieni yn fodlon darparu cartref iddynt, tor-perthynas nad oedd yn dreisgar, a dyledion morgais;
- roedd y rheiny oedd wedi byw yn y sir am lai na 3 blynedd yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny ddaeth yn ddigartref oherwydd colli llety a rentir yn breifat neu lety clwm, ac oherwydd nad oedd perthnasau eraill neu ffrindiau yn fodlon darparu cartref iddynt bellach;
- roedd y rheiny nad oes ganddynt gysylltiad â'r awdurdod yn cynnwys y canrannau uchaf o ymgeiswyr oedd yn nodi trais domestig a thrais neu aflonyddu ar sail hil fel rhesymau dros wneud cais ar sail digartrefedd.

***Tabl 18. Rheswm dros ddigartrefedd, yn ôl hyd cysylltiad â'r ardal.*** *Maint y boblogaeth 757*

| Rhesymau dros ddigartrefedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|
| Rhiant ddim yn fodlon darparu cartref bellach | 21.9 | 20.4 | 5.7 | 19.9 |
| Perthynas arall neu ffrind ddim yn fodlon darparu cartref bellach | 12.8 | 14.3 | 10.0 | 12.8 |
| Chwalu perthynas gyda phartner - treisgar | 5.0 | 4.8 | 30.0 | 7.3 |
| Chwalu perthynas gyda phartner – heb fod yn dreisgar | 6.9 | 3.4 | 2.9 | 5.8 |
| Trais neu aflonyddu ar sail hil | 1.1 | 0.7 | 4.3 | 1.3 |
| Dyledion morgais | 3.7 | 0.0 | 0.0 | 2.6 |
| Dyledion rhent – awdurdod lleol | 0.7 | 0.0 | 0.0 | 0.5 |
| Dyledion rhent – cymdeithas tai | 0.6 | 0.0 | 0.0 | 0.6 |
| Dyledion rhent – rhentu preifat | 4.6 | 5.4 | 1.4 | 4.5 |
| Colli llety rhent a chlwm preifat | 8.0 | 11.6 | 7.1 | 8.6 |
| Gadael sefydliad neu ofal | 8.7 | 8.2 | 5.7 | 8.4 |
| Arall (brys, tramor, cysgu allan, hostel) | 26.1 | 31.3 | 32.9 | 27.8 |

## Penderfyniadau a wnaed gan yr awdurdod lleol

5.22 Mae Tabl 19 yn dangos y penderfyniadau a roddwyd i ymgeiswyr sy'n gwneud cais oherwydd eu bod yn ddigartref, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd penderfyniadau a wnaed am ymgeiswyr oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd yn cynnwys y canrannau uwch o'r rheiny y cafwyd eu bod yn 'gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol, â blaenoriaeth o ran angen a gyda chysylltiad lleol';
- roedd y rheiny oedd wedi byw yn yr ardal am lai na 3 blynedd yn cynnwys y canran uchaf o'r rheiny oedd yn 'anghymwys ar gyfer cymorth' ac yn 'ddigartref yn fwriadol';

- roedd penderfyniadau a wnaed ar y rheiny heb gysylltiad â'r ardal yn cynnwys y canrannau uchaf y cafwyd 'nad oeddent yn ddigartref' ac 'yn ddigartref ond heb fod â blaenoriaeth o ran angen'.

***Tabl 19. Penderfyniad a wnaed mewn perthynas ag ymgeiswyr digartrefedd, yn ôl hyd cysylltiad â'r ardal.*** *Maint y boblogaeth 741*

| Penderfyniad | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|
| Anghymwys ar gyfer cymorth | 0.0 | 2.1 | 1.5 | 0.5 |
| Cymwys, nid yn ddigartref | 21.1 | 20.7 | 26.2 | 21.5 |
| Cymwys, digartref – heb fod â blaenoriaeth o ran angen | 19.8 | 20.7 | 23.1 | 20.4 |
| Cymwys, yn ddigartref yn fwriadol, â blaenoriaeth o ran angen | 14.1 | 15.9 | 10.8 | 13.8 |
| Cymwys, yn ddigartref yn anfwriadol, â blaenoriaeth o ran angen | 44.6 | 38.6 | 27.7 | 42.2 |
| Nifer yr ymgeiswyr ym mhob grŵp | 531 | 145 | 65 | 741 |

5.23 Cafwyd bod 74 (23.8%) o'r 311 o ymgeiswyr y cafwyd eu bod yn 'gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol, â blaenoriaeth o ran angen a gyda chysylltiad lleol' yn fudwyr diweddar.

**Tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau**

5.24 Ceisiodd yr astudiaeth sefydlu hefyd a oedd ffeiliau digartrefedd yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad a wnaed mewn perthynas â'r canlynol:

- a oedd yr ymgeisydd yn gymwys;
- a oedd yr ymgeisydd yn ddigartref neu'n cael eu bygwth â digartrefedd;
- a oedd gan yr ymgeisydd flaenoriaeth o ran angen;
- a oedd yr ymgeisydd yn ddigartref yn fwriadol;
- a oedd gan ymgeisydd gysylltiad lleol.

5.25 Dangosodd y canlyniadau:

- yn 39.5% o'r ffeiliau nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr ymgeisydd yn gymwys i dderbyn gwasanaethau digartefedd;

- yn 26.8% o'r ffeiliau nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad a wnaed o safbwynt digartrefedd neu'r bygythiad o ddigartrefedd;
- yn 30.9% o'r ffeiliau nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad a wnaed yn nhermau a oedd yr ymgeisydd â blaenoriaeth o ran angen;
- yn 45.9% o'r ffeiliau nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad a wnaed yn nhermau a oedd yr ymgeisydd yn ddigartref yn fwriadol;
- yn 51.5% o'r ffeiliau nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad a wnaed yn nhermau cysylltiad yr ymgeisydd â'r awdurdod lleol.

5.26 Fodd bynnag, ym mhob un o'r chwe awdurdod, roedd arferion mewn perthynas â chasglu tystiolaeth wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd ffeiliau ar ymgeiswyr mwy diweddar felly'n cynnwys llawer mwy o dystiolaeth na ffeiliau o flynyddoedd cynharach y sampl. Mae Tabl 20 yn dangos y gwelliant graddol mewn casglu tystiolaeth yn y 'chwe sir' dros dair blynedd yr astudiaeth.

***Tabl 20. Ansawdd casglu tystiolaeth dros y blynyddoedd 2005-06 hyd 2007-08***

| | 2005-06 | | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Presenoldeb tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau** | Ie | Na | Ie | Na | Ie | Na |
| **Cymhwysedd** | 58.7% | 41.3% | 57.3% | 42.7% | 64.8% | 35.2% |
| **Digartrefedd** | 71.2% | 28.8% | 69.4% | 30.6% | 78.1% | 21.9% |
| **Blaenoriaeth o ran Angen** | 58.3% | 41.7% | 73.3% | 26.7% | 76% | 24% |
| **Bwriad** | 41.3% | 58.7% | 58.6% | 41.4% | 62.4% | 37.6% |
| **Cysylltiad Lleol** | 40.2% | 59.8% | 51.7% | 48.3% | 54% | 46% |
| **Penderfyniad wedi'i gymeradwyo gan Uwch Swyddog** | 13.3% | 86.7% | 9.5% | 90.5% | 13.9% | 86.1% |

### Adolygiadau ac apeliadau

5.27 Cofnodwyd gwybodaeth hefyd ar:
- a geisiodd yr ymgeisydd adolygiad o benderfyniad yr awdurdod lleol;
- os felly, canlyniad yr adolygiad hwnnw;
- a oedd yr ymgeisydd, yn dilyn cwblhau'r broses adolygu, wedi apelio yn erbyn penderfyniad yr adolygiad;
- os felly, canlyniad yr apêl honno.

5.28 Gofynnodd gyfanswm o 40 o ymgeiswyr am adolygiad o benderfyniad yr awdurdod lleol. Mae Tabl 21 yn dangos canlyniad y broses adolygu, yn ôl hyd y cysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn dangos bod mudwyr diweddar yn fwy llwyddiannus wrth gael y penderfyniad gwreiddiol wedi'i wyrdroi nac ymgeiswyr oedd â chysylltiad mwy hirsefydlog â'r ardal.

*Tabl 21. Ymgeiswyr yn gwneud cais am adolygu'r penderfyniad a wnaed mewn perthynas â digartrefedd, yn ôl hyd y cysylltiad â'r ardal.*

| Penderfyniad | Nifer yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | Nifer yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | Nifer yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | Nifer yr holl ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|
| Ymgeiswyr yn gwneud cais am adolygiad | 28 | 8 | 4 | 40 |
| Penderfyniad gwreiddiol yn cael ei wyrdroi o ganlyniad i'r adolygiad | 8 | 4 | 2 | 14 |
| Penderfyniad gwreiddiol yn cael ei gefnogi o ganlyniad i'r adolygiad | 20 | 4 | 2 | 26 |

Mae maint y boblogaeth yn y tabl uchod yn sylweddol lai na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r terfyn hyder 95%, ac felly mae'r tabl hwn yn ddangosol yn unig.

5.29 Dim ond un ymgeisydd, nad oedd ganddo gysylltiad â'r ardal, a geisiodd apelio yn erbyn y penderfyniad yn dilyn casgliad y broses adolygu. Yn yr achos hwn penderfyniad yr apêl oedd cefnogi'r penderfyniad gwreiddiol a wnaed gan yr awdurdod lleol.

**Cymeradwyo**

5.30 Yn ogystal, ceisiodd yr astudiaeth sefydlu a oedd penderfyniadau a wnaed ar ddigartrefedd wedi cael eu cymeradwyo gan uwch swyddog. Yn 87.6% o achosion, nid oedd unrhyw dystiolaeth ar ffeil i awgrymu bod hyn wedi cael ei wneud. Mae Tabl 20 yn dangos bod gwelliant bach wedi bod yng nghyfran y penderfyniadau a gymeradwywyd gan uwch swyddog dros dair blynedd yr astudiaeth, ond erys angen sylweddol i wella hyn.

**Amser a dreuliwyd mewn llety dros dro**

5.31 Ceisiodd yr ymchwilwyr sefydlu pa gyfnod o amser y treuliodd ymgeiswyr mewn llety a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion nid oedd y ffeiliau a adolygwyd yn cynnwys gwybodaeth ar a oedd yr aelwyd wedi'i gosod mewn llety dros dro ai peidio, neu ddyddiadau mynd i mewn i lety dros dro neu ei adael. Dangosodd ffeiliau bod cyfanswm o 278 o ymgeiswyr wedi'u gosod mewn llety dros dro, ond rhaid ystyried mai isafswm nifer yw hwn.

5.32 Mae Tabl 22 yn dangos yr wybodaeth sydd ar gael o'r ffeiliau am y cyfnod o amser y treuliodd ymgeiswyr mewn llety dros dro a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd ymgeiswyr oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd yn cynnwys y canrannau uchaf o aelwydydd oedd wedi treulio 5-26 o wythnosau mewn llety dros dro;
- roedd y rheiny nad oedd ganddynt gysylltiad â'r awdurdod yn cynnwys y canran uchaf o aelwydydd oedd wedi treulio llai na 5 wythnos, a mwy na 27 wythnos, mewn llety dros dro.

***Tabl 22. Y cyfnod o amser yr oedd aelwydydd digartref yn treulio mewn llety dros dro a ddarparwyd gan yr awdurdod, yn ôl hyd y cysylltiad â'r ardal.*** *Maint y boblogaeth 278*

| Amser a dreuliwyd mewn llety dros dro | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|
| **Llai na 5 wythnos** | 36.8 | 45.3 | 54.2 | 38.8 |
| **5 - 12 wythnos** | 34.3 | 34.0 | 20.8 | 33.2 |
| **13 - 26 wythnos** | 19.4 | 13.2 | 8.3 | 17.8 |
| **27 - 52 wythnos** | 5.0 | 3.8 | 12.5 | 5.9 |
| **Mwy na 52 o wythnosau** | 4.5 | 3.8 | 4.2 | 4.2 |

Mae maint y boblogaeth yn y tabl uchod yn sylweddol lai na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r terfyn hyder 95%, ac felly mae'r tabl hwn yn ddangosol yn unig.

### Camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol

5.33 Mae Tabl 23 yn dangos y camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â cheisiadau digartrefedd, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd ymgeiswyr oedd wedi byw yn y sir am fwy na 3 blynedd yn cynnwys y canran uchaf o aelwydydd yr oedd yr awdurdod wedi sicrhau llety awdurdod lleol neu breifat iddynt, a'r rheiny oedd wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau lleol, a lle roedd ymgeiswyr yn parhau i fod mewn llety dros dro;
- roedd y rheiny oedd wedi byw yn y sir am lai na 3 blynedd yn cynnwys y canran uchaf o aelwydydd oedd wedi derbyn cymorth er mwyn sicrhau eu llety eu hunain.
- roedd y rheiny nad oedd ganddynt gysylltiad â'r awdurdod yn cynnwys y canran uchaf o'r rheiny yr oedd yr awdurdod wedi sicrhau llety cymdeithas tai iddynt, y rheiny a gyfeiriwyd at awdurdod arall neu y rhoddwyd cyngor tai iddynt, a'r rheiny lle nad oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd.

***Tabl 23. Camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag ymgeiswyr digartrefedd, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal.*** *Maint y boblogaeth 688*

| Camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sicrhawyd llety cymdeithas tai** | 7.2 | 7.4 | 7.8 | 7.3 |
| **Sicrhawyd llety awdurdod lleol** | 21.7 | 20.6 | 12.5 | 20.7 |
| **Sicrhawyd llety sector preifat** | 6.4 | 4.4 | 4.7 | 5.9 |
| **Darparwyd cymorth i sicrhau eu llety eu hunain** | 4.4 | 5.9 | 1.6 | 4.6 |
| **Cyfeiriwyd at asiantaeth arall** | 7.6 | 6.6 | 3.1 | 7.0 |
| **Cyfeiriwyd at awdurdod lleol arall** | 0.4 | 0.0 | 10.9 | 1.3 |
| **Cyfeiriwyd at Wasanaethau Cymdeithasol** | 0.8 | 0.7 | 0.0 | 0.7 |
| **Yn parhau mewn llety dros dro** | 2.2 | 0.0 | 0.0 | 1.5 |
| **Darparwyd cyngor am dai** | 45.0 | 47.8 | 51.6 | 47.3 |
| **Dim camau** | 2.2 | 6.6 | 7.8 | 3.6 |

Mae maint y boblogaeth yn y tabl uchod yn llai na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r terfyn hyder 95%, ac felly mae'r tabl hwn yn ddangosol yn unig.

.

## Casgliadau

5.34 Y canlynol yw'r casgliadau allweddol sy'n deillio o adran hon yr adroddiad:

- mae cyfran sylweddol o geisiadau digartrefedd a wnaed i'r 'chwe sir' (28.7%) gan fudwyr diweddar. Roedd 9.3% o'r ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal ac roedd 19.4% arall wedi byw yn yr ardal am lai na 3 blynedd;

- yn gyfrannol roedd mwy o aelwydydd â phlant dibynnol a llai o aelwydydd person sengl ymysg ymgeiswyr digartref oedd yn fudwyr diweddar;

- mae ardaloedd awdurdodau lleol sy'n cynnwys 'trefi glan môr cyfnod Fictoraidd' yn profi lefel arbennig o uchel o geisiadau gan fudwyr diweddar;

- mae ardaloedd awdurdod lleol sy'n cynnwys mwy nag un lloches trais domestig yn derbyn cyfradd uwch o geisiadau gan y rheiny nad oes ganddynt gysylltiad â'r ardal;

- o’r 71 o ymgeiswyr heb gysylltiad â’r ardal, cafwyd nad oedd 17 (23%) yn ddigartref. Mae hon yn gyfran uwch na’r holl grwpiau eraill, gan awgrymu bod cyfran fach yn gor-ddweud eu hamgylchiadau. Mewn 2 o’r ‘chwe sir’ dywedodd swyddogion fod gweithgarwch digartref tymhorol yn ymwneud â phobl yn cyflwyno’u hunain yn ddyfaliadol fel pobl ddigartref, fel ffordd o sicrhau tenantiaeth tai cymdeithasol mewn ardal fwy dymunol. Er gwaethaf y niferoedd bach bydd hyn fodd bynnag yn cynyddu’r pwysau ar dimau digartrefedd yn y ddwy sir, y byddant wedi derbyn nifer uwch nag arfer o achosion i’w harchwilio fydd yn cynnwys cyfran o achosion o’r tu allan i’r ardal, sy’n fwy problematig ac yn cymryd mwy o amser i’w harchwilio.

## 6 Gosodiadau yn y 'chwe sir'

### Cyflwyniad

6.1 Bydd adran hon yr adroddiad yn darparu manylion y canlynol:

- yr ymagwedd tuag at gasglu gwybodaeth am y sampl o achosion gosodiadau a adolygwyd yn yr astudiaeth hon;
- graddau'r galw gan fudwyr diweddar[20] am osodiadau yn y 'chwe sir';
- y canlyniadau ar gyfer mudwyr diweddar o safbwynt gosodiadau;
- nodweddion mudwyr diweddar y mae tai cymdeithasol yn cael eu gosod iddynt, o'u cymharu ag ymgeiswyr lleol llwyddiannus.

### Ymagwedd at waith maes

6.2 Roedd cam gwaith maes y prosiect yn cynnwys dadansoddi nifer o ffeiliau gosodiadau a ddewiswyd ar hap o'r blynyddoedd ariannol 2005-06, 2006-07 a 2007-08 o bob un o'r awdurdodau lleol yn ardal y 'chwe sir'. Ymgymerwyd â'r gwaith maes rhwng Chwefror a Mehefin 2009.

6.3 Pennwyd nifer y ffeiliau gosodiadau a ddewiswyd ar hap ym mhob un o'r 'chwe sir' gan yr angen i samplo sampl ystadegol arwyddocaol ar draws pob un o'r 'chwe sir'.

6.4 Dewiswyd y sampl ar sail yr angen i gyflawni 95% hyder plws neu minws 7.5% ar draws y 'chwe sir'. O'r cyfanswm nifer o 5,144 o osodiadau a wnaed yn ardal y 'chwe sir' (naill ai'n uniongyrchol gan awdurdod lleol, neu gan gymdeithas tai o ganlyniad i enwebiad gan awdurdod lleol) yn ystod ffocws tair blynedd yr astudiaeth, maint gofynnol y sampl oedd 889.

6.5 Pennwyd y sampl ym mhob un o'r siroedd ar sail pro rata yn ôl nifer y gosodiadau a wnaed ym mhob sir yn ystod ffocws tair blynedd yr astudiaeth. Mae Tabl 24 yn dangos cyfanswm nifer y gosodiadau a wnaed (naill ai'n uniongyrchol gan awdurdod lleol, neu gan gymdeithas tai o ganlyniad i enwebiad gan gymdeithas tai) ym mhob sir yn ystod y cyfnod hwn, maint y sampl yr oedd yr ymchwilwyr yn ceisio'i gyflawni, a nifer y ffeiliau a adolygwyd ym mhob ardal.

***Tabl 24. Gosodiadau yn y chwe sir yn ystod y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08 a maint gofynnol y sampl ym mhob awdurdod lleol.***

[20] Defnyddir y term 'mudwr diweddar' i ddisgrifio person sydd wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol ers 3 mlynedd neu lai.

| Awdurdod Lleol | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 | Cyfanswm 3 blynedd | Maint sampl gofynnol | Sampl a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 215 | 235 | 252 | 702 | 144 | 146 |
| Gwynedd | 341 | 348 | 349 | 1,038 | 154 | 165 |
| Conwy | 294 | 270 | 267 | 831 | 151 | 151 |
| Sir Ddinbych | 228 | 206 | 246 | 680 | 141 | 141 |
| Sir y Fflint | 436 | 558 | 346 | 1,340 | 158 | 159 |
| Ceredigion | 192 | 170 | 191 | 553 | 141 | 145 |
| **Cyfanswm** | | | | **5,144** | **889** | **907** |

6.6 Cyn mynd i'r safleoedd, gofynnodd yr ymchwilwyr am fanylion gan bob un o'r awdurdodau lleol ar ffurf rhestr ddi-enw o'r holl aelwydydd yn y cyfnod tair blynedd yr oeddent naill ai wedi derbyn tŷ'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu gan gymdeithas tai yn dilyn enwebiad gan yr awdurdod lleol. Dewisodd yr ymchwilwyr y nifer priodol o achosion gan ddefnyddio rhaglen cynhyrchu rhifau ar hap. Yna sicrhaodd swyddogion cynghorau fod y ffeiliau a ddewiswyd ar gael i'w harolygu yn ystod cam gwaith maes y prosiect. Mewn dau awdurdod, cafwyd anawsterau yn cael mynediad i rai o'r ffeiliau a ddewiswyd (o ganlyniad i broblemau archifo, ac ati). Yn yr achosion hyn, dewisodd yr ymchwilwyr ffeiliau eraill a ddewiswyd ar hap o'r blynyddoedd perthnasol. Mewn un awdurdod, nid oedd yn bosib cael mynediad i ffeiliau'r rheiny yr oeddent wedi derbyn tŷ gan gymdeithas tai yn dilyn enwebiad gan awdurdod lleol.

6.7 Wrth adolygu ffeiliau, sefydlodd yr ymchwilwyr y canlynol:

- hyd cysylltiad yr ymgeisydd â'r sir;
- os nad oedd ganddynt gysylltiad, y sir yr oeddent yn tarddu ohoni;
- math aelwyd yr ymgeisydd;
- oed pennaeth yr aelwyd;
- amgylchiadau tai yr aelwyd ar adeg eu cais;
- a oedd yr ymgeisydd yn byw mewn tref glan môr ar adeg eu cais;
- os oedd cysylltiad yr ymgeisydd â'r sir yn llai na 5 mlynedd, nifer y symudiadau a wnaed yn ystod y 5 mlynedd flaenorol;
- lefel y flaenoriaeth a roddir i'r ymgeisydd (uchel, canolig neu isel);
- y landlord a roddodd dŷ i'r ymgeisydd (awdurdod lleol neu gymdeithas tai);
- y math o dŷ a osodwyd i'r ymgeisydd;
- math y setliad y rhoddwyd tŷ i'r ymgeisydd ynddo (tref glan môr, cymuned wledig neu dref).

6.8 Roedd gallu'r ymchwilwyr i gasglu'r holl ddata gofynnol yn dibynnu ar ansawdd yr wybodaeth a gasglwyd gan yr awdurdod ar yr adeg y gwnaed y cais am dai, a'r ffordd y cafodd ei storio. Mewn rhai achosion nid oedd yr ymchwilwyr wedi gallu casglu'r wybodaeth ofynnol. Yn y tablau isod, cyfeirir at faint y boblogaeth y tynnwyd yr wybodaeth ohoni.

6.9 Gan ddefnyddio gliniaduron, mewnosododd yr ymchwilwyr y data yn uniongyrchol i gronfa ddata Microsoft Office Access, a ddefnyddiwyd i ddadansoddi'r sampl ar lefel sirol a 'chwe sirol'.

### Dadansoddiad o ddata gosodiadau

6.10 Mae'r adran hon yn darparu canfyddiadau allweddol o'r dadansoddiad o ddata gosodiadau yn ardal y 'chwe sir' yn ystod y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08.

### Gosodiadau a mudwyr diweddar

6.11 Mae Tabl 25 yn dangos y tenantiaid newydd ym mhob un o'r 'chwe sir' yn ôl hyd eu cysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol yr oeddent wedi derbyn tŷ ynddi. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- o fewn y 'chwe sir', gwnaed 4.3% (yn amrywio mewn ystod rhwng siroedd o 1.2% i 10.3%) o osodiadau i denantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal ar adeg eu cais am dai
- gwnaed 6.4% arall (mewn ystod o 4.2% i 9.0%) o osodiadau i denantiaid a oedd wedi byw yn yr ardal am lai na 3 blynedd ar adeg eu cais am dai
- gwnaed cyfanswm o 10.7% o osodiadau (mewn ystod o 6.0% i 19.3%) i denantiaid newydd y gellir eu disgrifio fel mudwyr diweddar (naill ai heb gysylltiad â'r sir neu eu bod wedi byw yn y sir am lai na thair blynedd ar adeg eu cais am dai).

***Tabl 25. Gosodiadau i fudwyr diweddar ym mhob un o'r chwe sir yn ystod y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08.*** *Maint y boblogaeth 907*

| Awdurdod Lleol | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % yr ymgeiswyr a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % yr ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal |
|---|---|---|---|
| **Sir 1** | 93.1 | 4.2 | 2.7 |
| **Sir 2** | 80.7 | 9.0 | 10.3 |
| **Sir 3** | 86.8 | 7.9 | 5.3 |
| **Sir 4** | 93.0 | 4.2 | 2.8 |
| **Sir 5** | 87.4 | 8.8 | 3.8 |
| **Sir 6** | 94.0 | 4.8 | 1.2 |
| **Cyfanswm** | 89.3 | 6.4 | 4.3 |

6.12 Mae'n amlwg bod dau o'r tri awdurdod lleol sy'n cynnwys 'trefi glan môr Fictoraidd' traddodiadol wedi gwneud y gyfradd uchaf o osodiadau i denantiaid newydd oedd yn fudwyr diweddar.

6.13 Nid yw'n syndod bod yr awdurdodau hynny sy'n rhoi mwy o bwysigrwydd i gysylltiad lleol yn eu cynlluniau dyrannu yn gwneud llai o osodiadau i fudwyr diweddar na'r awdurdodau hynny sy'n rhoi llai o bwysigrwydd i gysylltiad lleol.

## Ardaloedd tarddiad

6.14 Mae Tabl 26 yn dangos, i denantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â’r sir pan roddwyd tŷ iddynt, y rhanbarthau yr oeddent yn tarddu ohonynt. Roedd cyfran sylweddol (42.8%) yn tarddu o fannau eraill yng Ngogledd Cymru

***Tabl 26. Tarddiadau tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â’r awdurdod lleol lle y cawsant eu hailgartrefu***

| Rhanbarth lle roedd gan yr ymgeisydd gysylltiad | Nifer |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 15 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 6 |
| De Ddwyrain Lloegr | 5 |
| Gogledd Orllewin Lloegr | 3 |
| De Orllewin Cymru | 2 |
| De Ddwyrain Cymru | 1 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 1 |
| Dwyrain Anglia | 1 |
| Yr Alban | 1 |

## Mathau o aelwydydd

6.15 Mae Tabl 27 yn dangos mathau o aelwydydd tenantiaid newydd yn y ‘chwe sir’, yn ôl hyd eu cysylltiad â’r ardal. Mae hyn yn dangos bod mwy o aelwydydd person sengl yn gyfrannol ymysg tenantiaid newydd oedd yn fudwyr diweddar, a llai yn gyfrannol o deuluoedd â phlant dibynnol a chyplau di-blant ymysg tenantiaid newydd oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd.

***Tabl 27. Tenantiaid newydd yn ôl math yr aelwyd a hyd y cysylltiad â’r ardal.*** *Maint y boblogaeth 882*

| Math yr Aelwyd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â’r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| Person sengl | 43.9 | 52.5 | 76.9 | 46.2 |
| Cwpl di-blant | 14.7 | 11.9 | 7.7 | 14.2 |
| Cwpl â phlant dibynnol | 18.4 | 13.6 | 2.6 | 17.1 |
| Rhiant unigol â phlant dibynnol | 22.0 | 22.1 | 12.8 | 21.5 |
| Aelwyd aml-oedolyn | 1.1 | 0.0 | 0.0 | 0.9 |

## Oed pennaeth yr aelwyd

6.16 Mae Tabl 28 yn dangos oed pennaeth yr aelwyd yr holl denantiaid newydd yn y 'chwe sir' yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd tenantiaid newydd oedd wedi byw yn y sir am fwy na 3 blynedd yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny o dan 30 oed;
- roedd y rheiny oedd wedi byw yn y sir am lai na 3 blynedd yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny rhwng 30-44 oed;
- roedd y rheiny heb unrhyw gysylltiad â'r sir yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny 45 oed ac hŷn, yn cynnwys canran sylweddol uwch o'r rheiny dros 65 oed.

***Tabl 28. Tenantiaid newydd yn ôl oed pennaeth yr aelwyd a hyd y cysylltiad â'r ardal.*** *Maint y boblogaeth 882*

| Oed Pennaeth yr Aelwyd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| 16 - 17 | 3.5 | 0.0 | 0.0 | 0.6 |
| 18 - 29 | 30.0 | 23.7 | 2.6 | 28.2 |
| 30 - 44 | 22.1 | 27.1 | 17.9 | 22.0 |
| 45 - 64 | 22.7 | 23.7 | 30.8 | 23.1 |
| 65+ | 24.6 | 25.4 | 48.7 | 26.3 |

**Amgylchiadau tai ar adeg y cais am dai**

6.17 Mae Tabl 29 yn dangos amgylchiadau tai tenantiaid newydd ar adeg eu cais am dai, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd ymgeiswyr oedd wedi byw yn y sir am fwy na 3 blynedd yn cynnwys y canrannau uchaf o'r rheiny oedd wedi bod yn byw gyda ffrindiau, oedd yn berchnogion preswyl, ac oedd yn denantiaid preifat;
- roedd y rheiny oedd wedi byw yn y sir am lai na 3 blynedd yn cynnwys y canrannau uchaf o'r rheiny oedd wedi bod yn byw mewn gwely a brecwast, parciau carafanau, hosteli neu lety dros dro arall (ac eithrio gwely a brecwast), neu gyda'u teulu;
- roedd y rheiny heb unrhyw gysylltiad â'r sir yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny yr oeddent wedi bod yn yr ysbyty, tenantiaid cymdeithasau tai neu rai heb do uwch eu pennau, a chanran sylweddol uwch o'r rheiny oedd wedi bod yn denantiaid awdurdodau lleol.

***Tabl 29. Amgylchiadau tai tenantiaid newydd ar adeg eu cais am dai, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal.*** *Maint poblogaeth 865*

| Amgylchiadau tai | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| **Gwely a brecwast** | 3.5 | 10.5 | 0.0 | 3.8 |
| **Parc carafanau** | 3.1 | 8.8 | 0.0 | 3.3 |
| **Ysbyty** | 0.7 | 0.0 | 2.6 | 0.7 |
| **Hostel/llety dros dro (ac eithrio gwely a brecwast)** | 7.5 | 22.8 | 15.4 | 9.2 |
| **Tenantiaeth cymdeithas tai** | 3.9 | 1.8 | 10.3 | 4.1 |
| **Byw gyda theulu** | 26.4 | 28.1 | 5.1 | 25.1 |
| **Byw gyda ffrindiau** | 3.3 | 1.8 | 0.0 | 2.9 |
| **Gofal yr awdurdod lleol** | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.1 |
| **Tenantiaeth awdurdod lleol** | 11.1 | 7.0 | 30.8 | 11.6 |
| **Arall** | 1.0 | 0.0 | 5.1 | 1.1 |
| **Perchennog preswyl** | 8.5 | 1.8 | 7.7 | 8.6 |
| **Carchar** | 0.0 | 0.0 | 2.6 | 0.1 |
| **Rhentu preifat** | 28.2 | 15.8 | 15.4 | 26.6 |
| **Heb do uwch eu pennau** | 2.1 | 1.8 | 5.1 | 2.1 |
| **Llety clwm** | 0.7 | 0.0 | 0.0 | 0.6 |

## Trefi glan môr

6.18 Ceisiodd yr astudiaeth sefydlu a oedd tenantiaid newydd yn byw mewn trefi glan môr ar adeg eu cais am lety. Mae Tabl 30 yn dangos y gyfran o denantiaid newydd sy'n byw mewn trefi glan môr, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos bod nifer sylweddol lai o denantiaid newydd heb unrhyw gysylltiad â'r ardal yn byw mewn trefi glan môr ar adeg eu cais am dŷ o'u cymharu â'r ddau grŵp arall.

***Tabl 30. Tenantiaid newydd yn byw mewn trefi glan môr ar adeg eu cais am lety, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal.*** *Maint y boblogaeth 876*

| Yn byw mewn tref glan môr ar adeg y cais | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| **Oeddent** | 30.0 | 29.3 | 10.5 | 28.4 |
| **Nac oeddent** | 70.0 | 70.7 | 89.5 | 71.6 |

6.19 Yn y tri awdurdod lleol sy'n cynnwys 'trefi glan môr cyfnod Fictoraidd', roedd cyfran y tenantiaid newydd oedd yn byw mewn tref glan môr ar adeg eu cais am dai yn amrywio o 34.2% i 46.5%.

### Nifer y cyfeiriadau yn ystod y 5 mlynedd diwethaf

6.20 Roedd gan 131 o denantiaid newydd nail ai ddim cysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol neu roeddent wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol am lai na 5 mlynedd. Mae Tabl 31 yn dangos nifer y cyfeiriadau y cafodd y tenantiaid hyn yn ystod y 5 mlynedd cyn eu cais am dai, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion nid oedd y ffeiliau a adolygwyd yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am gyfeiriadau blaenorol ymgeiswyr, felly mae'n rhaid ystyried y ffigurau a ddangosir fel isafswm. Mae'r Tabl yn dangos bod sawl symudiad yn gyffredin ar draws yr holl grwpiau.

***Tabl 31. Nifer cyfeiriadau yn y 5 mlynedd diwethaf tenantiaid newydd oedd wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol am lai na 5 mlynedd, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal*** *Maint y boblogaeth 131*

| Nifer y cyfeiriadau | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| **1** | 41.9 | 38.9 | 52.9 | 43.5 |
| **2** | 20.9 | 29.6 | 26.5 | 26.0 |
| **3** | 20.9 | 16.6 | 0 | 13.7 |
| **4** | 13.9 | 9.3 | 11.8 | 11.5 |
| **5** | 2.3 | 0 | 8.8 | 3.1 |
| **6** | 0 | 1.8 | 0 | 0.8 |
| **7** | 0 | 1.8 | 0 | 0.8 |
| **11** | 0 | 1.8 | 0 | 0.8 |

Mae maint y boblogaeth yn y tabl uchod yn sylweddol lai na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r terfyn hyder 95%, ac felly mae'r tabl hwn yn ddangosol yn unig.

### Blaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd

6.21 Ym mhob un o'r 'chwe sir' ceisiodd yr ymchwilwyr farn swyddogion ar lefel y pwyntiau y byddai'n awgrymu bod gan ymgeisydd flaenoriaeth uchel, ganolig neu isel. Yna gosodwyd pob tenant newydd yn y band priodol.

6.22 Mae Tabl 32 yn dangos lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd, yn ol hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos bod cyfran sylweddol iawn o denantiaid newydd heb gysylltiad â'r ardal wedi sicrhau eu cartrefi â lefel isel o flaenoriaeth.

***Tabl 32. Lefel y flaenoriaeth a roddwyd i ymgeiswyr ar gyfer tai, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal.*** *Maint poblogaeth 844*

| Lefel y flaenoriaeth | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr | % y tenantiaid newydd nad oedd | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|

| | ardal am fwy na 3 blynedd | ardal am 3 blynedd neu lai | ganddynt gysylltiad â'r ardal | |
|---|---|---|---|---|
| **Uchel** | 31.1 | 36.0 | 13.5 | 30.3 |
| **Canolig** | 43.9 | 40.0 | 16.2 | 42.1 |
| **Isel** | 25.1 | 38.0 | 70.3 | 27.6 |

6.23 Mae Tabl 33 yn dangos lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y gosodwyd llety iddynt yn y tri math o setliad a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth: trefi glan môr; cymunedau gwledig a threfi gwledig. Mae hyn yn dangos bod cyfran uwch o dai mewn trefi glan môr yn cael eu gosod i denantiaid newydd â blaenoriaeth uchel o'u cymharu â gosodiadau a wnaed mewn cymunedau gwledig a threfi gwledig.

***Tabl 33. Lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y gosodwyd llety iddynt yn y tri math o setliad.*** *Maint y boblogaeth 841*

| Lefel y flaenoriaeth | % y tenantiaid newydd y gosodwyd cartrefi iddynt mewn trefi glan môr | % y tenantiaid newydd y gosodwyd cartrefi iddynt mewn cymunedau gwledig | % y tenantiaid newydd y gosodwyd cartrefi iddynt mewn trefi gwledig |
|---|---|---|---|
| **Uchel** | 43.3 | 25.7 | 23.7 |
| **Canolig** | 28.7 | 45.1 | 50 |
| **Isel** | 27.9 | 29.1 | 23.3 |

6.24 Mae Tabl 34 yn dangos lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y gosodwyd llety iddynt mewn trefi glan môr, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos bod cyfran sylweddol uwch o denantiaid newydd oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd wedi derbyn tai â blaenoriaeth uchel na mudwyr diweddar.

***Tabl 34. Lefel y flaenoriaeth a roddir i denantiaid newydd y gosodwyd cartrefi iddynt mewn trefi glan môr, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal.*** *Maint poblogaeth 254*

| Lefel y flaenoriaeth | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| **Uchel** | 49.8 | 35.3 | 20.0 | 43.3 |
| **Canolig** | 33.2 | 23.5 | 10.0 | 28.7 |
| **Isel** | 27.8 | 41.2 | 70.0 | 28.0 |

Mae maint y boblogaeth yn y tabl uchod yn sylweddol lai na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r terfyn hyder 95%, ac felly mae'r tabl hwn yn ddangosol yn unig.

6.25 Mae Tabl 35 yn dangos lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y gosodwyd llety iddynt mewn cymunedau gwledig, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- derbyniodd cyfran sylweddol uwch o denantiaid newydd oedd wedi byw yn yr ardal am lai na 3 blynedd gartrefi â blaenoriaeth uchel
- derbyniodd fwyafrif helaeth y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal gartrefi er gwaetha'r ffaith fod ganddynt flaenoriaeth isel.

***Tabl 35. Lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y gosodwyd cartrefi iddynt mewn cymunedau gwledig, yn ôl hyd y cysylltiad â'r ardal.*** *Maint poblogaeth 254*

| Lefel y flaenoriaeth | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| **Uchel** | 25.2 | 42.9 | 11.1 | 25.7 |
| **Canolig** | 47.7 | 35.7 | 0.0 | 45.1 |
| **Isel** | 27.1 | 21.4 | 88.9 | 29.1 |

Mae maint y boblogaeth yn y tabl uchod yn sylweddol lai na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r terfyn hyder 95%, ac felly mae'r tabl hwn yn ddangosol yn unig.
.

6.26 Mae Tabl 36 yn dangos lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y gosodwyd llety iddynt mewn trefi gwledig, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd nifer sylweddol o denantiaid newydd yr oeddent naill ai wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd neu lai na 3 blynedd yn derbyn tai â blaenoriaeth ganolig
- roedd mwyafrif y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal wedi derbyn tai â blaenoriaeth isel.

***Tabl 36. Lefel y flaenoriaeth a roddwyd i denantiaid newydd y gosodwyd cartrefi iddynt mewn trefi gwledig, yn ôl hyd y cysylltiad â'r ardal.*** *Maint poblogaeth 350*

| Lefel y flaenoriaeth | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| **Uchel** | 24.4 | 24.0 | 11.1 | 23.7 |
| **Canolig** | 51.8 | 44.0 | 27.8 | 50.0 |
| **Isel** | 23.8 | 32.0 | 61.1 | 26.3 |

Mae maint y boblogaeth yn y tabl uchod yn sylweddol lai na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r terfyn hyder 95%, ac felly mae'r tabl hwn yn ddangosol yn unig.

### Llety ar osod gan landlordiaid

6.27 Mae Tabl 37 yn dangos gosodiadau a wnaed gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, yn ôl hyd cysylltiad tenantiaid newydd â'r ardal. Mae hyn yn dangos mai ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y tri grŵp.

***Tabl 37. Llety ar osod gan landlordiaid, yn ôl hyd cysylltiad tenantiaid newydd â'r ardal.*** *Maint poblogaeth 883*

| Math o landlord | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| **Cymdeithas tai** | 8.5 | 6.8 | 7.7 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 8.4 |
| **Awdurdod lleol** | 91.5 | 93.2 | 92.3 | 91.6 |

## Math o eiddo

6.28 Mae Tabl 38 yn dangos gosodiadau a wnaed i wahanol fathau o eiddo, yn ôl hyd cysylltiad tenantiaid newydd â'r ardal. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd ymgeiswyr oedd wedi byw yn y sir am fwy na 3 blynedd yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny y gosodwyd tai iddynt;
- roedd y rheiny oedd wedi byw yn y sir am lai na 3 blynedd yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny y gosodwyd byngalos, fflatiau a fflatiau deulawr iddynt;
- roedd y rheiny nad oedd ganddynt gysylltiad â'r sir yn cynnwys y ganran uchaf o'r rheiny y gosodwyd llety cysgodol iddynt.

***Tabl 38. Math y llety a osodwyd i denantiaid newydd, yn ôl hyd eu cysylltiad â'r ardal.*** *Maint y boblogaeth 883*

| Math o eiddo | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| **Byngalo** | 12.3 | 13.6 | 12.8 | 12.4 |
| **Fflat** | 30.8 | 39.0 | 38.5 | 31.7 |
| **Tŷ** | 33.9 | 20.3 | 12.8 | 32.0 |
| **Fflat deulawr** | 3.6 | 6.8 | 0.0 | 3.7 |
| **Llety cysgodol** | 19.4 | 20.3 | 35.9 | 20.2 |

## Gosod eiddo 'anodd eu gosod'

6.29 Pan gofnododd yr ymchwilwyr pob gosodiad, ceisiasant sefydlu a oedd y llety a osodwyd yn cael ei ystyried yn 'anodd ei osod' gan y landlord. Sefydlwyd hyn wrth i'r ymchwilwyr naill ai nodi a oedd yr eiddo wedi'i gynnig i nifer sylweddol o ymgeiswyr ac wedi cael ei wrthod, cyn cael ei gynnig i'r tenant newydd neu a oedd y landlord wedi mabwysiadu cynllun gosodiadau lleol i fynd i'r afael â galw isel. Mae'n debygol bod y ffigurau a ddangosir isod yn danamcangyfrif o gyfanswm nifer yr eiddo 'anodd eu gosod' a osodwyd yn ardal y 'chwe sir' yng nghyfnod yr astudiaeth.

6.30 O'r 907 o osodiadau a wnaed yn y 'chwe sir' roedd 95 (10.5%) o osodiadau yn eiddo 'anodd eu gosod'. Mae Tabl 39 yn dangos y mathau o eiddo a ddynodwyd fel rhai 'anodd eu gosod' fel cyfran o'r holl osodiadau o'r math hwnnw o eiddo. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd mwyafrif y fflatiau deulawr a osodwyd wedi'u gosod fel eiddo anodd eu gosod
- roedd cyfran sylweddol o gartrefi cysgodol a fflatiau wedi'u gosod fel rhai anodd eu gosod

***Tabl 39. Gosodiadau a wnaed i eiddo a ddynodwyd fel rhai anodd eu gosod yn ôl math yr eiddo.*** *Poblogaeth 95*

| Math yr eiddo | % yr eiddo a ddynodwyd fel rhai anodd eu gosod |
|---|---|
| **Byngalo** | 1.8 |
| **Fflat** | 10.9 |
| **Tŷ** | 4.3 |
| **Fflat deulawr** | 62.5 |
| **Llety cysgodol** | 14.7 |

Mae maint y boblogaeth yn y tabl uchod yn sylweddol lai na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r terfyn hyder 95%, ac felly mae'r tabl hwn yn ddangosol yn unig.

6.31 Mae Tabl 40 yn dangos cyfran y gosodiadau o eiddo 'anodd eu gosod' a osodwyd i denantiaid newydd, yn ôl hyd eu cysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn dangos y canlynol:

- roedd tenantiaid newydd oedd yn fudwyr diweddar yn fwy tebygol o gael eiddo wedi'u gosod iddynt oedd yn 'anodd eu gosod' na thenantiaid newydd oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd
- roedd mwy na chwarter o'r cartrefi a osodwyd i denantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal yn eiddo 'anodd eu gosod'.

***Tabl 40. Gosodiadau eiddo 'anodd eu gosod' i denantiaid newydd yn ôl hyd y cysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol fel cyfran o'r holl eiddo a osodwyd.*** *Poblogaeth 907*

| | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am fwy na 3 blynedd | % y tenantiaid newydd a oedd wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai | % y tenantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal | % yr holl denantiaid newydd |
|---|---|---|---|---|
| **Gosodiadau eiddo 'anodd eu gosod' fel cyfran o'r holl osodiadau i'r grŵp** | 9.1 | 15.3 | 25.6 | 10.5 |

## Casgliadau

6.34 Y canlynol yw'r casgliadau allweddol sy'n deillio o adran hon yr adroddiad:

- er gwaetha'r ffaith fod awdurdodau lleol, yn enwedig y rheiny sy'n cynnwys trefi glan môr cyfnod Fictoraidd, yn profi lefelau uchel o alw am dai gan fudwyr diweddar, dim ond 1 o bob 10 gosodiad yn y 'chwe sir' a wneir i fudwyr diweddar, a dim ond 4.3% o osodiadau a wneir i'r rheiny nad oes ganddynt gysylltiad â'r ardal;

- roedd cyfran sylweddol uwch o denantiaid newydd oedd yn fudwyr diweddar yn aelwydydd person sengl

- roedd cyfran sylweddol uwch o denantiaid newydd yr oedd ganddynt gysylltiad hirsefydlog ag ardal yr awdurdod lleol yn deuluoedd â phlant dibynnol

- roedd awdurdodau lleol oedd yn rhoi mwy o bwysigrwydd i gysylltiad lleol yn gosod llai o gartrefi i fudwyr lleol;

- roedd cyfran sylweddoli o'r cartrefi a osodwyd i fudwyr diweddar (mwy na thraean) naill ai mewn cynlluniau cysgodol neu mewn ffurfiau eraill ar lety a ddynodwyd at ddefnydd pobl hŷn (fflatiau a byngalos);

- gosodwyd cartrefi i gyfran sylweddol o denantiaid newydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal â lefel isel o flaenoriaeth a gosodwyd cartrefi 'anodd eu gosod' i fwy na chwarter ohonynt. Mae hyn yn awgrymu bod gosod eiddo 'anodd eu gosod' i fudwyr diweddar yn cael ei oddef o fewn y 'chwe sir';

- disgrifiodd rhanddeiliaid bryder cyhoeddus fod tai i deuluoedd yn cael eu gosod i 'bobl o'r tu allan'. Fodd bynnag, o'r 279 o dai a osodwyd yn ein sampl, dim ond 6% gafodd eu gosod i fudwyr diweddar.

## 7 Casgliadau

### Cyflwyniad

7.1 Mae adran hon yr adroddiad yn cysylltu'r canfyddiadau o'r canlynol:

- adolygiad o lenyddiaeth;
- cyd-destun y 'chwe sir';
- barn rhanddeiliaid lleol allweddol;
- dadansoddiad data digartrefedd; a
- dadansoddiad data gosodiadau;

i ddatblygu cyfres o gasgliadau mewn perthynas ag effaith mudo ar weithrediadau tai awdurdodau lleol yn ardal y 'chwe sir'.

### Graddau'r mudo i'r 'chwe sir'

7.2 Rhwng Ebrill 2005 a diwedd Mawrth 2008 amcangyfrifwyd bod poblogaeth ardal y 'chwe sir' wedi cynyddu o 6,300 o bersonau o ganlyniad i fewn-fudo. Mae'r cynnydd mudol net hwn wedi helpu i gynnal poblogaeth yr ardal, ond mae wedi helpu cuddio colli oedolion iau a chynnydd ym mhoblogaeth oedolion hŷn.

7.3 Cafwyd cynnydd sylweddol mewn mudo rhyngwladol i'r DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond nid yw gweithwyr mudol wedi dod i ardal y 'chwe sir' mewn niferoedd sylweddol, ac ymddengys mai cyfyngedig yw eu heffaith ar y farchnad dai ehangach.

7.4 Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gweithwyr mudol o'r tu allan i'r DU yn cyrchu tai cymdeithasol yn ardal y 'chwe sir'.

7.5 Mae mudo rhanbarthol i mewn i Gymru wledig o Loegr drefol wedi bod yn nodwedd gyson dros y degawdau diwethaf ac mae wedi chwarae rôl hollbwysig wrth gynnal poblogaeth Cymru wledig. Fel yr awgrymwyd gan Green (1992) mae ardal y 'chwe sir' yn ffurfio rhan o gefnwlad mudo ardaloedd metropolitan Lerpwl, Manceinion, Birmingham a De Ddwyrain Lloegr, a chefnogir hyn gan y dadansoddiad o ddata swyddogol ar fudo rhanbarthol.

7.6 Bydd mwyafrif helaeth yr aelwydydd sy'n mewn-fudo wedi symud o rannau maestrefol cyfoethog yr ardaloedd metropolitan hyn er mwyn symud o dai perchnogion preswyl drutach i rai cymharol ratach mewn cymunedau gwledig. Bydd y grwpiau hyn yn cael effaith ar y galw am dai cymdeithasol drwy gyfrannu at brisiau tai cynyddol a phrisio allan aelwydydd lleol mewn ardaloedd sydd yn gyffredinol yn rhai 'cyflogau isel'. Maent yn annhebygol o gyrchu'r sector tai cymdeithsol i ddechrau, ond bydd llawer ohonynt o oed ymddeol, ac efallai bydd rhai ymhen amser yn ceisio llety cysgodol

neu lety oedrannus arall yn ddiweddarach (er enghraifft pan fyddant yn dod yn fethedig, neu'n colli eu partneriaid).

7.7 Mae swm y llifoedd mudol o ardaloedd trefol i rai gwledig wedi'i gysylltu'n agos â'r cam yn y cylch economaidd a gwahaniaethau mewn prisiau tai rhwng ardaloedd trefol a gwledig. Mae felly'n debygol yn y cyfnod hwn o ddirwasgiad bydd graddau'r mewn-fudo i mewn i'r 'chwe sir' yn lleihau dros y tymor byr i'r tymor canolig. Gallai unrhyw ostyngiad mewn prisiau tai yn ardal y 'chwe sir' yn lleihau nifer yr aelwydydd sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol, wrth i dai ddod yn fwy fforddiadwy, ond gallai hefyd wneud yr ardal yn fwy deniadol i bobl drefol sy'n dymuno symud i dai rhatach.

7.8 Mae graddau'r mewn-fudo rhanbarthol i ardal y chwe sir yn anodd ei bennu. Nid yw ffigurau swyddogol, yn enwedig y Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion (PRDS) yn gwbl ddibynadwy, ac mae'n debygol eu bod yn tanamcangyfrif y mudo i'r ardal yn enwedig ymysg grwpiau penodol o'r boblogaeth.

7.9 Mae'n debygol bod y boblogaeth o fudwyr nad ydynt mewn cyflogaeth yn y 'chwe sir' ac yn benodol mewn 'trefi glan môr' wedi'i thangynrychioli'n sylweddol mewn ffigurau swyddogol, oherwydd bod y trefi hyn yn cynnwys cronfa gymharol fawr o osodiadau a rentir yn breifat a llety gwyliau y gall pobl nad ydynt mewn cyflogaeth yn eu cyrchu'n hawdd. Mae'n debygol bod y boblogaeth o fudwyr diweddar nad ydynt mewn cyflogaeth (fel yr awgrymwyd gan Beatty et al (2003), gweler paragraffau 2.62) yn ffurfio cyfran sylweddol o alw lleol am dai cymdeithasol, naill ai drwy'r llwybrau digartrefedd neu restri aros.

### Ceisiadau digartrefedd gan fudwyr lleol

7.10 Gostyngodd nifer yr ymholiadau digartrefedd a dderbyniwyd gan y 'chwe sir' yn ystod y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08, fel y gwnaeth nifer y penderfyniadau digartrefedd a wnaed, a nifer yr aelwydydd y cafwyd eu bod yn ddigartref ac yn gymwys am gymorth.

7.11 Mae'r holl awdurdodau lleol yn derbyn ceisiadau digartefedd gan bobl nad oes ganddynt gysylltiad â'r ardal, neu sydd wedi byw yn yr ardal am gyfnod cymharol fyr o amser. Derbyniwyd ar gyfer ymgeiswyr penodol (e.e. y rheiny sy'n dianc rhag trais ac aflonyddwch) bod y gofyniad i ddangos cysylltiad lleol yn cael ei hepgor. Roedd 7% o ymgeiswyr digartref ar draws y 'chwe sir' yn ddigartref o ganlyniad i drais domestig, nad oedd gan 37% ohonynt unrhyw gysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol yr oeddent wedi gwneud eu cais digartrefedd iddi. Ar yr un pryd, bydd ymgeiswyr wedi dianc rhag trais domestig yn ardal y 'chwe sir' a gwneud cais fel pobl ddigartref i awdurdodau lleol eraill.

7.12 Fodd bynnag, mae mudwyr diweddar yn gosod gofynion sylweddol ar wasanaethau digartrefedd yn y ‘chwe sir’. Ar draws y ‘chwe sir’, mae 28.7% o geisiadau digartref gan fudwyr diweddar, ac mae mudwyr diweddar yn cynrychioli 22.8% o’r aelwydydd y mae awdurdodau lleol yn derbyn y mae ganddynt gyfrifoldeb lawn i ddarparu llety iddynt. Fodd bynnag, gan nad oes astudiaeth gymaradwy wedi’i wneud mewn man arall yng Nghymru na’r DU, ni allwn ddweud a yw hyn yn cynrychioli mwy neu lai o alw o’i gymharu ag ardaloedd eraill y DU.

7.13 Nid yw’r lefel hon o alw yn gyson ar draws y ‘chwe sir’. Mae’r tri awdurdod sy’n cynnwys ‘trefi glan môr cyfnod Fictoraidd’ yn profi lefel uwch o alw gan ymgeiswyr digartefedd sy’n fudwyr diweddar, na’r awdurdodau eraill yn y ‘chwe sir’. Mewn un ardal mae mudwyr diweddar yn cynrychioli ychydig o dan draean o’r ymgeiswyr digartref.

7.14 Dilynodd y swyddogion â’r gwaith o archwilio a phennu ceisiadau digartrefedd ar draws y ‘chwe sir’ oll yr arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth gyflawni eu cyfrifoldebau. Mewn perthynas â chysylltiad lleol, dilynodd pob un y diffiniad gweithio a dderbyniwyd o ‘breswyliaeth arferol’ ar gyfer ymgeiswyr digartefedd, h.y. y dylent fod yn preswylio am 6 mis yn yr ardal yn ystod y 12 mis blaenorol, neu am heb fod yn llai na 3 blynedd yn ystod y cyfnod 5 mlynedd flaenorol.

7.15 Roedd yr holl randdeiliaid allweddol gafodd gyfweliad ar draws y ‘chwe sir’ yn teimlo bod 6 mis o breswyliaeth yn gyfnod rhy fyr i bennu cysylltiad lleol. Oherwydd y sector rhentu preifat cymharol fawr yn y ‘chwe sir’, ac argaeledd gosodiadau gwyliau y tu allan i’r tymor, awgrymwyd ei fod yn gymharol hawdd i rywun symud i mewn i’r ardal a, phan nad yw’r llety hwnnw ar gael bellach iddynt fyw ynddo, i wneud cais fel rhywun digartref a dangos cysylltiad lleol. Barn y mwyafrif oedd y dylai fod angen isafswm cyfnod preswylio o 12 mis i ddangos cysylltiad lleol.

7.16 Mae gan awdurdodau, er bod rhaid iddynt ystyried yr arweiniad, ychydig o ryddid i bennu yr hyn yw ‘preswyliad arferol’. Gellid awgrymu bod awdurdodau lleol, drwy fabwysiadu polisi hollgynhwysol i sefydlu cysylltiad lleol, yn ‘llyffetheirio eu disgresiwn’.

7.17 Mewn dau o’r tri awdurdod lleol sy’n cynnwys ‘trefi glan môr cyfnod Fictoraidd’, awgrymodd randdeiliaid eu bod yn profi mewnlifiad tymhorol o ymgeiswyr digartrefedd o’r tu allan i’r ardal. Cafwyd nad yw nifer o’r ymgeiswyr hyn yn ddigartref, ond eu bod yn ceisio defnyddio’r llwybr digartrefedd i gyrchu tai cymdeithasol yn yr hyn y maent yn tybio yw ardal fwy deniadol. Dangosodd dadansoddiad o ffeiliau digartrefedd fod hyn yn

fater bach ond gwirioneddol, oedd yn gosod mwy o bwysau ar wasanaethau digartrefedd yn yr awdurdodau lleol hyn.

**Gosodiadau i fudwyr diweddar**

7.18 Mae nifer y gosodiadau tai cymdeithasol yn ardal y 'chwe sir' wedi lleihau gan 2.8% dros y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08. Ystyriwyd bod y cyflenwad cyfyngedig i dai fforddiadwy gan ran fwyaf y rhanddeiliaid yn fater pwysicach nag effeithiau mewnfudo ar argaeledd tai cymdeithasol.

7.19 Roedd yr holl randdeiliaid yn cytuno bod problem ddifrifol mewn perthynas â thybiaeth gyhoeddus. Cyfeiriodd lawer at y tybiaeth fod gosodiadau yn mynd i 'bobl o'r tu allan' yn hytrach na 'phobl leol', ac yn teimlo bod hyn yn cael ei atgyfnerthu gan y prinder tai cymdeithasol. Roeddent oll yn cytuno mai'r mater hollbwysig yn ardal y 'chwe sir' oedd y cyflenwad cyfyngedig o osodiadau tai cymdeithasol.

7.20 Er bod mudwyr diweddar yn cynrychioli galw sylweddol ar wasanaethau digartrefedd yn y 'chwe sir', ymddengys eu bod yn cael llai o lwyddiant wrth gyrchu gosodiadau tai cymdeithasol yn yr ardal. Dim ond 4.3% o'r gosodiadau yn y 'chwe sir' a wnaed i ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal, a gwnaed 6% arall o osodiadau i'r rheiny yr oeddent wedi byw yn yr ardal am 3 blynedd neu lai.

7.21 Adroddodd rhan fwyaf yr awdurdodau fod tai i deuluoedd yn brin, yn bennaf oherwydd lleihad yn y stoc o ganlyniad i brynu a wnaed o dan yr 'Hawl i Brynu'. Oherwydd lefel uchel o alw am dai i deuluoedd, mae diddordeb mawr mewn cymunedau lleol yn i bwy y cânt eu dyrannu. Roedd llawer o'r ystadau yr oeddent yn flaenorol yn llwyr o fewn perchnogaeth y cyngor bellach yn ddaliadaeth gymysg yn bennaf, ac roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod hyn yn ychwanegu at y dybiaeth fod mudwyr yn byw mewn tai cymdeithasol, lle mewn gwirionedd roedd llawer o'r eiddo bellach o fewn perchnogaeth breifat neu'n cael eu rhentu'n breifat. Fodd bynnag mae dadansoddiad o ddata gosodiadau yn dangos mai dim ond 6% o dai i deuluoedd a osodwyd i fudwyr diweddar.

7.22 Mae darpariaethau cysylltiadau lleol yn nodwedd cynlluniau dyrannu pob un o'r 'chwe sir' ac yn chwarae rôl allweddol wrth rwystro mynediad i dai i fudwyr lleol, ond mae lefel y flaenoriaeth a roddir i bobl â chysylltiad lleol yn amrywio'n eithaf sylweddol. Mewn rhai achosion roedd y pwysigrwydd a roddwyd i gysylltiad lleol o bosib yn fwy na'r pwysigrwydd a roddwyd i grwpiau blaenoriaeth resymol. Yn ogystal, nid yw cynlluniau dyrannu pump o'r 'chwe sir', drwy ddarparu lefel o flaenoriaeth i'r holl ymgeiswyr â chysylltiad lleol, yn hytrach na'r rheiny y maent wedi derbyn blaenoriaeth resymol neu ychwanegol, wedi'u fframio o fewn ysbryd y ddeddfwriaeth sydd yn ei lle ar hyn o bryd.

7.23 Roedd aelodau etholedig mewn rhai awdurdodau yn credu bod cymdeithasau tai yn chwarae rôl allweddol wrth gynorthwyo mewn-fudo, drwy gynnig llety i niferoedd uwch o bobl o'r tu allan i'r ardal. Fodd bynnag, datgelodd dadansoddiad o'r data fod 9.5% o osodiadau cymdeithasau tai yn cael eu gwneud i fudwyr diweddar, o'u cymharu â 11.2% o'r gosodiadau awdurdodau lleol i fudwyr diweddar.

**Ystyr 'lleol'**

7.24 Roedd swyddogion yn teimlo mai effaith fach yn unig y mae mudwyr diweddar wedi'i chael ar ddyrannu tai cymdeithasol. Roeddent yn teimlo bod y darpariaethau cysylltiadau lleol o fewn eu cynlluniau dyrannu wedi cael y canlyniadau bwriedig, ond bod problem ddifrifol ynghylch tybiaeth gyhoeddus, a pryderon bod gosodiadau yn mynd i 'bobl o'r tu allan' yn hytrach na 'phobl leol'. Fodd bynnag, roedd llawer o aelodau etholedig o farn wahanol i swyddogion, ac yn teimlo bod effaith mudwyr diweddar wedi atal pobl leol rhag cyrchu tai cymdeithasol, yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg a diwylliant Cymreig, ac wedi dod â ffyrdd o fyw trefol i gymunedau gwledig.

7.25 Ym mwyafrif yr awdurdodau yn y 'chwe sir', roedd y gair 'lleol' yn golygu gwahanol bethau i wahanol grwpiau. I rai (yn cynnwys llawer o aelodau etholedig ac aelodau'r cyhoedd) mae 'lleol' yn golygu'r gymuned/tref/pentref penodol y maent yn byw ac yn gweithio ynddo. I eraill (yn enwedig swyddogion awdurdodau lleol), ac yn nhermau statudol, mae'n golygu ffin weinyddol yr awdurdod lleol.

7.26 I rai pobl, felly, mae 'rhywun o'r tu allan' yn rhywun sy'n dod o'r tu allan i'w cymuned/tref/pentref, ac mae hyn fwy na thebyg wedi cyfrannu at y tybiaeth bod gosodiadau yn mynd i 'bobl o'r tu allan' yn hytrach na 'phobl leol'.

7.27 Roedd nifer o gynlluniau dyrannu yn dyfarnu pwyntiau am breswylio yn y gymuned leol, yn ogystal â phwyntiau am breswylio yn ardal yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, efallai na fydd yr ymagwedd hon yn cynhyrchu'r deilliant bwriedig. Er enghraifft, gallai fod gan ymgeiswyr 'bwyntiau cymunedol' ar gyfer eu pentref eu hunain, ond efallai na fydd gan y pentref dai cymdeithasol addas, tra y gallai fod gan bentref ychydig filltiroedd i ffwrdd (nad oes ganddynt 'bwyntiau cymunedol' ar ei gyfer) dai sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

**Grwpiau a oddefir a'r rhai a oddefir i raddau llai**

7.28 Ymddengys bod awdurdodau lleol a chymunedau yn fwy goddefgar o rai grwpiau o 'bobl o'r tu allan' nag eraill.

7.29 Mae'n ddiddorol nodi, er gwaethaf rhanddeiliaid yn siarad am brinder gosodiadau tai cymdeithasol yn yr ardal, yr anawsterau a brofwyd gan awdurdodau lleol yn cwrdd ag anghenion tai lleol, y problemau a achoswyd gan osodiadau a wnaed i fudwyr diweddar, a'r pryderon am osodiadau yn cael eu gwneud i 'bobl o'r tu allan', ymddengys bod derbyniad sefydliadol a/neu gymunedol o osodiadau i gategorïau penodol o fewnfudwyr.

7.30 Yn benodol, ymddengys bod mwy o oddefgarwch tuag at aelwydydd mudwyr diweddar hŷn. Nid oedd gan lawer o aelwydydd o'r fath unrhyw gysylltiad â'r ardal lle y rhoddwyd tŷ iddynt, ac ymddengys bod llawer ohonynt â chartref digonol mewn ardaloedd eraill. Roedd mwy na thraean y cartrefi a osodwyd i fudwyr lleol naill ai mewn cynlluniau tai cysgodol neu ffurfiau ar lety a ddynodwyd i bobl hŷn. Gosodwyd mwyafrif helaeth y cartrefi hyn i fudwyr diweddar â lefel isel o flaenoriaeth, gan awgrymu eu bod yn 'anodd eu gosod', ac felly heb fod yn cyrraedd anghenion tai lleol. Mae hyn yn awgrymu bod awdurdodau wedi dewis datrys anawsterau y maent yn eu cael wrth osod y cartrefi hyn drwy eu gosod i aelwydydd mudol, yn hytrach na'u hailffurfweddu i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol.

7.31 Yn rhan fwyaf yr awdurdodau, yr unig ffordd y gall rhywun â chysylltiad lleol cyfyngedig sicrhau tai cymdeithasol yw drwy dderbyn pwyntiau digartrefedd. Gall tensiwn 'rhywun o'r tu allan' yn erbyn 'rhywun lleol' hefyd fod yn god ar gyfer diffyg dymuniad i osod llety i aelwydydd digartref (ai o'r tu mewn i'r sir neu o'r tu allan iddi). Ymddengys yr ystyrir bod aelwydydd digartref yn dod gyda hwy ystod o broblemau cysylltiedig (y'u gelwir yn 'ffyrdd o fyw trefol') a all greu anawsterau i gymunedau lleol bach. Er bod rhai achosion diamheuthyn amlwg lle mae hyn yn wir, nid oes unrhyw dystiolaeth ynghylch a yw hon yn broblem eang ei natur.

7.32 Awgrymodd lawer o swyddogion bod cyflwyno Gorchymyn Pobl Ddigartref (Anghenion Blaenoriaeth) (Cymru) 2001 (a estynnodd angen blaenoriaeth i grŵp ehangach o bobl yn cynnwys pobl ifanc a charcharorion oedd yn ddigartref ar gael eu rhyddhau o'r carchar) wedi creu anawsterau. Dywedodd rai nad oedd llety addas ganddynt ar gyfer y grwpiau hyn, a bod anawsterau rheoli wedi'u hachosi lle roedd grwpiau o'r fath yn derbyn llety mewn stoc tai anghenion cyffredinol yn y gymuned ehangach. Ymddengys bod problem benodol gyda charcharorion. Gallai fod gan lawer broblemau eraill fel camddefnyddio sylweddau neu salwch meddwl. Gallai lawer ail-droseddu, a chael y cyfle i ail-geisio fel person digartref bob tro y cânt eu rhyddhau. Adlewyrchwyd problemau o'r fath yng ngwaith Humphreys a Stirling (2008) a argymellasant y dylai'r pwyslais ar

ddigartrefedd fel llwybr mynediad i dai cymdeithasol i gyn-droseddwyr gael ei leihau drwy welliannau i wasanaethau i atal digartrefedd.

## 8 Argymhellion

### Cyflwyniad

8.1 Mae'r adran hon yn nodi argymhellion i nifer o gynulleidfaoedd targed:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- awdurdodau lleol;
- cymdeithasau tai.

### Llywodraeth Cynulliad Cymru

8.2 Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud y canlynol:

- cyhoeddi'r cod arweiniad diwygiedig ar ddyraniadau a digartrefedd fel mater brys;
- sicrhau bod y cod arweiniad diwygiedig yn dyblygu'r cynigion yn 'Fair and Flexible' [21] i sicrhau bod awdurdodau lleol:
  - yn gweithio gyda chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth am sut mae tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu a'u cynnwys yn natblygu cynlluniau dyrannu tai cymdeithasol;
  - yn cynhyrchu gwybodaeth am y cynllun dyrannu sy'n hawdd ei chyrchu a'i deall;
  - yn darparu cyngor i ymgeiswyr am weithdrefnau ar gyfer gwneud dyraniad a sut y caiff ymgeiswyr eu blaenoriaethu o dan y cynllun dyrannu;
  - cyhoeddi gwybodaeth am osodiadau, yn cynnwys hyd cysylltiadau tenantiaid newydd ag ardal yr awdurdod lleol;
- sicrhau bod yr arweiniad yn nodi'n glir sut mae cysylltiad lleol yn gweithredu yng nghyd-destun cynlluniau dyrannu awdurdodau lleol;
- sicrhau bod yr arweiniad yn darparu mwy o eglurder ar yr hyn a olygir gan 'breswyliad safonol' yng nghyd-destun gwneud penderfyniadau ar ddigartrefedd;
- hyrwyddo a chefnogi darparu hyfforddiant manwl i swyddogion digartrefedd (yn enwedig mewn awdurdodau lleol sy'n profi lefelau galw uchel gan fudwyr diweddar) ar yr hyn a olygir gan gysylltiad lleol;
- ystyried defnyddio ei phwerau i gynyddu diffiniad cysylltiad lleol o 6 mis i 12 mis, os bydd ymchwil pellach yn dangos nad yw'r newidiadau a gyflwynwyd yn yr arweiniad diwygiedig wedi cael yr effaith ddymunol.

### Awdurdodau Lleol

8.3 Mae ein hargymhellion i awdurdodau lleol yn ymwneud â thri maes gweithgarwch penodol:

- y swyddogaeth dai strategol;
- y swyddogaeth ddigartrefedd;

[21] Yr arweiniad statudol drafft ar ddyraniadau tai cymdeithasol ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf 2009

- y swyddogaeth ddyraniadau.

8.4 Yn nhermau eu rôl tai strategol, argymhellwn fod awdurdodau lleol yn mabwysiadu ymagwedd 'marchnad dai gyfan' i fynd i'r afael â'r diffyg tai fforddiadwy. Yn benodol rydym yn argymell y dylai awdurdodau:

- fabwysiadu ymagwedd strategol at ddyfodol llety galw isel (e.e. unedau cysgodol) i fwyafu ei ddefnydd a sicrhau ei fod yn cael ei ffurfweddu i ymateb i'r angen am dai;
- cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a sicrhau ei fod yn fforddiadwy at y dyfodol;
- gwella mynediad i dai o ansawdd da yn y sector rhentu preifat drwy ddatblygu cynlluniau gosodiadau cymdeithasol, hyrwyddo cynlluniau achredu landlordiaid a darparu cymhellion ariannol i landlordiaid preifat i ddod â'u heiddo i fyny i safon uchel;
- datblygu strategaethau cartrefi gwag er mwyn dod â chartrefi gwag yn ôl i mewn i ddefnydd yn y sector preifat;
- sicrhau bod polisïau ac arferion yn eu lle i fwyafu'r defnydd o dai cymdeithasol presennol, yn cynnwys gwella ar y cyfnodau y mae eiddo yn wag, a mentrau i ryddhau ffurfiau prin ar eiddo (e.e. cymhellion i annog rhyddhau cartrefi i deuluoedd nad ydynt yn llawn, darparu disgowntiau symudol i alluogi tenantiaid sy'n byw mewn mathau o dai prin i symud i mewn i dai perchnogion preswyl).

8.5 Yn nhermau eu swyddogaeth ddigartrefedd, argymhellwn fod awdurdodau lleol yn:

- dyrannu adnoddau staffio digonol, yn cynnwys staff rheoli goruchwyliol, i'r swyddogaeth ddigartrefedd i sicrhau bod ansawdd gwneud penderfyniadau a chofnodi yn parhau i wella;
- darparu digon o hyfforddiant manwl i staff sy'n ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau ar ddigartrefedd i sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a diogel;
- sicrhau bod staff sy'n ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau ar ddigartrefedd yn defnyddio'u disgresiwn yn llawn i ddiffinio 'cysylltiad lleol' wrth ystyried eu dyletswydd ddigartrefedd statudol.

8.6 Yn nhermau eu swyddogaethau dyrannu, argymhellwn fod awdurdodau lleol yn:

- adolygu eu polisïau dyraniadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r fframwaith ddeddfwriaeth bresennol, ac yn mynd i'r afael â meysydd lle ceir diffyg cydymffurfio fel mater brys;
- darparu arweiniad syml i ddyrannu tai cymdeithasol i'r holl ymgeiswyr am dai, gan egluro sut mae landlordiaid yn blaenoriaethu rhwng gwahanol grwpiau o ymgeiswyr;
- gweithio'n agos â phartneriaid cymdeithasau tai i sicrhau bod trefniadau enwebu priodol yn eu lle ac y cydymffurfir â hwy, a bod deilliannau yn cael eu monitro;

- ystyried sefydlu cofrestri tai cyffredin gyda phartneriaid cymdeithasau tai, os nad yw'r rhain yn eu lle eisoes;
- ystyried sefydlu cynlluniau dyrannu cyffredin gyda chymdeithasau tai partner, fel ffordd o symleiddio'r broses ddyraniadau i ymgeiswyr;
- gweithio gyda phartneriaid cymdeithasau tai i sefydlu deilliannau gosodiadau ar gyfer yr ardal drwy gofnodi cyfran y gosodiadau a wneir i:
    - aelwydydd oedd â chysylltiad hirsefydlog â'r ardal;
    - aelwydydd oedd yn fudwyr diweddar i'r ardal;
    - aelwydydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal;
- cyhoeddi'r wybodaeth am ddeilliannau gosodiadau yn flynyddol mewn fformat hygyrch a hawdd ei ddeall;
- achub ar bob cyfle i wella dealltwriaeth o fewn y gymuned leol o bolisïau a deilliannau dyrannu tai cymdeithasol.

**Cymdeithasau Tai**

8.7 Rydym yn argymell bod cymdeithasau tai yn:

- adolygu eu polisïau dyraniadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol, ac yn mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio fel mater brys;
- gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau enwebu priodol yn eu lle ac y cydymffurfir â hwy, a bod deilliannau yn cael eu monitro;
- ystyried gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu cofrestri tai cyffredin a chynlluniau dyrannu cyffredin, fel ffordd o symleiddio'r broses ddyraniadau i ymgeiswyr;
- gweithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol i gofnodi cyfran y gosodiadau a wneir yn yr ardal i:
    - aelwydydd oedd â chysylltiad hirsefydlog â'r ardal;
    - aelwydydd oedd yn fudwyr diweddar i'r ardal;
    - aelwydydd nad oedd ganddynt gysylltiad â'r ardal.

**Atodiad 1**

## Llyfryddiaeth

Antolin P. a Bover O. (1997) Regional migration in Spain: the effect of personal characteristics and of unemployment, wage and house price differentials using pooled cross-sections. *Oxford Bulletin of Economics and Statistics*, **59** 215-235.

Comisiwn Archwilio (2007) *Crossing Borders: Responding to the local challenges of migrant workers.* Llundain. Comisiwn Archwilio

Beatty C., Fothergill S a Barraclough N (2003) *Labour Market Flows and the Demand for Social Housing: A case study of seaside towns and comparisons with other areas*. Sheffield. Prifysgol Hallam Sheffield

Bell M. (1995) *Internal migration in Australia 1986-91: overview report*. Canberra: Gwasanaeth Cyhoeddi Llywodraeth Awstralia.

Blanchflower D (2007). *Fear, Unemployment and Migration*. Darlith Goffa Esmée Fairbairn. Prifysgol Lancaster dydd Mawrth, 30ain Hydref 2007

Boheim R. a Taylor M (2002) Tied Down or Room to Move? Investigating the relationships between housing tenure, employment status and resifdential mobility in Britain. *Scottish Journal of Political Economy*. **49** 369 - 392

Bover O., Muellbauer J. a Murphy A. (1989) Housing, wages and the UK labour markets. *Oxford Bulletin of Economics and Statistics*, **51** 97-136.

Boyle P.J. (1993) Modelling the relationship between tenure and migration in England and Wales. *Transactions, Institute of British Geographers,* **18** 359-376.

Bramley G. (1995) *Circular Projections: Household Growth, Housing Development and the Household Projections*. Llundain: Cyngor Diogelu Lloegr Wledig.

Bramley G. a Watkins C. (1996) *Steering the Housing Market: New Building and the Changing Planning System*. Bryste: Policy Press.

Buck N. (1994) Housing and residential mobility. Yn N. Buck, J. Gershuny, D. Rose a J. Scott (1994) *Changing Households: the British Household Panel Survey 1990-1992*. Colchester: ESRC Research Centre on Micro-Social Change.

Castree N (2003) *Place: Connections and Boundaries in an Interdependent World* yn Holloway SL, Rice SP a Valentine G (gol) *Key Concepts in Geography*. Llundain. Sage

Champion A. (1996) Internal migration and ethnicity in Britain. Yn P. Ratcliffe (gol.) *Ethnicity in the 1991 Census. Volume Three. Social Geography and Ethnicity in Britain.*Llundain: HMSO.

Champion A. Fotheringham S. Rees P. Boyle P. a Stillwell J.(1998) *The Determinants of Migration Flows in England: A review of existing data and evidence*. Newcastle. Prifysgol Newcastle

Sefydliad Tai Siartredig (2008) *Allocation of Social Housing to Recent Migrants*. Llundain. Cymdeithas Llywodraeth Leol

Congdon P. (1991) An application of general linear modelling to migration in London and South East England. Yn J. Stillwell a P. Congdon (gol.) *Migration models: macro and micro approaches.* Llundain: Belhaven Press.

Cross D.F.W. (1990) *Counterurbanization in England and Wales*. Aldershot: Avebury.

Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2009) Fair and Flexible: Draft statutory guidance on social housing allocations for local authorities in England. Llundain. Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Drinkwater S. a Blackaby D. (2004) *Migration and Labour Market Differences: The case of Wales. Discussion Paper No. 1275*. Bonn. Institute for the Study of Labor.

Dunford M. a Fielding A. (1997) Greater London, the South-east regiom and the wider Britain metropolitan polarization, uneven development and inter-regional migration. Yn H. Blotevogel a A. Fielding (gol.) *People, Jobs and Mobility in the New Europe*. Chichester: John Wiley & Sons.

Evans A.W. (1990) A house price based regional policy. *Regional Studies,* **24** 559-567.

Fielding A. (1993) Migration and the metropolis: an empirical study of inter-regional migration to and from South East England. *Progress in Planning,* **39** 70-166.

Fordham Research Ltd (2005) *Flintshire County Council: Housing Study*. Ionawr 2005
http://www.flintshire.gov.uk/wps/wcm/connect/b4813f00498b5d49b91cfdad36581730/UDP_core_Housing_Need_Study.pdf?MOD=AJPERES&CACHEID=b4813f00498b5d49b91cfdad36581730&CACHEID=f1d37000498b58f68b3fdf650cbf59fd

Forrest R. (1987) Spatial mobility, tenure mobility and emerging social divisions in the UK housing market. *Environment and Planning A,* **19** 1611-1630.

Forrest R. a Murie A. (1994) The dynamics of the owner occupied housing market in southern England in the late 1980s: a study of new buildings and vacancy chains. *Regional Studies,* **28** 275-289.

Gallent N (2007) Second homes, community and a hierarchy of dwelling *Area* **39**, 97 - 106

Gallent N, Mace A a Tewdwr-Jones M (2003) Dispelling a Myth? Second homes in rural Wales *Area* **35**, 271 - 284

Glover S. Gott C. Loizillon A Portes J Price R Spencer S Srinivasan V a Wllis C. (2001) *Migration: an economic and social analysis RDS Occassional Paper 57*. Llundain. Y Swyddfa Gartref

Gordon I.R. (1982) The analysis of motivation specific migration streams. *Environment and Planning A,* **14** 5-20.

Green A. (1992) Migration trends for Wales: rural revival? Yn J. Stillwell, P. Rees a P. Boden (gol.) *Migration Processes and Patterns. Volume 2: Population Redistribution in the United Kingdom.* Llundain: Belhaven.

Green A.E. (1997) A question of compromise? Case study evidence on the location and mobility strategies of dual career households. *Regional Studies*, **31** 641-657.

Green A. Owen D. a Duncan A. (2008) *A Resource Guide on Local Migration Statistics.* Llundain. Cymdeithas Llywodraeth Leol

Haartsen T, Groote P a Huigen PPP (2000) *Reclaiming Rural Identities* in Haartsen T, Groote P a Huigen PPP (gol) *Claiming Rural Identities: Dynamics, Contexts, Policies*. Uitgeverij Van Gorcum.

Halfacree K. (1994) The importance of “the rural” in the constitution of counterurbanization: evidence from England in the 1980s. *Sociologia Ruralis*, **XXXIV** 164-89.

Halfacree K (2006) *Rural Space: constructing a three fold architecture* yn Cloke P, Marsden T a Mooney P (eds) *Handbook of Rural Studies*. Llundain. Sage.

Halliday J. a Coombes M. (1995) In search of counterurbanization: some evidence from Devon on the relationship between patterns of migration and motivation. *Journal of Rural Studies*, **11** 433-46.

Harrigan F., Jenkins J. a McGregor P. (1986) A behavioural model of migration: an evaluation of neo-classical and Keynesian alternatives. *Working Paper* 42, Athrofa Frazer of Allander, Prifysgol Strathclyde.

Hartwell S. Kitchen L. Milbourne P. a Morgan S. (2007) *Population Change in Rural Wales: Social and cultural impacts. Research Report No.14.* Wales Rural Observatory

Hodge M. (2007) *A Message to My Fellow Immigrants*. The Observer. Dydd Sul 20[fed] Mai 2007

Pwyllgor Trysorlys Tŷ'r Cyffredin (2008) *Counting the Population* Unfed Adroddiad ar Ddeg y Sesiwn 2007-08. Llundain. HMSO

Hughes G. a McCormick B. (1981) Do council housing policies reduce migration between regions? *Economic Journal,* **91** 919-937.

IDeA (2008) *New Migration, Changing Dynamics, Local Responses: Learning from the migration excellence programme*. Llundain. Improvement and Development Agency

Humphreys C a Stirling T (2008) *Necessary but not sufficient: housing and the reduction of re-offending.* Caerdydd. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Jackman R. a Savouri S. (1992) Regional Migration in Britain: an analysis of gross flows using NHS central register data. *Economic Journal* **102** 1433 - 1450

Jones H (2009) *Supporting Welsh Language Communities*. Cyflwyniad a roddwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2009. Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Joseph Rowntree Foundation (2008) *JRF Commissionon Rural Housing in Wales: Final Report*. York. Joseph Rowntree Foundation

Kitching R. (1990) Migration behaviour among the unemployed and low-skilled. In J.H. Johnson a Salt J. (gol.) *Labour Migration: the Internal Geographical Mobility of Labour in the Developed World*. Llundain: David Fulton

Lee E. (1966) A theory of migration. *Demography*, **3** 47-57.

Lewis G a Sherwood K (2000) *Contemporary Migrations in Rural England: some alternative perspectives* yn Haartsen T, Groote P a Huigen PPP (gol) *Claiming Rural Identities: Dynamics, Contexts, Policies*. Uitgeverij Van Gorcum.

Martin EW (1962) *The Book of the Village*. Llundain, Phoenix House

Massey D (1991) A Global Sense of Place *Marxism Today* Mehefin 1991

Minford P., Peel M. a Ashton P. (1987) *The Housing Morass: Regulation, Immobility and Unemployment.* Llundain: Institute of Economic Affairs.

Nathan M. (2008) *Your Place or Mine: the local economics of migration*. Llundain. Institute for Public Policy Research

Newby H (1979) *Green and Pleasant Land?* Llundain, Hutchinson

Newton P. a Bell M. (gol) (1996) *Population Shift: Mobility and Change in Australia*. Canberra: Gwasanaeth Cyhoeddi Llywodraeth Awstralia.

Öberg S. (1997) Theories of inter-regional migration: an overview. Yn H. Blotevogel a A. Fielding (eds.) *People, Jobs and Mobility in the New Europe*. Chichester: John Wiley & Sons.

Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (2008) *International Migration. Series MN No 33.* Casnewydd. Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

Owen D. a Green A. (1992) Migration patterns and trends. Yn A. Champion a A. Fielding (gol.) *Migration Processes and Patterns. Volume 1. Research Progress and Prospects.* Llundain: Belhaven.

Pawson H. a Watkins D. (2008) *Analysing Key Trends in the Supply and Distribution of Social Housing Lettings.* Sector Study No 62. Llundain. Housing Corporation

Pissarides C. a Wadsworth J. (1989) Unemployment and the inter-regional mobility of labour. *Economic Journal,* **99** 739-755.

Portes J. a French S. (2005) *The Impact of Free Movement of Workers from Central and Eastern Europe on the UK Labour Market: early evidence*. Working Paper No. 18. Llundain. Adran Gwaith a Phensiynau

Robinson (2008) *New Immigrants and Migrants in Social Housing in England.* Llundain. Cymdeithas Llywodraeth Leol

Rutter J a Latorre M. (2009) *Social Housing Allocation and Immigrant Communities.* Llundain, Research Report 4, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Shelter (2008) *No Place Like Home: addressing the issues of housing and migration*. Llundain. Shelter

Shipley I. (2008) *Statistics on Migrant Workers in Wales, 2008.* Caerdydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru

Stillwell J.C.H., Rees P. a Duke-Williams O. (1996) Migration between NUTS Level 2 regions in the United Kingdom. Yn P. Rees, J. Stillwell, A. Convey a M. Kupiszewski (gol.) *Population Migration in the European Union*. Chichester: John Wiley.

Strathern M (1984) *The Social Meanings of Localism* yn Bradley T a Lowe P *Locality and Rurality: Economy and Society in Rural Regions*. Geo Books

Van Dijk J., Folmer H., Herzog, H. a Schlottman A. (1989) Labour market institutions and the efficiency of interregional migration: a cross nation comparison. Yn Van Dijk J.,Folmer H., Herzog, H. a Schlottman A. (gol.) *Migration and Labour Market Adjustment.* Dordrecht: Kluwer.

Warnes A. (1992) Migration and the life course. Yn A. Champion a A. Fielding (gol.) *Migration Processes and Patterns. Volume 1: Research Progress and Prospects*. Llundain: Belhaven.

Warnes A. a Ford R. (1995) Housing aspirations and migration in later life: developments during the 1980s. *Papers in Regional Science*, **74** 361-387.

Webb T (2006) Cymuned against Colonisation. 16eg Mawrth 2006. http://cymuned.net/blogsaesneg/?cat=3

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Patrymau Mudo i Gymru: Gweddill y DU a rhyngwladol*. Caerdydd. Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Patrymau Mudo i Gymru*. Caerdydd. Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Woods M (2007) Engaging the Global Countryside: globalisation, hybridity and the reconstitution of rural place *Progress in Human Geography* **31**, 485 - 507

Woods M. a Watkin S. (2008) *Central and Eastern European Migrant Workers in Rural Wales.* Adroddiad Ymchwil 20. Wales Rural Observatory

**Atodiad 2**

## Ystadegau Poblogaeth Allweddol ar gyfer y 'Chwe Sir'

| | Ynys Môn | Ceredigion | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % y boblogaeth o oed gweithio yn 2007[22] | 57.6 | 61.3 | 55.4 | 57.7 | 61.3 | 58.7 | 60.3% |
| % y boblogaeth o oed gweithio oedd yn weithgar yn economaidd 2007-08[23] | 74.8 | 69.3 | 77.5 | 75.1 | 82 | 75.4 | 75.8 |
| % y boblogaeth yn derbyn budd-daliadau allan o waith allweddol Awst 2008[24] | 14.2 | 10.2 | 14.4 | 14.9 | 11.0 | 12.0 | 15.6 |
| % y boblogaeth weithio a gyflogwyd yn y sector gwasanaeth 2007[25] | 75.1 | 88.1 | 89.7 | 84% | 59.3 | 86.1 | 79.4 |
| % y boblogaeth weithio a gyflogwyd yn y sector twristiaeth 2007 [26] | 10.3 | 13.4 | 17.2 | 10.5 | 6.6 | 14.1 | 8.8 |
| % y boblogaeth weithio a gyflogwyd yn y sector gweithgynhyrchu 2007[27] | 15.3 | 5.5 | 4.2 | 10.1 | 33.9 | 8.3 | 13.6 |
| % y boblogaeth a gyflogwyd yn y sector amaethyddiaeth 2001[28] | 3.8 | 8.6 | 3.1 | 3.6 | 1.5 | 4.7 | 2.4 |
| Cyflog net wythnosol cyfartalog canolrif gweithwyr llawn amser[29] | 427.90 | 370.10 | 437.40 | 392.00 | 440.90 | 389.90 | 425.30 |
| % yr aelwydydd yn byw mewn tai perchnogion preswyl[30] | 68 | 69.9 | 73.4 | 72.5 | 75.8 | 66.6 | 71.3 |
| % yr aelwydydd yn byw mewn cartref a rentir gan landlord cymdeithasol[31] | 16.9 | 11.9 | 11.9 | 13.2 | 16.5 | 18.3 | 17.9 |
| % yr aelwydydd yn byw mewn cartref a rentir gan landlord preifat[32] | 11.6 | 15.7 | 12.6 | 12.1 | 6.5 | 11.9 | 8.6 |

[22] Ffynhonnell ONS Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn
[23] Ffynhonnell ONS Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2007-2008
[24] Ffynhonnell DWP hawlwyr budd-daliadau – grŵp cleientiaid oed gweithio. Mae budd-daliadau allan o waith allweddol yn cynnwys y grwpiau canlynol: ceisio gwaith, budd-daliadau analluogrwydd, rheini unigol ac eraill ar fudd-daliadau cysylltiedig ag incwm
[25] Ffynhonnell: ONS dadansoddiad cyflogeion archwiliad busnes blynyddol
[26] ibid
[27] ibid
[28] Ffynhonnell Cyfrifiad 2001
[29] Ffynhonnell: ONS arolwg blynyddol oriau ac enillion – dadansoddiad preswylwyr
[30] Ffynhonnell Cyfrifiad 2001
[31] ibid

# Atodiad 3


**Tabl 1. Cynnydd/gostyngiad mudol net ym mhob un o'r chwe sir yng Nghymru a Lloegr dros y cyfnod Mehefin 2004 hyd Gorffennaf 2007.**[33] *Ffynhonnell PRDS*

| | GDd Lloegr | GO Lloegr | Swydd Efrog a Hum-berside | D Can. Lloegr | G. Can. Lloegr | Dwyrain Lloegr | Llundain | DDd Lloegr | DO Lloegr | DDd Cymru | Canol De Cymru | De Cymru Gorll | Gorll Cymru | Gog. Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ceredigion** | 10 | -120 | 110 | 130 | 700 | 110 | -70 | 270 | 0 | 130 | -270 | -30 | -30 | 50 |
| **Conwy** | -80 | 1040 | 50 | 110 | 450 | 130 | 190 | 120 | -120 | -30 | -70 | 10 | 10 | 160 |
| **Sir Ddinbych** | -50 | 980 | 50 | -40 | 300 | 110 | 80 | 210 | 40 | 10 | -60 | -40 | 50 | 670 |
| **Sir y Fflint** | -10 | 1000 | -110 | -120 | 20 | 30 | 100 | 50 | -150 | 30 | -10 | -30 | -60 | -780 |
| **Gwynedd** | 30 | 210 | 10 | 130 | 550 | 50 | 240 | 250 | -130 | 0 | -160 | -40 | 70 | -640 |
| **Ynys Môn** | 10 | 320 | 40 | 0 | 170 | 10 | 0 | 120 | -50 | -20 | 20 | -30 | -70 | 270 |


[32] ibid
[33] Dylid trin y data a ddefnyddiwyd uchod yn ddangosol yn unig oherwydd bod y ffigurau yn seiliedig ar ddata crynhoad a dalgrynnwyd yn wreiddiol gan ONS

## Llifoedd mudol i'r 'chwe sir' ac allan ohonynt


***Ffigur 1. Llifoedd mudol i mewn i Ynys Môn o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*




***Ffigur 2. Llifoedd mudol allan o Ynys Môn o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*



***Ffigur 3. Llifoedd mudol i mewn i Geredigion o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*




***Ffigur 4. Llifoedd mudol allan o Geredigion o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*




***Ffigur 5. Llifoedd mudol i mewn i Gonwy o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007***


*Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*




***Ffigur 6. Llifoedd mudol allan o Gonwy o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*




***Ffigur 7. Llifoedd mudol i mewn i Sir Ddinbych o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*




***Ffigur 8. Llifoedd mudol allan o Sir Ddinbych o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*




***Ffigur 9. Llifoedd mudol i mewn i Sir y Fflint o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*




***Ffigur 10. Llifoedd mudol allan o Sir y Fflint o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*



***Ffigur 11. Llifoedd mudol i mewn i Wynedd o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*




***Ffigur 12. Llifoedd mudol allan o Wynedd o ranbarthau Lloegr a Chymru yn ystod y cyfnod Gorffennaf 2004 hyd Gorffennaf 2007*** *Ffynhonnell Gwasanaeth Data Cofrestr Cleifion, ONS*



## Atodiad 4

## Gweithgarwch Digartrefedd yn y 'Chwe Sir'

***Ffigur 1. Ymholiadau digartrefedd yn y 'chwe sir' 2005-06 hyd 2007-08.*** *Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru.*





***Tabl 1. Ymholiadau digartrefedd ym mhob un o'r 'chwe sir' 2005-06 hyd 2007-08.***
*Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru.*

| Awdurdod Lleol | **2005-06** | **2006-07** | **2007-08** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 449 | 382 | 386 |
| Gwynedd | 987 | 1216 | 1344 |
| Conwy | 705 | 483 | 451 |
| Sir Ddinbych | 1127 | 764 | 957 |
| Sir y Fflint | 770 | 374 | 1182 |
| Ceredigion | 886 | 972 | 486 |

***Ffigur 2. Penderfyniadau digartrefedd yn y 'chwe sir' 2005-06 hyd 2007-08.*** *Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru*

/





***Tabl 2. Penderfyniadau digartrefedd ym mhob un o'r 'chwe sir' yn y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08.*** *Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru*

.

| Awdurdod Lleol | **2005-06** | **2006-07** | **2007-08** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 421 | 367 | 389 |
| Gwynedd | 885 | 683 | 639 |
| Conwy | 646 | 414 | 385 |
| Sir Ddinbych | 593 | 311 | 253 |
| Sir y Fflint | 770 | 374 | 183 |
| Ceredigion | 482 | 220 | 186 |


***Ffigur 3. Aelwydydd y cafwyd eu bod yn ddigartref ac yn gymwys am gymorth yn y 'chwe sir' 2005-06 hyd 2007-08.*** *Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru*





***Tabl 3. Aelwydydd y cafwyd eu bod yn ddigartref ac yn gymwys am gymorth ym mhob un o'r 'chwe sir' 2005-06 hyd 2007-08.*** *Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru*

| Awdurdod Lleol | **2005-06** | **2006-07** | **2007-08** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 149 | 155 | 213 |
| Gwynedd | 356 | 279 | 292 |
| Conwy | 350 | 212 | 177 |
| Sir Ddinbych | 178 | 147 | 120 |
| Sir y Fflint | 401 | 242 | 144 |
| Ceredigion | 162 | 101 | 93 |

***Ffigur 4. Gosodiadau tai cymdeithasol ar gael i'r Cynghorau yn y 'chwe sir' 2005-06 hyd 2007-08.*** *Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru*
.




***Ffigur 5. Gosodiadau tai cyngor yn y 'chwe sir' 2005-06 hyd 2007-08.*** *Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru.*




***Tabl 4. Gosodiadau tai cyngor ym mhob un o'r 'chwe sir' yn y cyfnod 2005-06 hyd 2007-08.*** *Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru*

.

| Awdurdod Lleol | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 194 | 194 | 197 |
| Gwynedd | 341 | 301 | 272 |
| Conwy | 237 | 222 | 216 |
| Sir Ddinbych | 184 | 149 | 185 |
| Sir y Fflint | 393 | 538 | 306 |
| Ceredigion | 148 | 126 | 137 |

***Ffigur 6. Gosodiadau cymdeithasau tai yn dilyn enwebiad gan un o'r cynghorau yn y 'chwe sir' 2005-06 hyd 2007-08.*** *Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru.*




***Tabl 5. Gosodiadau cymdeithasau tai ym mhob un o'r 'chwe sir' 2005-06 hyd 2007-08.*** *Ffynhonnell Rheoli a Pherfformiad Tai, Llywodraeth Cynulliad Cymru.*

.

| Awdurdod Lleol | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 21 | 41 | 55 |
| Gwynedd | 0 | 47 | 77 |
| Conwy | 57 | 48 | 51 |
| Sir Ddinbych | 44 | 57 | 61 |
| Sir y Fflint | 43 | 20 | 40 |
| Ceredigion | 44 | 44 | 54 |